Dadansoddi ar gyfer Polisi

YMCHWIL GYMDEITHASOL Y LLYWODRAETH

GSR

GOVERNMENT SOCIAL RESEARCH

Analysis for Policy

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

RHIF YMCHWIL GYMDEITHASOL:
107/2023
DYDDIAD CYHOEDDI:
21/11/2023

# Gwerthusiad o'r Cyllid Adferiad COVID-19 Ôl-16 2022-2023

OGL © Crown Copyright Digital ISBN 978-1-83504-985-3

Teitl: Gwerthusiad o'r Cyllid Adferiad COVID-19 Ôl-16 2022-2023

Awduron: Tave Browett, Andreas Culora, Julia Griggs, Shona MacLeod, Martin Manuch gyda Calvin Lees.

Adroddiad Ymchwil Llawn: Browett, T., Culora, A., Griggs J., MacLeod, S. a Manuch, M. Gyda Lees, C. (2023). Gwerthusiad o'r Cyllid Adferiad COVID-19 Ôl-16 2022-2023. Caerdydd: Llywodraeth Cymru, GSR adroddiad rhif 107/2023.
Ar gael yn: https://www.llyw.cymru/gwerthusiad-or-cyllid-adferiad-covid-19-ol-16-ebrill-2022-mawrth-2023

Barn yr ymchwilydd a fynegir yn yr adroddiad hwn ac nid o reidrwydd barn Llywodraeth Cymru

Am fwy o wybodaeth cysylltwch â:
James Lundie
Yr Is-adran Ymchwil Gymdeithasol a Gwybodaeth
Gwasanaethau Gwybodaeth a Dadansoddi
Llywodraeth Cymru, Parc Cathays
Caerdydd CF10 3NQ

Ebost: cyflogadwyedd.sgiliau.ymchwil@llyw.cymru

## Tabl cynnwys

Rhestr ffigurau....................................................................................................2
Rhestr tablau....................................................................................................3
Cydnabyddiaeth....................................................................................................4
Rhestr termau....................................................................................................5
1. Cyflwyniad a chefndir ....................................................................................................8
2. Nodau a methodoleg y gwerthusiad ....................................................................................................14
3. Canfyddiadau allweddol ....................................................................................................21
4. Sut y cafodd Cyllid Adferiad COVID-19 Ôl-16 Llywodraeth Cymru ei ddosbarthu...28
5. Sut y defnyddiwyd y cyllid, a phenderfyniadau o fewn sefydliadau ..........................34
6. Profiadau staff sefydliadau ....................................................................................................47
7. Profiadau dysgwyr ôl-16....................................................................................................59
8. Dysgu a chynaladwyedd arferion newydd ....................................................................................................77
9. Deilliannau a chanfyddiadau o effeithiolrwydd ....................................................................................................87
10. Argymhellion ....................................................................................................105
Atodiad A Fframwaith gwerthuso ar gyfer y dyfodol....................................................................................................114
Atodiad B Diagram ffrydiau cyllido ....................................................................................................137
Atodiad C Theori Newid ....................................................................................................138

**Rhestr ffigurau**

Ffigur 2.1 Cyfnodau'r gweithgarwch gwerthuso ..... 15
Ffigur 6.1 Arolwg staff: Canfyddiadau staff o sut y defnyddiwyd y Cyllid Adferiad COVID-19 i gefnogi staff ..... 48
Ffigur 6.2 Arolwg staff: Sut y defnyddiwyd y Cyllid Adferiad COVID-19 i gefnogi dysgwyr ..... 51
Ffigur 6.3 Arolwg staff: Sut yr oedd staff yn teimlo am ddychwelyd i ddysgu wyneb yn wyneb ..... 55
Ffigur 6.4 Arolwg staff: Rhesymau pam yr oedd staff yn teimlo'n bositif am ddychwelyd i ddysgu wyneb yn wyneb ..... 56
Ffigur 6.5 Arolwg staff: I ba raddau y teimlai staff iddynt gael eu cefnogi wrth ddychwelyd i ddysgu wyneb yn wyneb ..... 57
Ffigur 6.6 Arolwg staff: Rhesymau pam yr oedd staff yn teimlo'n negyddol am ddychwelyd i ddysgu wyneb yn wyneb ..... 58
Ffigur 7.1 Arolwg dysgwyr: Effeithiau COVID-19 ar astudiaethau dysgwyr ..... 60
Ffigur 7.2 Arolwg dysgwyr: Anghenion cymorth dysgwyr ..... 61
Ffigur 7.3 Arolwg dysgwyr: Cymorth a gynigiwyd gan sefydliadau ..... 63
Ffigur 7.5 Arolwg dysgwyr: Hyder wrth ddefnyddio offer digidol ar gyfer dysgu cyfunol/ar-lein ..... 71
Ffigur 7.7 Arolwg dysgwyr: A oedd y cymorth wedi helpu dysgwyr gyda'u hiechyd meddwl a'u lles ..... 73
Ffigur 7.8 Arolwg dysgwyr: Sut oedd dysgwyr yn teimlo am ddychwelyd i addysgu wyneb yn wyneb ..... 74
Ffigur 7.9 Arolwg dysgwyr: Rhesymau pam yr oedd dysgwyr yn teimlo'n bositif am ddychwelyd i addysgu wyneb yn wyneb ..... 75
Ffigur 7.10 Arolwg dysgwyr: Rhesymau pam yr oedd dysgwyr yn teimlo'n negyddol am ddychwelyd i ddysgu wyneb yn wyneb ..... 76
Ffigur 8.1 Arolwg staff: Anghenion cymorth parhaus staff ..... 82
Ffigur 8.2 Arolwg staff: Anghenion cymorth parhaus dysgwyr ..... 84
Ffigur 8.3 Arolwg staff: Teimladau staff ynghylch sut y gellid ymdrin ag anghenion parhaus staff ..... 86
Ffigur 9.1 Arolwg staff: A oedd y cyllid COVID-19 wedi lliniaru effeithiau negyddol y pandemig ..... 95

Ffigur 9.2 Arolwg staff: Effaith y cyllid Covid-19 ar ddysgwyr ............................................... 99

**Rhestr tablau**

Tabl 2.1 Grwpiau cyfranogwyr a'r samplau a gyflawnwyd....17
Tabl 5.1 Data GR: Defnydd o gyllid digidol gan sefydliadau AB....40
Tabl 5.2 Data GR: Gweithgareddau pontio mewn AB ac adrannau chweched dosbarth 2020/21....44
Tabl 6.1 Arolwg staff: Rôl y staff a ymatebodd i'r arolwg....47
Tabl 7.1 Arolwg dysgwyr: Y cymorth a ddefnyddiwyd gan ddysgwyr....64
Tabl 7.2 Arolwg dysgwyr: Cymorth iechyd meddwl a lles a ddefnyddiwyd....67
Tabl 11.1 Deilliannau ac effeithiau wedi'u heithrio o'r fframwaith deilliannau gyda'r rheswm dros eithrio....116
Tabl 11.2 Fframwaith deilliannau....119
Tabl 11.3 Cymharu data sylfaenol ac eilaidd ar gyfer CIE....130
Tabl 11.4 Asesiad o risgiau i asesiad CIE/VfM o gyllid tebyg yn y dyfodol....135

**Cydnabyddiaeth**

Hoffai tîm ymchwil Ecorys a L&W ddiolch i Heledd Jenkins, James Lundie a Jessica Steventon yng Ngwasanaeth Gwybodaeth a Dadansoddi Llywodraeth Cymru am eu harweiniad trwy gydol y gwerthusiad.

Rydym hefyd yn diolch i'r holl uwch randdeiliaid, arweinwyr sefydliadau, staff a dysgwyr a roddodd yn garedig o'u hamser i gefnogi'r gwerthusiad a chymryd rhan ynddo. Hebddynt, ni fuasai modd cynnal y gwerthusiad hwn.

Rydym hefyd yn diolch i'r tîm ymchwil i gyd a gefnogodd ac a gyflwynodd weithgareddau gwerthuso. Yn Ecorys: Tave Browett, Andreas Culora, Pera Cumur, Samuel Greet, Martin Manuch, Alex Pangalos, Beatriz Sasse a Sophia Stone. Cefnogodd Kelly Davies, Swyddog Ecorys, gyflwyniad y gwerthusiad a bu iddi arwain gweithgareddau iaith Gymraeg. Arweiniodd Julia Griggs dîm y prosiect a bu i Shona MacLeod a Diarmid Campbell-Jack oruchwylio’r gwaith o gyflwyno’r gwerthusiad a darparu sicrwydd ansawdd. Yn L&W: Bu i Calvin Lees a David Hagendyk gefnogi casglu a dadansoddi data.

**Rhestr termau**

| Acronym | Diffiniad |
|---|---|
| **ADY** | Anghenion Dysgu Ychwanegol |
| **ESL** | Saesneg fel Ail Iaith |
| **ESOL** | Saesneg i Siaradwyr Ieithoedd Eraill |
| **AB** | Addysg Bellach |
| **GF** | Grŵp Ffocws |
| **PYaDd** | Prydau Ysgol Am Ddim |
| **AU** | Addysg Uwch |
| **CCAUC** | Cyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru |
| **SBA** | Sgiliau Byw'n Annibynnol |
| **ALl** | Awdurdod Lleol |
| **CDGOC** | Cofnod Dysgu Gydol Oes Cymru |
| **ACD** | Cyllid Adferiad a Chynnydd Dysgwyr |
| **GR** | Gwybodaeth Reoli |
| **GIG** | Gwasanaeth Iechyd Gwladol |
| **LlC** | Llywodraeth Cymru |
| **CLlLC** | Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru |

**Braslun o'r adroddiad**

| | |
|---|---|
| **Pennod 1** | Yn darparu cyflwyniad i'r gwerthusiad ac yn disgrifio'r cyd-destun polisi |
| **Pennod 2** | Yn amlinellu nodau a methodoleg y gwerthusiad |
| **Pennod 3** | Yn crynhoi'r canfyddiadau allweddol |
| **Pennod 4** | Yn nodi'r gwahanol ffrydiau cyllido a sut y cawsant eu dosbarthu ar draws y sector |
| **Pennod 5** | Yn archwilio prosesau penderfynu sefydliadol a defnyddio'r Cyllid Adferiad COVID-19 |
| **Pennod 6** | Yn adrodd ar brofiadau staff sefydliadau |
| **Pennod 7** | Yn adrodd ar brofiadau dysgwyr |
| **Pennod 8** | Yn archwilio heriau, gwersi a ddysgwyd ac ystyriaethau o ran cynaladwyedd |
| **Pennod 9** | Yn archwilio deilliannau cyffredinol a chanfyddiadau o effeithiolrwydd y Cyllid Adferiad COVID-19 |
| **Pennod 10** | Yn cyflwyno argymhellion sy'n deillio o'r ymchwil |
| **Atodiad A** | Yn trafod opsiynau ar gyfer fframwaith gwerthuso yn y dyfodol |

# 1. Cyflwyniad a chefndir

### Cyflwyniad

1.1 Achosodd y pandemig COVID-19 aflonyddwch eang i addysgu a dysgu ar draws Cymru. Roedd hyn yn cynnwys effeithiau negyddol cryfion ar ddysgwyr, staff a sefydliadau/darparwyr ar draws y sector ôl-16. Er mwyn i ddysgu barhau ac i ymdrin â'r effeithiau negyddol hyn, dosbarthodd Llywodraeth Cymru oddeutu £295 miliwn o Gyllid Adferiad COVID-19 i'r sector. Bwriad y cyllid oedd cefnogi adrannau chweched dosbarth ysgolion, sefydliadau Addysg Bellach (AB), darparwyr Dysgu Seiliedig ar Waith (DSW), sefydliadau Addysg Uwch (SAU) a darparwyr Dysgu Oedolion yn y Gymuned (DOC) i ddiwallu anghenion cymorth uniongyrchol a thymor hwy. Comisiynwyd Ecorys a L&W gan Lywodraeth Cymru i gynnal gwerthusiad dull cymysg â sawl llinyn o'r Cyllid Adferiad COVID-19. Mae'r adroddiad a ganlyn yn cyflwyno canfyddiadau'r gwerthusiad.

### Cyd-destun polisi: effaith y pandemig COVID-19 ar ddysgu ôl-16

1.2 Dechreuodd yr argyfwng COVID-19 (coronafeirws) (y pandemig) yn y DU yn rhan gyntaf 2020. Bu i Lywodraethau'r DU a Chymru ymateb gyda chynnydd graddol mewn mesurau cadw pellter cymdeithasol a ddyluniwyd i arafu lledaeniad y firws, gan arwain at gyfnod clo cenedlaethol. Caeodd ysgolion, colegau, prifysgolion a darparwyr hyfforddiant yng Nghymru ar gyfer dysgu wyneb yn wyneb ddydd Gwener 20 Mawrth.[1] Lle bynnag y bu modd, symudodd dysgu ôl-16 ar-lein, gyda darparwyr yn cynnig darpariaeth gyfunol[2] i'r rhai a allai gael mynediad ato. Cafodd arholiadau'r haf eu canslo, ac yn lle hynny aseswyd cymwysterau gan ddefnyddio model graddau a bennwyd gan y canolfannau.

1.3 Er gwaethaf ymdrechion darparwyr i symud i ddysgu cyfunol, profodd dysgwyr ar draws y sector ôl-16 fylchau yn eu haddysg oherwydd y pandemig. Maent hefyd wedi llywio heriau cymdeithasol ynysu oddi wrth eu cyfoedion, yr angen am addasu i ddysgu cyfunol ac ansicrwydd ynghylch dulliau asesu a dyfarnu.[3]

---

[1] Parhaodd ysgolion i gynnig darpariaeth graidd i blant agored i niwed a phlant gweithwyr allweddol.

[2] Mae dysgu cyfunol yn darparu cyfuniad o ddysgu wyneb yn wyneb a gweithgareddau a chynnwys digidol deinamig sy'n hwyluso dysgu unrhyw bryd/unrhyw le. https://hwb.gov.wales/dysgu-cyfunol/dysgu-a-sgiliau-ol-16/canllawiau-dysgu-cyfunol-ar-gyfer-darparwyr-ol-16

[3] Canolfan Polisi Cyhoeddus Cymru (2021) Yr ymateb addysg i'r Coronafeirws: Goblygiadau i ysgolion yng Nghymru. [Ar-lein]. Ar gael yn: https://www.wcpp.org.uk/wp-content/uploads/2021/02/Ymateb-addysg-i%E2%80%99r-Coronafeirws.-Goblygiadau-i-ysgolion-yng-Nghymru.pdf

1.4 At hynny, effeithiwyd yn negyddol ar les meddyliol, dysgu ac iechyd corfforol dysgwyr gan y cyfyngiadau ar fynediad i amgylcheddau dysgu diogel a chynhyrchiol. Mae hyn wedi effeithio'n benodol ar y rhai a oedd eisoes o dan anfantais a/neu'r rhai â chyfrifoldebau gofalu ychwanegol.[4]

1.5 Canfu arolwg gan YoungMinds i 67 y cant o bobl ifanc 13–25 oed gredu y byddai'r pandemig yn cael effaith negyddol hirdymor ar eu hiechyd meddwl.[5] Roedd hyn yn arbennig o amlwg ymhlith y rhai oedd wedi cael profedigaeth neu brofiadau trawmatig yn ystod y pandemig, a'r rhai oedd yn pryderu a fyddai modd ailgydio mewn cyfeillgarwch ag eraill. Dywedodd ymatebwyr i'r arolwg hefyd iddynt deimlo'n bryderus am golli addysg a'u cyfleoedd cyflogaeth yn y dyfodol.

1.6 Er i ddysgwyr o bob oed gael eu heffeithio, mae dysgwyr iau yn y sector ôl-16, neu'r rhai a bontiodd i addysg ôl-16 yn ystod y pandemig, yn debygol o fod wedi profi effaith sylweddol o ran eu datblygiad cymdeithasol, emosiynol ac addysgol. Cafodd y pandemig effaith andwyol hefyd ar y rhai o gymunedau a chefndiroedd llai cefnog ac ar bobl ifanc o deuluoedd y nodwyd yn flaenorol bod angen cymorth ychwanegol arnynt, e.e., pobl ifanc ag Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY).[6]

1.7 Yn ogystal â chreu anghenion cymorth ychwanegol i ddysgwyr, bu i'r pandemig gyflymu'r angen am gymorth digidol, wrth i sefydliadau addasu i addysgu cyfunol ac ar-lein. Bu'n rhaid i staff addasu eu hadnoddau dysgu a'u dull gweithredu fel eu bod yn addas ar gyfer y ddarpariaeth gyfunol/ar-lein. Roedd darparwyr a staff a oedd wedi ymgorffori agweddau ar ddysgu cyfunol yn eu dull gweithredu cyn y pandemig yn gallu symud yn gyflymach i ddarpariaeth ar-lein. Rhoddodd hyn bwysau sylweddol ar aelodau staff, ar draws y sector ôl-16, i feithrin eu sgiliau digidol wrth i sefydliadau ddibynnu'n gynyddol ar ddysgu cyfunol.[7]

1.8 Roedd aflonyddwch parhaus i addysg ôl-16 ar draws y flwyddyn academaidd 2020/21, gydag ysgolion wedi'u cau'n gyffredinol yn yr ychydig wythnosau cyntaf, a dychweliad i ddysgu o bell/dysgu cyfunol. Ym mis Medi 2021, roedd y rhan fwyaf o

---

[4] Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, Senedd Cymru (2020) Effaith COVID-19 ar blant a phobl ifanc. [Ar-lein]. Ar gael yn: https://senedd.cymru/media/tpol2kwe/cr-ld13315-w.pdf

[5] YoungMinds (2021) The impact of COVID-19 on young people with mental health needs. [Ar-lein]. Ar gael yn: https://www.youngminds.org.uk/about-us/reports-and-impact/coronavirus-impact-on-young-people-with-mental-health-needs/

[6] Llywodraeth Cymru (2020) Crynodeb o Asesiad Effaith Integredig Llywodraeth Cymru: Asesu effaith y penderfyniadau polisi cychwynnol a gymerwyd mewn perthynas â darparu addysg mewn ymateb i Covid-19. [Ar-lein]. Ar gael yn: https://www.llyw.cymru/y-ddarpariaeth-addysg-mewn-ymateb-i-covid-19-asesiad-effaith

[7] Estyn (2021) Datblygiadau mewn arferion dysgu o bell a dysgu cyfunol. [Ar-lein]. Ar gael yn: https://www.estyn.llyw.cymru/adroddiadau-thematig/datblygiadau-mewn-arferion-dysgu-o-bell-dysgu-cyfunol

ddarparwyr addysg ôl-16 wedi dychwelyd i addysg wyneb yn wyneb, gyda sefydliadau'n cadw agweddau ar ddarpariaeth gyfunol, lle y bu'n briodol. Er gwaethaf hyn, parhaodd y pandemig i achosi cryn aflonyddwch yn y sector ôl-16 (a thu hwnt). Arweiniodd achosion parhaus at nifer o gyfnodau clo lleol dros gyfnod y tymor, gan gynnwys 'cyfnod atal byr' a amserlennwyd i gyd-fynd â gwyliau hanner tymor yr hydref. Wrth i achosion o COVID-19 ymhlith y staff a'r dysgwyr gynyddu, a gydag anawsterau parhaus wrth ddod o hyd i staff cyflenwi, bu'n rhaid i rai darparwyr anfon dosbarthiadau neu grwpiau blwyddyn adref. Roedd hyn yn broblem benodol gyda lledaeniad yr amrywiad Omicron.

1.9 Er gwaethaf angen a gydnabuwyd i ymdrin â bylchau dysgu, bu i'r pandemig waethygu'r heriau recriwtio yr oedd llawer o ddarparwyr eisoes yn eu hwynebu. Cafodd sefydliadau drafferth wrth recriwtio staff newydd, yn enwedig staff cefnogi fel cynorthwywyr gweinyddol ac addysgu neu arbenigwyr TG.[8]

1.10 Roedd effaith negyddol nodedig hefyd ar allu dysgwyr i ddefnyddio Cymraeg llafar. Yn benodol, bu tystiolaeth o ddiffyg hyder dysgwyr i siarad Cymraeg a'u bod yn parhau i'w chael yn anodd ar ôl dychwelyd i ddysgu wyneb yn wyneb am mai drwy eu darparwr addysg fu eu prif gyswllt â'r iaith erioed.[9]

1.11 Gan adlewyrchu'r aflonyddwch i ddysgu, roedd y mwyafrif o ddysgwyr AB yn dechrau eu cyrsiau o fan cychwyn is na'r hyn a ddisgwylir fel arfer. Roedd hyn yn broblem arbennig o ran sgiliau rhifedd/ mathemateg dysgwyr AB.[10] Ni fu'n rhaid i lawer o ddysgwyr newydd sefyll arholiadau allanol yn ystod Blwyddyn 10 ac 11 o ganlyniad i aflonyddwch COVID-19, gan arwain at fwy o bryder ynghylch arholiadau ac ysgogi pryderon am chwyddiant graddau.

1.12 Ar ôl dychwelyd i ddysgu wyneb yn wyneb, canolbwyntiodd sefydliadau AB ar baratoi dysgwyr ar gyfer arholiadau allanol. Fodd bynnag, adroddodd colegau bryderon o ran amseroldeb ac eglurder canllawiau ynghylch addasiadau i drefniadau asesu ac anghysondebau rhwng rhaglenni academaidd a galwedigaethol. Nododd sefydliadau AB gynnydd sylweddol hefyd yn nifer y dysgwyr fu'n wynebu heriau iechyd meddwl a lles oherwydd y pandemig.

[8] Estyn, Adfer ar ôl COVID-19. [Ar-lein]. Ar gael yn: https://adroddiad-blynyddol.estyn.llyw.cymru/annual_report/adfer-ar-ol-covid-19/
[9] Ibid.
[10] Estyn, Adroddiad Sector: Addysg Bellach 2021-2022. [Ar-lein]. Ar gael yn: https://adroddiad-blynyddol.estyn.llyw.cymru/annual_report/adroddiad-sector-addysg-bellach-2021-2022/

Effeithiwyd yn negyddol hefyd ar gyfranogiad ac ymgysylltiad dysgwyr mewn dysgu.[11]

1.13 Mae'n ymddangos bod y pandemig wedi effeithio'n anghymesur ar addysg dysgwyr DSW, gyda chyfleoedd cyfyngedig iawn i gymryd rhan mewn dysgu ymarferol a phrofiad gwaith. Hyd yn oed lle’r oedd dysgwyr mewn un o’r sectorau a barhaodd i fod ar agor drwy gydol y pandemig (neu drwy lawer ohono), fel iechyd a gofal cymdeithasol, roedd cyfyngiadau ar yr hyn y gallent ei wneud. Arweiniodd y fath gyfyngiadau ar leoliadau gwaith a dysgu ymarferol at ôl-groniad o gymwysterau anghyflawn. Ar ôl i ddysgwyr yn y gwaith ddychwelyd i leoliadau gwaith a dysgu wyneb yn wyneb ymarferol, bu i ddarparwyr flaenoriaethu'r rhai yr oedd angen iddynt gwblhau asesiadau dros ben. Gwnaeth darparwyr yn siŵr fod cyfleusterau a gweithdai ar gael i ddysgwyr i gwblhau asesiadau ymarferol a dal i fyny ar ddysgu. Awgryma tystiolaeth fod y rhai a ddechreuodd brentisiaeth yn 2021/22 yn aml â sgiliau llythrennedd a rhifedd islaw lefelau’r dysgwyr hynny a ymunodd â rhaglenni prentisiaeth cyn y pandemig.[12]

1.14 Effeithiwyd yn ddifrifol andwyol ar Sefydliadau Addysg Uwch (SAU) gan y pandemig hefyd. Roedd pryderon cyffredinol ynghylch gweithrediad parhaus SAU, gan gynnwys: iechyd a lles myfyrwyr; anawsterau wrth symud dysgu ar-lein (yn enwedig cyrsiau ymarferol a chyrsiau labordy); parhau ag astudiaethau ymchwil; a phryderon am gynaladwyedd ariannol. Yn ystod y cyfnodau clo, symudodd SAU i ddysgu cyfunol a gadawodd llawer o fyfyrwyr lety amser tymor. Gyda'r dychweliad fesul cam i ddysgu wyneb yn wyneb dyfeisiodd SAU ddulliau o ddarparu cymorth ymarferol i fyfyrwyr fu'n ynysu mewn llety prifysgol. Gwelodd SAU ostyngiad mewn incwm wrth i nifer y dysgwyr AU ostwng yn 2020/21, ochr yn ochr â gostyngiadau mewn incwm o ffioedd llety, gwasanaethau masnachol, cyrsiau byr a chyrsiau haf, cyllid ymchwil a ffynonellau eraill. Fodd bynnag, golygodd y mesurau lliniaru (gan gynnwys rhewi swyddi gwag, defnyddio Cynllun Cadw Swyddi drwy gyfnod y Coronafeirws Llywodraeth y DU[13] i roi staff ar ‘ffyrlo’, a thynhau mesurau rheoli

---

[11] Ibid.

[12] Estyn, Adroddiad Sector: Dysgu yn y gwaith 2021-2022. [Ar-lein]. Ar gael yn: https://adroddiad-blynyddol.estyn.llyw.cymru/annual_report/adroddiad-sector-dysgu-yn-y-gwaith-2021-2022/

[13] Gov.uk (2022) Cynllun Cadw Swyddi drwy gyfnod y Coronafeirws. [Ar-lein]. Ar gael yn: https://www.gov.uk/government/publications/coronavirus-job-retention-scheme-screening-equality-impact-assessment/coronavirus-job-retention-scheme

gwariant yn gyffredinol) a gymerwyd gan brifysgolion fod y gostyngiad incwm gwirioneddol yn is na'r hyn a ragwelwyd ar ddechrau'r pandemig.[14]

1.15 Gwelodd Dysgu Oedolion yn y Gymuned (DOC) ostyngiad nodedig yn nifer y dysgwyr yn 2021/22 (32 y cant yn is nag yn y flwyddyn flaenorol). Er i'r gostyngiad yn nifer y dysgwyr ddechrau cyn y pandemig, awgryma tystiolaeth fod yr aflonyddwch COVID-19 wedi gwaethygu'r newid hwn. Cynhaliodd partneriaethau DOC[15] adolygiadau o'u darpariaeth ac fe'i haddaswyd mewn ymateb i newidiadau i'r dirwedd DOC a oedd wedi digwydd ers dechrau'r pandemig. Fel dysgwyr o rannau eraill o'r sector ôl-16, nododd dysgwyr DOC eu bod wedi colli hyder. Fodd bynnag, cafodd hwn ei ailadeiladu'n rhannol ar ôl dychwelyd i addysg wyneb yn wyneb.[16]

**Ymateb Llywodraeth Cymru**

1.16 Er mwyn lliniaru effaith y pandemig ar y sector addysg ôl-16, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru bron i £295 miliwn o Gyllid Adferiad COVID-19 Ôl-16 i'w ddarparu ar draws nifer o ffrydiau gwaith. Roedd y ffrydiau gwaith hyn yn cynnwys cyllid ar gyfer cynhwysiad digidol a dysgu cyfunol, cefnogi iechyd meddwl a lles, gweithgareddau dal i fyny, pontio dysgwyr, a chymorth ariannol ymarferol i ddysgwyr (e.e., cronfeydd caledi ychwanegol, estyn PYaDd) ac i sefydliadau (e.e., gweithredu mesurau cadw pellter cymdeithasol, prynu PPE) (gweler Atodiad B Diagram ffrydiau cyllido). Yn ychwanegol at yr ymrwymiad cyllido, bu i Lywodraeth Cymru:

- Ddatblygu ystod o adnoddau dysgu ar-lein i gefnogi myfyrwyr a oedd yn dysgu o bell.
- Cyflwyno dewisiadau arholiad amgen ar gyfer myfyrwyr Safon Uwch, Safon UG a TGAU yng Nghymru, gyda graddau'n cael eu dyfarnu ar sail asesiadau athrawon a thystiolaeth arall.

**Cymorth a oedd ar gael cyn y pandemig**

1.17 Esboniodd arweinwyr sefydliadau ar draws y sector yr oeddent wedi cynnig rhyw lefel o gymorth ychwanegol i'w dysgwyr cyn y pandemig, mewn meysydd fel iechyd meddwl a lles, dysgu academaidd ychwanegol, cynhwysiad digidol, a chymorth

[14] CCAUC (2021) Effaith Covid-19 ar Sector AU Cymru. [Ar-lein]. Ar gael yn: https://adroddiad-blynyddol.estyn.llyw.cymru/annual_report/adroddiad-sector-dysgu-yn-y-gwaith-2021-2022/

[15] Darperir dysgu oedolion yn y gymuned (DOC) gan 13 o bartneriaethau ledled Cymru a chan y sefydliad addysg bellach, Addysg Oedolion Cymru.

[16] Estyn, Adroddiad Sector: Dysgu oedolion yn y gymuned 2021-2022. [Ar-lein]. Ar gael yn: https://adroddiad-blynyddol.estyn.llyw.cymru/annual_report/adroddiad-sector-dysgu-oedolion-yn-y-gymuned-2021-2022/

ariannol/ymarferol i ddysgwyr agored i niwed. Fodd bynnag, roedd lefel y cymorth yn amrywio’n sylweddol ar draws y sector ac ar draws lleoliadau.

1.18 Amlygodd arweinwyr AB Gynhwysiad Digidol fel un o’r meysydd blaenoriaeth yr oeddent wedi buddsoddi ynddynt cyn y pandemig. Nododd rhai sefydliadau fod ganddynt gyflenwad cyfyngedig o offer TG fel gliniaduron y gallent eu darparu i ddysgwyr a/neu eu bod eisoes yn defnyddio offer cydweithio ar-lein fel Google Classroom neu Microsoft Teams. Caniataodd y Cyllid Adferiad COVID-19 i'r sefydliadau adeiladu ar y cymorth fu'n bodoli eisoes a chyflymu’r broses o weithredu eu blaenoriaethau Cynhwysiad Digidol trwy ddatblygu dulliau addysgu/dysgu ar-lein a chyfunol.

1.19 Yn yr un modd, adroddodd rhai sefydliadau AB ac adrannau chweched dosbarth fod eu darpariaeth llesiant yn gymharol gryf cyn y pandemig. Ymysg y gwasanaethau fu'n bodoli eisoes oedd cymorth bugeiliol ar ffurf sesiynau cwnsela, a chyfeirio (trwy hyfforddwyr cynnydd a gwydnwch, mentoriaid personol, neu debyg). Fodd bynnag, galluogodd y Cyllid Adferiad COVID-19 i’r sefydliadau gryfhau’r gwasanaethau hynny ac ehangu eu harlwy.

> “O ran iechyd meddwl a lles, byddwn yn dweud yr oedden ni mewn sefyllfa gref cyn [cyfnod y pandemig].” (Arweinydd sefydliad, chweched dosbarth)

## 2. Nodau a methodoleg y gwerthusiad

2.1 Mae'r bennod hon yn nodi nodau'r gwerthusiad ac yn crynhoi'r dulliau a ddefnyddiwyd i ymdrin â nhw.

### Amcanion gwerthuso

2.2 Comisiynwyd Ecorys UK a'r Sefydliad Dysgu a Gwaith (L&W) gan Lywodraeth Cymru i werthuso'r Cyllid Adferiad COVID-19 ar gyfer darparwyr addysg a hyfforddiant ôl-16 ledled Cymru ym mis Ebrill 2022. Amcan trosgynnol yr ymchwil oedd darparu tystiolaeth i gyfeirio dulliau strategol a gweithredol Llywodraeth Cymru o ddarparu cymorth parhaus i addysg a hyfforddiant ôl-16 oed, wrth i'r sector ymadfer yn sgil effeithiau aflonyddgar y pandemig.

2.3 Mae'r gwerthusiad hwn yn darparu tystiolaeth o sut mae'r Cyllid Adferiad COVID-19 Ôl-16 Llywodraeth Cymru wedi cefnogi'r sector ôl-16 a sut mae wedi cael ei ddefnyddio'n ymarferol gan sefydliadau. Mae hyn yn cynnwys adrodd ar ganfyddiadau o effeithiolrwydd y gwahanol ddulliau/ymyriadau addysgu a dysgu a fabwysiadwyd gan y sector a'r cymorth iechyd meddwl a lles ychwanegol a ddarparwyd. Mae'r gwerthusiad hefyd yn archwilio sut mae'r cyllid wedi effeithio ar gydweithio ar draws y sector. Un o'r nodau allweddol yw coladu a thriongli canfyddiadau o bob rhan o'r gwerthusiad i ddarparu argymhellion ar gyfer dylunio a datblygu modelau cyllido yn y dyfodol, a darpariaeth barhaus (gan amrywio o benderfyniadau cyllido, arweiniad a dosbarthu i ymdrin ag anghenion parhaus dysgwyr a staff). Disgwylir hefyd i ganfyddiadau'r gwerthusiad helpu i siapio dealltwriaeth o anghenion a phryderon y sector yn y dyfodol, a fydd yn cyfeirio newid ffocws Llywodraeth Cymru o ran mesurau blaen-gefnogi.

2.4 Bydd y gwerthusiad hwn o ddefnydd ac effeithiolrwydd cyllid yn bwysig wrth adeiladu sylfaen dystiolaeth gychwynnol, ochr yn ochr â gwerthusiadau o'r Rhaglen Recriwtio, Adfer a Chodi Safonau[17] a'r Gaeaf Llawn Lles.[18] Gyda'i gilydd, bydd canfyddiadau'r astudiaethau hyn yn cefnogi'r rhaglen Adnewyddu a Diwygio, yn

[17] Andrews, G; Bajjada, T; Howells, J; KilBride, K; Morgan, N; Richardson, M; Wise, C; Bebb, H; Bryer, N; Roberts, M; (2023). Gwerthuso'r Rhaglen Recriwtio, Adfer a Chodi Safonau a'r Rhaglen Blynyddoedd Cynnar – Terfynol
Adroddiad. Caerdydd: Llywodraeth Cymru Rhif adroddiad GSR 50/2023. [Ar-lein]. Ar gael yn: https://www.llyw.cymru/gwerthusor-rhaglen-recriwtio-adfer-chodi-safonau

[18] Bertolotto, E., Williams, J., Goddard, C., Main, H., Freitas, G., Browett, T., McKenna, K. (2022). Gwerthusiad o'r Gaeaf Llawn Lles. Caerdydd: Llywodraeth Cymru, rhif adroddiad GSR 4/2023. [Ar-lein]. Ar gael yn: https://www.llyw.cymru/gwerthusiad-o-gaeaf-llawn-lles

pennu ymatebion priodol i gefnogi pobl ifanc, ac yn cyfeirio penderfyniadau cyllido yn y dyfodol, yn ogystal â'r strategaeth gymorth barhaus ar gyfer addysg a hyfforddiant ôl-16.

**Dulliau gwerthuso**

2.5 Cynhaliwyd y gwerthusiad rhwng mis Ebrill 2022 a mis Mai 2023 gan ddefnyddio ymagwedd dulliau cymysg iteraidd a oedd yn cynnwys sawl llinyn o ymchwil cynradd ac eilaidd, fel y nodir yn Ffigur 2.1.

**Ffigur 2.1 Cyfnodau'r gweithgarwch gwerthuso**

Gweithgareddau cychwynnol

Adolygiad desg o wybodaeth am y rhaglen, ffynonellau data a mireinio methodoleg

Coladu, glanhau a dadansoddi data Gwybodaeth Reoli

Cyfweliadau lled-strwythuredig rhithwir ag uwch randdeiliaid

Cyfweliadau lled-strwythuredig rhithwir ag arweinwyr sefydliadau

Arolwg a grwpiau ffocws/cyfweliadau gyda staff

Arolwg a grwpiau ffocws/cyfweliadau gyda dysgwyr

Fframwaith gwerthuso: Theori Newid, mesur deilliannau, metrigau, dichonoldeb y gwrthffeithiol a fframwaith gwerth am arian

2.6 Ymysg y llinynnau hyn oedd:

- **Adolygiad dogfennau cyflym** o ddogfennau polisi a strategaeth perthnasol y rhaglen, i osod y cyd-destun ar gyfer y gwerthusiad a chyfeirio ei ddyluniad. Cynhaliwyd yr adolygiad dogfennau rhwng misoedd Mai a Gorffennaf 2022.
- **Asesu, coladu ac ychwanegu at ddata GR** a gasglwyd yn ystod y pandemig. Adolygwyd data GR a nodwyd unrhyw fylchau, cyn i'r tîm gwerthuso gysylltu â sefydliadau i ofyn am ddata coll gan ddefnyddio templedi casglu data pwrpasol. Cyfunwyd data newydd ei gyflwyno gyda GR presennol a dadansoddwyd y data ychwanegol gan ddefnyddio dull dadansoddi achos cyflawn. Cynhaliwyd yr adolygiad data GR rhwng misoedd Mehefin ac Awst 2022, a chysylltwyd â sefydliadau o fis Medi ymlaen. Darparwyd y mwyafrif o'r data coll gan sefydliadau erbyn mis Rhagfyr 2022. Bu i'r broses adolygu, casglu, coladu a dadansoddi GR rychwantu hyd y gwerthusiad (Ebrill 2022 – Mai 2023).

- **Cyfweliadau lled-strwythuredig ar-lein** a gynhaliwyd gyda:
  - 17 uwch randdeiliaid o Lywodraeth Cymru a sefydliadau'r sector i ddarparu trosolwg o'r cyd-destun polisi, archwilio prosesau gwneud penderfyniadau, ac ymchwilio i sut y dosbarthwyd cyllid ar draws y sector ôl-16. Cynhaliwyd cyfweliadau ag uwch randdeiliaid rhwng misoedd Mehefin ac Awst 2022.
  - 43 o arweinwyr/uwch staff o 34 o sefydliadau gan gynnwys DOC (5), AB (14), AU (14), adrannau chweched dosbarth (6) a DSW (4) i ymchwilio'n fanwl i brofiadau sefydliadau, gan gynnwys archwilio'r defnydd o'r cyllid, y penderfyniadau a wnaed gan sefydliadau, a chanfyddiadau o effeithiolrwydd y cyllid. Cynhaliwyd cyfweliadau ag arweinwyr sefydliadau rhwng misoedd Medi a Rhagfyr 2022.
- **Arolygon ar-lein a grwpiau ffocws/cyfweliadau** gyda staff a dysgwyr, er mwyn deall profiadau a barn yn well mewn perthynas â'r cymorth a ddarparwyd gan y Cyllid Adferiad COVID-19.

  Datblygwyd yr arolygon ar-lein byr mewn ymgynghoriad â Llywodraeth Cymru ac fe'u rhaglennwyd gan y tîm gwerthuso. Diben yr arolygon oedd gwella dealltwriaeth o safbwyntiau staff a dysgwyr am y cymorth COVID-19, yn ogystal â chreu sampl ar gyfer y grwpiau ffocws. Gan na ystyriwyd ei bod yn bosib anfon arolygon yn uniongyrchol at staff a dysgwyr, fe'u gweinyddwyd trwy ddolen agored a rannwyd gan sefydliadau. Yn y rhan fwyaf o achosion anfonwyd ceisiadau i rannu dolenni agored i'r arolwg at arweinwyr sefydliadau a oedd wedi cymryd rhan mewn cyfweliadau. Roedd hyn yn wahanol ar gyfer adrannau chweched dosbarth ysgolion, lle gofynnwyd i arweinwyr consortia addysg rhanbarthol rannu dolenni i'r arolwg ag ysgolion yn eu hardal leol. Lansiwyd yr arolygon staff a dysgwyr ar yr un pryd ym mis Ionawr 2023.

  Roedd y ddau arolwg yn cynnwys cwestiwn optio i mewn lle gallai staff a dysgwyr gytuno i gael eu cysylltu ynghylch cymryd rhan mewn grŵp ffocws. Gwahoddwyd pawb a wnaeth optio i mewn a darparu gwybodaeth gyswllt uniongyrchol i gymryd rhan mewn grŵp ffocws, neu os oedd argaeledd yn fwy cyfyngedig, mewn cyfweliad.[19] Cynhaliwyd grwpiau ffocws/cyfweliadau gyda staff a dysgwyr ym misoedd Chwefror a Mawrth 2023.

- **Datblygu fframwaith gwerthuso**, a fu'n cwmpasu nifer o weithgareddau gan gynnwys:
  - mapio nodau gwerthuso a chwestiynau ymchwil allweddol yn erbyn dulliau, i gyfeirio datblygiad offer ymchwil.
  - creu Theori Newid wedi'i gyd-gynhyrchu gyda rhanddeiliaid polisi (gweler Atodiad C Theori Newid)

[19] Cyfieithwyd yr holl ddeunyddiau astudio ar gyfer cyfranogwyr yn broffesiynol i'r Gymraeg, ac roedd yr holl gyfweliadau, grwpiau ffocws ac arolygon wedi'u cynnig/ar gael yn Gymraeg a Saesneg.

- ymchwilio i opsiynau ar gyfer gwerthuso rhaglenni/ffrydiau cyllido yn y dyfodol, gan gymryd dyluniad y gwerthusiad a gwerth am arian i ystyriaeth (gweler Atodiad A).

2.7 Elfen allweddol o’r gwerthusiad, a fu'n sail i wahanol gamau'r gwaith, oedd asesu effaith debygol y cyllid yn seiliedig ar farn rhanddeiliaid uwch, arweinwyr sefydliadau, staff a dysgwyr. Defnyddiodd y gwerthusiad y dull iteraidd a amlinellwyd uchod a oedd yn cynnwys safbwyntiau ar draws nifer o grwpiau rhanddeiliaid i archwilio a oedd y Cyllid Adferiad COVID-19 wedi cyfrannu at ddeilliannau a arsylwyd a sut.

2.8 Mae grwpiau cyfranogwyr a'r samplau a gyflawnwyd ar gyfer y gwahanol gamau casglu data wedi’u nodi yn **Error! Reference source not found.**.1.

**Tabl 2.1 Grwpiau cyfranogwyr a'r samplau a gyflawnwyd**

| Grŵp cyfranogwyr | Sampl a gyflawnwyd | Dull | Diben | Cyfnod amser |
|---|---|---|---|---|
| **Uwch randdeiliaid** Swyddogion Llywodraeth Cymru/partneriaid cenedlaethol | **17** | Cyfweliadau ansoddol | Darparu cyd-destun y rhaglen, sut y dosbarthwyd y cyllid a sut y gwnaed penderfyniadau. | Mehefin - Awst 2022 |
| **Arweinwyr sefydliadau**[20] | **43** | Cyfweliadau ansoddol | Ymchwilio i'r defnydd o'r cyllid, gwneud penderfyniadau a chanfyddiadau o effeithiolrwydd. | Ionawr – Mawrth 2023 |
| ▪ DOC | 5 | | | |
| ▪ SAB | 14 | | | |
| ▪ SAU | 14 | | | |
| ▪ Chweched dosbarth | 6 | | | |
| ▪ DSW | 4 | | | |

[20] Ein nod oedd cyflawni 39 o gyfweliadau gydag arweinwyr ar draws y sector ôl-16. Roedd hyn yn cynnwys arweinwyr/uwch staff o bob sefydliad AU (8) ac AB (13) yng Nghymru, pob darparwr DSW (4) a DOC (4), a sampl o adrannau chweched dosbarth ysgolion (10).

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| **Staff sefydliadau** | **279** | Arolwg ar-lein | Cywain barn a phrofiadau staff mewn addysg ôl-16. | Ionawr – Mawrth 2023 |
| • DOC | 22 | | | |
| • SAB | 143 | | | |
| • SAU | 39 | | | |
| • Chweched dosbarth | 7 | | | |
| • DSW | 22 | | | |
| • Arall[21] | 9 | | | |
| **Staff sefydliadau** | **16** | Grwpiau ffocws[22] a chyfweliadau | Deall barn a phrofiadau staff mewn addysg ôl-16. | Chwefror - Mawrth 2023 |
| **Dysgwyr ôl-16** | **362** | Arolwg ar-lein | Cywain barn a phrofiadau dysgwyr sy'n astudio mewn addysg ôl-16. | Ionawr – Mawrth 2023 |
| • DOC | 13 | | | |
| • SAB | 98 | | | |
| • SAU | 148 | | | |
| • Chweched dosbarth | 41 | | | |
| • DSW | 42 | | | |
| • Arall/wedi gwrthod | 20 | | | |
| **Dysgwyr ôl-16** | **26** | Grwpiau ffocws[23] a chyfweliadau | Deall barn a phrofiadau dysgwyr sy'n astudio mewn addysg ôl-16. | Chwefror - Mawrth 2023 |

**Rheoli a dadansoddi data**

2.9 Hwyluswyd yr holl drafodaethau ansoddol gyda chymorth canllawiau pwnc lled-strwythuredig ac fe'u cynhaliwyd o bell dros MS Teams. Cafodd pob cyfweliad a grŵp ffocws ei recordio a'i drawsgrifio'n awtomatig. Defnyddiwyd y trawsgrifiadau canlyniadol i grynhoi data cyfweliadau o dan benawdau ac is-benawdau thematig yn Excel. Creodd hyn fatrics canfyddiadau ar gyfer pob cam o gasglu data ansoddol, a

[21] Roedd hyn yn cynnwys gweithwyr gofal, darparwyr cyflogadwyedd, a staff sy'n gweithio ar draws gwahanol fathau o leoliadau.
[22] Roedd nifer y rhai a gymerodd ran mewn grwpiau ffocws yn amrywio rhwng 3 a 6.
[23] Roedd nifer y rhai a gymerodd ran mewn grwpiau ffocws yn amrywio rhwng 2 a 6.

ddefnyddiwyd i nodi themâu allweddol mewn ymateb i gwestiynau ymchwil y gwerthusiad.

2.10 Casglwyd data arolwg mewn meddalwedd Confirmit ac fe'i hallforiwyd i Excel ar gyfer adolygiad cychwynnol a glanhau. Roedd y broses glanhau data hon yn cynnwys dileu ymatebion dyblyg, rhannol a gwallus. Yna mewnforiwyd data arolwg i R i gael ei ddadansoddi. Archwiliwyd holl ddata'r arolwg yn ddisgrifiadol (ar ffurf dadansoddiad amlder), wedyn bu i ni ddewis cyfres o gwestiynau i'w harchwilio gan ddefnyddio dadansoddiad atchwel. Yn benodol, defnyddiwyd modelu atchwel aml-amryweb trefnol i archwilio a yw'r cymorth a ddarparwyd drwy Gyllid Adferiad COVID-19 i sefydliadau yn gysylltiedig â gwelliant mewn deilliannau staff a dysgwyr fel y nodwyd yn yr arolygon. Cyn dadansoddi, bu i dîm yr arolwg ragddiffinio'r mathau o gymorth a allai esbonio'n rhesymol amrywiad ym mhob deilliant a chynnwys y rhain fel cydamrywebau deuaidd yn y model. Y paramedrau targed ym mhob model oedd y cyfernodau ar gyfer pob math o gymorth a dderbyniwyd drwy'r cyllid. Mae'n werth nodi mai archwiliadol ei natur oedd y dadansoddiad ac nad oedd yn amcangyfrif effeithiau achosol y cymorth a ddarparwyd a'r deilliannau. Yn hytrach, ceisiodd y dadansoddiad ddeall unrhyw *cysylltiadau* rhwng cymorth a deilliannau, y gellid eu triongli â llinynnau eraill y gwerthusiad.

**Cyfyngiadau data**

2.11 Mae'n bwysig nodi bod yna nifer o gyfyngiadau yn y data a gafodd ei gasglu, ei goladu a'i gyflwyno yn yr adroddiad hwn fel rhan o'r gwerthusiad.

- Roedd y gyfradd ymateb i'r ddau arolwg yn isel, gan arwain at samplau bach a gyfyngodd ar gyfleoedd i ddadansoddi is-grwpiau, yn ogystal â chyffredinoli canfyddiadau. Effeithiwyd ar yr ymateb gan ddull yr arolwg, yn benodol dolen agored a rennir dros e-bost drwy sefydliadau. Golygodd y math anuniongyrchol hwn o gyswllt na allai'r tîm gwerthuso asesu ymgyrhaeddiad dau o'r arolygon (h.y., i ba raddau yr oedd y cysylltiadau wedi'u rhannu) neu ddylanwadu'n uniongyrchol ar yr ymateb, er enghraifft, drwy nodiadau atgoffa wedi'u targedu. Roedd haen ychwanegol o gymhlethdod am y bu'n rhaid i wahoddiadau arolwg i adrannau chweched dosbarth gael eu cylchredeg gan arweinwyr consortia addysg rhanbarthol.[24]
- Casglwyd data GR manwl mewn perthynas â dosbarthu a defnyddio Cyllid Adferiad COVID-19 gan sefydliadau/ALlau ac fe'i rhannwyd â Llywodraeth Cymru

[24] Cadarnhaodd un o'r 5 arweinydd rhanbarthol y cysylltwyd â nhw fod y negeseuon e-bost gwahoddiad wedi'u rhannu â'r chweched dosbarth. Ni dderbyniwyd ymateb gan y rhanbarthau eraill.

yn ystod y pandemig. Gwaethygwyd heriau casglu data gan y pandemig, a rhannwyd data GR fel cyfres o ffeiliau data mewn fformatau amrywiol gan y tîm gwerthuso gyda'r nod o goladu a chywain data ychwanegol i helpu i greu darlun mwy cyflawn. Aseswyd y GR am ddata coll a data gwallus posib, a chysylltwyd â sefydliadau/ALlau wedi hynny gyda cheisiadau i ddarparu data coll. Er gwaethaf cymorth sylweddol gan Lywodraeth Cymru, rhanddeiliaid sector a sefydliadau/ALlau roedd y set ddata derfynol yn fratiog o hyd gyda bylchau amlwg yn y data. Yn fwy penodol, roedd data coll ar gyfartaledd (h.y., data coll ar draws pob newidyn perthnasol) yn arbennig o uchel ymhlith adrannau chweched dosbarth mewn ysgolion (65 y cant), ac i raddau llai darparwyr seiliedig ar waith a darparwyr dysgu oedolion (29 y cant ar gyfartaledd ar draws y ddau fath) yn ogystal â SAB (28 y cant). Nid oedd unrhyw ddata SAU ar goll. Mae'n debygol hefyd bod yr oedi rhwng y cam casglu data gwreiddiol a gwaith dilynol Ecorys wedi arwain at rai gwallau yn y data. Yn olaf, darparwyd gwybodaeth reoli mewn gwahanol fformatau a chan ddefnyddio arweiniad yr ymddengys y cafodd ei ddehongli'n anghyson. Felly, dim ond cyfran fach o'r data GR sydd wedi'i gynnwys yn yr adroddiad, a dylid trin y tablau cryno ym Mhennod 5 gyda gofal. Daw'r holl wybodaeth reoli yn yr adroddiad o'r hyn a ddarparwyd yn wreiddiol gan Lywodraeth Cymru.

# 3. Canfyddiadau allweddol

3.1 Ym mis Ebrill 2022, comisiynodd Llywodraeth Cymru Ecorys, gyda L&W, i werthuso’r defnydd a’r effeithiolrwydd canfyddedig o Gyllid Adferiad COVID-19 Ôl-16 Llywodraeth Cymru. Mae hwn yn grynodeb o ganfyddiadau ac argymhellion allweddol o bob rhan o’r gwerthusiad.

3.2 Bwriad y Cyllid Adferiad COVID-19 (‘cyllid’) oedd ymdrin ag anghenion a blaenoriaethau addysg ôl-16 ar draws gwahanol gyfnodau’r pandemig, gan gynnwys mesurau ymateb ymarferol, mesurau ymateb dysgu a mesurau blaen-gefnogi. Dosbarthwyd y cyllid drwy nifer o ffrydiau: cynhwysiad digidol a dysgu cyfunol, cymorth academaidd a dal i fyny, cymorth llesiant ac iechyd meddwl, pontio (o fewn a'r tu hwnt i addysg ôl-16), cymorth ariannol ac ymarferol a gwydnwch y gweithlu.

3.3 Pwysleisiodd cyfweliadau ag uwch randdeiliaid yn ymchwilio i ddosbarthiad y cyllid fod angen gwneud penderfyniadau'n gyflym yn wyneb amgylchiadau heriol fu’n datblygu’n gyflym. Amlygodd rhanddeiliaid bwysigrwydd cydweithio ymysg sefydliadau, a rhwng sefydliadau a Llywodraeth Cymru, i sicrhau y gellid gwneud penderfyniadau mor effeithlon â phosib.

3.4 Roedd cyfleoedd i wneud penderfyniadau seiliedig ar dystiolaeth, ystyriaeth lawn o werth am arian ac ymgynghori â staff a dysgwyr yn gyfyngedig yn ystod camau cynnar y pandemig. Yn hytrach, roedd penderfyniadau’n seiliedig ar farn orau ar y cyd ac ymddiriedaeth ym mhrofiad a gwybodaeth rhanddeiliaid y sector o ran yr hyn oedd ei angen a sut i ymdrin ag anghenion cymorth a nodwyd.

3.5 Nododd y rhai y cyfwelwyd â hwy flaenoriaethau newidiol yn ystod y pandemig, gyda phryderon cynnar am barhad dysgu, ac (yn y tymor hwy) hyfywedd ariannol (yn enwedig mewn AU), yn cael eu disodli’n raddol gan bryderon am iechyd a lles dysgwyr a staff, ac yn ddiweddarach, heriau o ran ymgysylltu â dysgwyr, ymddygiad, a dilyniant.

3.6 Roedd arweinwyr sefydliadau o’r farn bod canllawiau'r cyllid yn werthfawr wrth gyfeirio penderfyniadau gwariant, a nodwyd bod Llywodraeth Cymru yn barod i helpu ac i ymateb i ymholiadau. Fodd bynnag, roedd rhywfaint o ddryswch ynghylch gofynion y gwahanol ffrydiau cyllido, a hynny wedi'i waethygu gan gymhlethdod y

cyllid, a chyflymder gofynnol yr ymateb. Bu i hyn ysgogi ceisiadau am fwy o eglurder o ran nodau a disgwyliadau'r gwahanol ffrydiau cyllido.

3.7 Thema allweddol wrth ymgynghori ag arweinwyr sefydliadol oedd gwerth hyblygrwydd ynghylch sut a phryd i ddefnyddio'r cyllid. Ystyriwyd bod hyn yn bwysig ar gyfer ymdrin ag anghenion benodol sefydliadau ac wrth ymateb i amgylchiadau newidiol. Yn aml roedd yr adborth cadarnhaol ynghylch hyblygrwydd yn cynnwys trafodaeth ar yr heriau a grëwyd gan raddfeydd amser byr i ddefnyddio'r cyllid ac oedi wrth dderbyn y cyllid.

3.8 Dilynodd y rhan fwyaf o sefydliadau brosesau gwneud penderfyniadau tebyg gydag uwch dimau arweinyddiaeth (UDA) yn chwarae rhan hanfodol wrth benderfynu sut y byddai cyllid yn cael ei ddyrannu a'i ddefnyddio, gyda rhywfaint o 'raeadru' penderfyniadau cyllido i wahanol adrannau/timau mewn sefydliadau AU ac AB. Roedd y broses o wneud penderfyniadau fel arfer yn cynnwys ystyried sut i gyrraedd dysgwyr agored i niwed, a/neu’r rhai sy'n wynebu mwy o her wrth gael mynediad i ddysgu cyfunol neu addasu iddo. Gwnaeth sefydliadau ymdrechion hefyd i ddeall ac ymateb i anghenion newidiol dysgwyr a staff wrth wneud penderfyniadau, ac yn gynyddol ymgorfforwyd llais dysgwyr a staff yn y broses honno.

3.9 Roedd cefnogi dysgu cyfunol/ar-lein a chynhwysiad digidol yn ffocws allweddol ar gyfer sefydliadau yn ystod y pandemig, yn enwedig o ran galluogi parhad dysgu yn y camau cynnar. Defnyddiwyd cyllid yn y maes hwn i brynu dyfeisiau, fel gliniaduron a llechi, ac i gefnogi dysgwyr/staff i gael mynediad i'r rhyngrwyd trwy boethfannau/donglau Wi-Fi symudol. Defnyddiwyd y cyllid hefyd i hyfforddi a/neu gefnogi dysgwyr a staff ar sut i ddefnyddio llwyfannau a meddalwedd dysgu cyfunol. Nodwyd bod rhai dysgwyr (a staff) yn fwy hyderus yn ddigidol nag eraill ac felly’n gallu rheoli’r newid i ddysgu cyfunol yn well. Roedd angen cymorth ychwanegol ar rai grwpiau, yn enwedig yn y maes DOC. Fodd bynnag, bu cydnabyddiaeth hefyd o fanteision hygyrchedd ehangach dysgu cyfunol, er enghraifft, yn achos y rhai a oedd yn ei chael yn anoddach teithio o ganlyniad i anabledd neu gyfrifoldebau gofalu. Roedd consensws ymhlith rhanddeiliaid y bu'r cyllid digidol yn hanfodol i sicrhau bod dysgu’n parhau drwy gydol y pandemig ond ei fod hefyd wedi galluogi sefydliadau i wneud buddsoddiadau ehangach yn eu harlwy dysgu cyfunol, gan gyflymu cynnydd.

3.10 Blaenoriaeth arall ar draws y sector ôl-16 oedd iechyd meddwl a lles, gyda chydnabyddiaeth gyffredinol o effaith negyddol y pandemig ar les. Defnyddiwyd y cyllid gan sefydliadau ar gyfer amrywiaeth o ddulliau cefnogi dysgwyr a staff, gan gynnwys darparu adnoddau iechyd meddwl ar-lein a gwasanaethau cwnsela ar-lein, cynnal gweithgareddau llesiant wyneb yn wyneb, creu hybiau cymorth llesiant a recriwtio staff cymorth lles a bugeiliol (ychwanegol). Bu i arweinwyr sefydliadau gydnabod y pwysau yr oedd y pandemig a symud i ddysgu ar-lein/cyfunol wedi'i roi ar staff a cheisio ehangu eu harlwy llesiant, gan gynnwys cymorth ychwanegol gan reolwyr. Amlygodd arweinwyr a staff effeithiau negyddol unigedd cymdeithasol ac amser y tu allan i'r ystafell ddosbarth ar ddysgwyr, gan bwysleisio pwysigrwydd cyfleoedd i ailgysylltu a chymdeithasu â chyfoedion, gan gynnwys trwy weithgareddau cymdeithasol a chwaraeon. Adlewyrchwyd hyn yn hanesion y dysgwyr, a'r gred yr oedd materion iechyd meddwl wedi mynd yn fwy cyffredin yn sgil y pandemig a'u bod yn parhau i fod yn faes o angen arwyddocaol.

3.11 Roedd cymorth academaidd a dal i fyny hefyd yn faes cymorth pwysig, gan gynyddu mewn blaenoriaeth wrth i'r pandemig fynd rhagddo ac wrth i ymwybyddiaeth o fylchau dysgu gynyddu (yn enwedig mewn adrannau chweched dosbarth a SAB). Yn gyffredinol defnyddiwyd y cyllid i ddarparu sesiynau dysgu/dal i fyny un-i-un a grŵp ychwanegol, dosbarthiadau adolygu ychwanegol, cymorth gydag arholiadau ac adnoddau dysgu ar-lein (a ddyluniwyd i ymdrin â bylchau dysgu). Cyflwynodd rhai sefydliadau AB sesiynau dysgu academaidd neu ymarferol ychwanegol trwy 'Ddiwrnod Coleg Estynedig' gan gynyddu amser darparu'r cwricwlwm, a darparodd un adran chweched dosbarth 'hyfforddwyr dysgu' i gefnogi'r rhai ym Mlwyddyn 12 a 13. Awgryma'r canfyddiadau y bu darparu gweithgareddau dal i fyny ar gyfer cyrsiau galwedigaethol/ymarferol yn anoddach nag mewn pynciau academaidd, yn enwedig wrth barhau i reoli cyfyngiadau cadw pellter cymdeithasol. Awgrymodd adborth gan sefydliadau y bu recriwtio staff newydd i gefnogi gweithgareddau dal i fyny yn heriol, felly defnyddiwyd y cyllid yn amlach i dalu staff am eu hamser ychwanegol. Fel gyda chymorth lles, ystyriwyd bod dal i fyny ar ddysgu'n faes o angen parhaus.

3.12 Gan amlaf, defnyddiwyd cyllid pontio dysgwyr i gefnogi dysgwyr fu'n symud o fewn (yn hytrach nag allan o) addysg ôl-16. Bu i sefydliadau gyflwyno a/neu ymestyn amrywiaeth o weithgareddau i gefnogi dysgwyr gan gynnwys deunyddiau ar-lein, diwrnodau agored rhithwir, digwyddiadau pontio'r haf, sesiynau blasu/teithiau coleg,

cyfweliadau personol, ac (mewn adrannau chweched dosbarth) cymorth i wneud cais UCAS. Roedd ymwybyddiaeth staff a dysgwyr o gymorth pontio ychwanegol yn gyfyngedig, gan adlewyrchu'n rhannol amgylchiadau cyfweleion, na ddaethant i gysylltiad â gwasanaethau oni bai eu bod yn uniongyrchol gysylltiedig â nhw (h.y., ar y pwynt pontio). Er bod staff yn ymwybodol o'r gwahanol weithgareddau pontio a oedd ar gael yn eu sefydliadau, yn aml roeddent yn ansicr a oedd y Cyllid Adferiad COVID-19 ar gael i gefnogi'r gweithgareddau hyn. Ychydig o wahaniaethau a welodd dysgwyr rhwng y cymorth pontio a oedd ar gael cyn ac yn ystod y pandemig (er iddynt gydnabod bod rhywfaint o gymorth o reidrwydd wedi symud ar-lein). Roedd pontio hefyd yn un o'r meysydd lle'r oedd y dysgwyr a ymatebodd i'r arolwg yn teimlo y cawsant eu cefnogi leiaf gan sefydliadau.

3.13 Roedd cymorth ariannol ac ymarferol yn cwmpasu'r ddau fesur, sef diogelu iechyd a diogelwch dysgwyr a'u darparu â'r cymorth ariannol yr oedd arnynt ei angen i barhau i ddysgu. Yn ystod camau cynnar y pandemig a'r dychweliad cychwynnol i ddysgu wyneb yn wyneb, bu i sefydliadau ar draws y sector ôl-16 ddefnyddio'r cyllid i brynu PPE a datblygu eu mesurau Iechyd a Diogelwch COVID-19/diweddaru polisïau diogelu. Roedd hyn yn rhan hanfodol o ddychwelyd i'r ystafell ddosbarth. Wrth i'r pandemig fynd rhagddo, defnyddiwyd y cyllid yn gynyddol i ddarparu cymorth ariannol ac ymarferol uniongyrchol i ddysgwyr. Yn AU, canolbwyntiodd y cymorth hwn ar fynd i'r afael â chaledi myfyrwyr trwy gronfeydd newydd penodol i COVID a oedd ar gael i fyfyrwyr fu'n profi anawsterau ariannol. Roedd dysgwyr iau yn gallu elwa o ehangu cymorth PYaDd i AB, gyda sefydliadau hefyd yn cymryd camau i fynd i'r afael â thlodi bwyd drwy sefydlu banciau bwyd.

3.14 Bu adborth cadarnhaol sylweddol o bob rhan o'r sector am y Cyllid Adferiad COVID-19 a'r hyn yr oedd wedi galluogi sefydliadau i'w wneud, yn ogystal â sut y cafodd ei weinyddu. Ystyriwyd bod y cyllid wedi galluogi i ddysgu barhau yn ystod dyddiau cynnar y pandemig, a'i fod wedi cyfrannu cryn dipyn at liniaru effeithiau negyddol y pandemig. Er i randdeiliaid gydnabod yr anawsterau wrth ddangos tystiolaeth o gynnydd mewn rhai meysydd (h.y., lles), roeddent yn teimlo y bu datblygiadau clir a chyflym o ran dysgu cyfunol. Un o'r llwyddiannau a nodwyd yn aml o ran gweinyddu'r cyllid oedd cydweithio, ymysg sefydliadau, a gyda Llywodraeth Cymru/CCAUC. Bu i gyfarfodydd mwy rheolaidd rhwng arweinwyr sefydliadau annog rhannu arfer orau a chronni adnoddau a oedd, yn ei dro, yn eu galluogi i gefnogi dysgwyr a staff yn well. Hwyluswyd y newid hwn drwy symud i weithio o

bell, gan alluogi arweinwyr sefydliadau i gwrdd yn fwy hwylus. Mewn llawer o achosion roedd perthnasoedd cydweithredol i'w gweld yn parhau y tu hwnt i'r pandemig, gan greu newid cadarnhaol parhaus.

3.15 Tra'n tynnu sylw at arfer cadarnhaol, amlygodd rhanddeiliaid nifer o heriau yn y broses gyllido hefyd. Er enghraifft, er iddynt gydnabod yr angen am wneud penderfyniadau'n gyflym ac mewn ffordd ymatebol yng nghyd-destun heriol y pandemig, byddent wedi croesawu amserau cyflwyno hwy, a chyfnodau estynedig i ddefnyddio’r cyllid, yn ogystal â hyblygrwydd (parhaus). Roeddent hefyd yn teimlo bod yr anghenion parhaus a grëwyd gan y pandemig, a'r argyfwng costau byw yn sgil hynny, yn cyfiawnhau ymrwymiad cyllido tymor hwy. Byddai cael cyfnod cyllido estynedig hefyd yn galluogi sefydliadau i ymwreiddio dulliau gweithio newydd yn llawn.

3.16 Roedd iechyd meddwl a lles yn her barhaus amlwg ac yn faes lle yr oedd staff, dysgwyr ac arweinwyr yn teimlo bod angen i sefydliadau gynnig cymorth parhaus. Yn wir, lles ac ymgysylltiad dysgwyr oedd y ddau fater parhaus a ddewiswyd amlaf gan staff a ymatebodd i’r arolwg. Yn yr un modd, roedd dysgu dal i fyny yn parhau i fod yn angen parhaus i lawer o ddysgwyr, yr oeddent wedi colli dysgu o ganlyniad i'r cyfnodau clo ac yn profi anawsterau wrth ailgydio mewn addysg. Pwysleisiodd staff anawsterau parhaus o ran ymgysylltiad, canolbwyntio ac ymddygiad dysgwyr, yn ogystal â chanfyddiad o ddirywiad mewn gwydnwch wrth dderbyn beirniadaeth adeiladol. Pwysleisiodd staff ac arweinwyr sefydliadau yr angen am gymorth ariannol parhaus a rhannu arfer gorau. Teimlwyd y byddai ymestyn y cyllid ychwanegol yn helpu sefydliadau i ddiwallu anghenion adferiad COVID-19 parhaus, yn ogystal ag anghenion newydd a grëwyd gan yr argyfwng costau byw (gan alluogi nhw i ymdrin yn rhagweithiol â phryderon ynghylch cadw dysgwyr).

3.17 Roedd monitro a mesur cynnydd yn amrywio ar draws y sector a rhwng sefydliadau, gyda llawer yn dibynnu ar ddangosyddion presennol megis cadw a dilyniant. Cydnabuwyd yn gyffredinol bod ymdrechion i fesur effeithiolrwydd wedi'u cyfyngu gan gapasiti sefydliadol, a diffyg eglurder ynghylch amcanion/gofynion monitro o'r cychwyn cyntaf. O ran ffrydiau cyllido'r dyfodol byddai'n fanteisiol i fonitro gael ei ystyried yn glir cyn dosbarthu, i ofynion fod yn syml ac i nodiadau arweiniad fod yn glir. Dylid rhoi ystyriaeth lawn hefyd i botensial defnyddio data gweinyddol presennol i asesu effeithiolrwydd.

3.18 Mae’r argymhellion allweddol sy’n deillio o’r gwerthusiad wedi’u grwpio o amgylch sawl thema, ac yn cynnwys:

- Eglurder gwybodaeth:
  - Darparu gwybodaeth glir ac wedi'i chyflwyno'n gyson am y cyllid sydd ar gael i fapio ffrydiau cyllido penodol, eu gwerth ariannol a'u nodau.
  - Llunio prif restr o'r holl sefydliadau a fydd yn derbyn y cyllid a diffinio'n glir pa fathau o sefydliadau ôl-16 sydd â hawl i ffrydiau cyllido penodol o'r cychwyn cyntaf.
- Gwybodaeth monitro a rheoli:
  - Sefydlu’r gofynion monitro sydd ynghlwm wrth unrhyw gyllid yn y dyfodol wrth ddylunio modelau cyllido, ymgysylltu â sefydliadau perthnasol yn gynnar yn y broses casglu data a chreu offer casglu data sy’n lleihau’r posibilrwydd o wallau wrth fewnbynnu data.
  - Casglu, coladu a phrosesu data ar lefel sefydliadau, gan annog sefydliadau i ddarparu data (bron) mewn amser real, ac i adrodd ar allbynnau/deilliannau o ddiddordeb ar ddechrau'r cyfnod cyllido (gan ddarparu gwaelodlin).
  - Adolygu gofynion monitro, a chyfarwyddiadau cysylltiedig, pryd bynnag y gwneir newid i'r meini prawf cymhwysedd.
- Cydweithio a rhannu gwybodaeth:
  - Nodi dulliau posib i gynnal perthnasoedd cydweithredol rhwng Llywodraeth Cymru a chyrff/sefydliadau sector ôl-16.
  - Ymchwilio i opsiynau coladu a rhannu arfer gorau a dysgu ar ddarparu cymorth iechyd meddwl a lles i staff mewn sefydliadau ôl-16.
  - Sicrhau bod canfyddiadau gwerthuso o ran canfyddiadau dysgwyr o gymorth i bontio rhwng gwahanol lefelau addysg yn cael eu rhannu â thimau rhaglen perthnasol Llywodraeth Cymru.
  - Sicrhau bod unrhyw benderfyniadau cyllido yn y dyfodol yn gofyn am gydweithio pan fo'n berthnasol ac y gwyddys ei fod yn effeithiol.
  - Dathlu'r arfer da mewn gwaith cydweithredol ar draws sefydliadau ôl-16 yn ystod y pandemig.

- Proses a gweithredu:
    - Cynnig mwy o hyblygrwydd o ran sut y gellir defnyddio cyllid ar lefel sefydliadau, er enghraifft i ailbwrpasu a/neu ailddosbarthu unrhyw danwariant.
    - Alinio'r flwyddyn academaidd â'r graddfeydd amser ar gyfer dyrannu, dosbarthu a gwario cyllid.
- Anghenion gweithlu a dysgwyr parhaus/y dyfodol:
    - Amlygu a blaenoriaethu'r angen parhaus am hyfforddiant a datblygu sgiliau digidol proffesiynol staff yn y sector ôl-16.
    - Ymchwilio i ba raddau y mae sefydliadau ôl-16 yn rhoi cyhoeddusrwydd i'r opsiynau dysgu o bell sydd ar gael.
    - Ystyried yr angen am ymchwil bellach i archwilio cyfathrebu o fewn sefydliadau ôl-16 mewn perthynas ag argaeledd a natur cymorth i ddysgwyr, mewn mathau penodol o sefydliadau ôl-16.
- Fframwaith gwerthuso ar gyfer y dyfodol:
    - Cynnal astudiaeth dichonoldeb wrth ddylunio modelau cyllido ar gyfer y dyfodol.
    - Adolygu deilliannau ac effeithiau yn y Theori Newid i sicrhau eu bod yn fesuradwy.
    - Ystyried casglu data yn rheolaidd ar draws y boblogaeth ar gyfer deilliannau ac effeithiau allweddol yn y Theori Newid.
    - Parhau i nodi data gweinyddol y gellid ei ddefnyddio ar gyfer ymchwil yn y dyfodol ac ystyried cysylltiadau data ym mhob gweithgaredd casglu data yn y dyfodol.

# 4. Sut y cafodd Cyllid Adferiad COVID-19 Ôl-16 Llywodraeth Cymru ei ddosbarthu

4.1 Mae'r bennod hon yn amlinellu strwythur a dosbarthiad Cyllid Adferiad COVID-19 Ôl-16 Llywodraeth Cymru, gan ymchwilio i sut y dyrannwyd adnoddau ar draws y sector a chan nodi unrhyw heriau gweithredol a brofwyd. Daw'r canfyddiadau'n bennaf o gyfweliadau ag uwch randdeiliaid o bob rhan o'r sector ôl-16.

**Ffrydiau'r Cyllid Adferiad COVID-19**

4.2 Creodd y pandemig argyfwng digynsail yn y byd addysg, a fu'n mynnu ymateb ariannol cyflym a sylweddol er mwyn parhau ag addysg, a diwallu anghenion ychwanegol staff a dysgwyr. Fel rhan o'r ymateb, dyrannodd Llywodraeth Cymru bron i £295 miliwn mewn cymorth i ddarparwyr ôl-16. Roedd hyn yn cynnwys tua £233miliwn o gyllid gysylltiedig â COVID-19 ym mlwyddyn ariannol 2020/21, a £62 miliwn yn 2021/22.[25]

4.3 Bwriad y cyllid oedd mynd i'r afael ag anghenion a blaenoriaethau amrywiol, ar draws gwahanol gyfnodau'r pandemig:

- **Mesurau ymateb ymarferol (£50 miliwn)**: cynnal diogelwch dysgwyr ac ymarferwyr yn ystod y pandemig. Roedd hyn yn cynnwys cyllid ar gyfer glanhau manwl, cyfarpar diogelu personol (PPE) megis gorchuddion wyneb, parseli gofal a chymorth i ddysgwyr yr oedd angen iddynt hunanynysu.
- **Mesurau ymateb dysgu (£195 miliwn)**: cefnogi dysgu a datblygu yn ystod y pandemig. Ymysg yr enghreifftiau oedd cyllid i sicrhau cynhwysiad digidol a chefnogi iechyd meddwl a lles dysgwyr.
- **Mesurau blaen-gefnogi (£50 miliwn)**:[26] sicrhau cynnydd parhaus dros y tymor canolig a'r tymor hwy. Sicrhau bod unrhyw effeithiau andwyol etifeddol yn sgil y pandemig yn cael eu lleihau trwy adeiladu ar arfer gorau a gwersi a ddysgwyd yn ystod y camau ymateb.

4.4 Bwriadwyd hefyd i'r cyllid ddiwallu mathau penodol o angen, ac felly fe'i rhannwyd i nifer o ffrydiau cyllido:

- **Cynhwysiad digidol a dysgu cyfunol:** Datblygu sgiliau digidol staff a dysgwyr i gefnogi dysgu cyfunol/ar-lein yn ystod y pandemig, cyllid cyfalaf ar gyfer offer a

[25] Mae'r cyfansymiau fesul blwyddyn ariannol wedi'u talgrynnu i'r rhif cyfan agosaf.
[26] Mae cyfansymiau fesul cam wedi'u talgrynnu i'r rhif cyfan agosaf.

seilwaith, addasu systemau digidol, datblygu adnoddau ar-lein a mabwysiadu dulliau newydd o addysgu o bell.

- **Cymorth iechyd meddwl a lles i staff a dysgwyr:** Diogelu lles ymarferwyr gan gynnwys ystyriaethau o ran llwyth gwaith; cefnogi lles dysgwyr gan gynnwys eu hiechyd meddwl a chorfforol; hyrwyddo dyheadau a hyder dysgwyr; hyrwyddo dewisiadau iach ac amgylcheddau astudio cynhyrchiol.
- **Cefnogaeth academaidd a dal i fyny:** Cyflwyno addysgu a dysgu ychwanegol sy'n gwella gwybodaeth a sgiliau dysgwyr; gweithgareddau asesu ffurfiannol sy'n helpu i optimeiddio addysgu a dysgu; datblygu sgiliau astudio, sgiliau rhyngbersonol, a gwydnwch dysgwyr.
- **Pontio a chymorth gyrfaol:** Cywain gwybodaeth ynghylch galluoedd, anghenion a rhinweddau dysgwyr; rhannu gwybodaeth am ddysgwyr a'u hanghenion ag ymarferwyr perthnasol mewn ffordd ddiogel ac amserol i gefnogi cynnydd dysgwyr; darparu mwy o gymorth i ddysgwyr wrth iddynt symud rhwng cyfnodau addysg a hyfforddiant ac i'r gweithle.
- **Cymorth ariannol ac ymarferol:** Datblygu mesurau ymarferol i gynnal diogelwch dysgwyr ac ymarferwyr yn ystod y pandemig, darparu cymorth ymarferol ac ariannol ychwanegol i ddysgwyr a'u teuluoedd ac ehangu Prydau Ysgol am Ddim.
- **Gwydnwch y gweithlu:** Datblygu gwydnwch y gweithlu addysg trwy ddysgu proffesiynol; ehangu'r gweithlu trwy recriwtio a chadw a manteisio i'r eithaf ar rinweddau unigol a chyfunol.

4.5 Mae manylion penodol y ffrydiau cyllido hyn a'u dosbarthiad ar draws y sector ôl-16 wedi'u nodi yn Atodiad B Diagram ffrydiau cyllido. Mae'r ffrydiau a'r ffynonellau cyllid lluosog yn dangos cymhlethdod y Cyllid Adferiad COVID-19.

**Dosbarthiad y cyllid: Gwneud penderfyniadau**

4.6 Mae'r is-adran ganlynol yn ymchwilio i ddosbarthiad y Cyllid Adferiad COVID-19, gan gynnwys y broses gwneud penderfyniadau ar draws gwahanol gyfnodau'r pandemig, a rhannau o'r sector ôl-16. Mae'n amlygu'r heriau o ymateb yn gyflym yn wyneb ansicrwydd sylweddol, anawsterau logistaidd a phryder, a phwysigrwydd gweithio ar y cyd a chydweithredu.

4.7 Noda cyfweliadau a gynhaliwyd ag uwch randdeiliaid o bob rhan o'r sector y bu i heriau'r pandemig orfodi newidiadau angenrheidiol i gyflymder y broses o wneud penderfyniadau cyllido, a aeth yn "llawer, llawer cyflymach". Amlygodd rhanddeiliaid fod y cyd-destun ar ddechrau'r pandemig yn ddwys ac yn pwyso'n drwm ar bobl, wrth i'r sector wynebu amgylchiadau heriol fu'n newid yn gyflym.

4.8 Er i natur cydweithio â sefydliadau amrywio ar draws y sector ôl-16, amlygodd yr holl randdeiliaid bwysigrwydd cydweithio, a sicrhau bod perthnasoedd yn cael eu cynnal a'u cryfhau o fewn cyd-destun gwneud penderfyniadau mewn ffordd gyflym ac ymatebol.

4.9 Pwysleisiodd uwch randdeiliaid a fu'n gweithio gyda sefydliadau addysg bellach (AB) ac adrannau chweched dosbarth ysgolion bwysigrwydd cyfathrebu a chydweithio. Y cam cyntaf oedd cyfarfod rhwng ColegauCymru, penaethiaid colegau a Llywodraeth Cymru, a dod i gytundeb y byddai ColegauCymru yn coladu adroddiad ysgrifenedig o anghenion cymorth AB ar gyfer y gweinidog addysg (gweithgareddau a ddigwyddodd ym mis Mawrth 2020, yn syth cyn y cyfnod clo cyntaf). Ystyriwyd bod y dull hwn yn gam cyntaf defnyddiol wrth asesu a chyfathrebu anghenion.

4.10 Bu i berthnasoedd sefydledig rhwng Llywodraeth Cymru, cyfarwyddwyr cyllid AB ac arweinwyr cwricwlwm alluogi rhannu gwybodaeth a chydgysylltu rheolaidd ar draws sefydliadau AB drwy gydol y pandemig. Parhaodd y cyfarfodydd bob tymor ac yna bob mis. Helpodd y cydgysylltu hwn rhwng sefydliadau i greu ymagwedd fwy unedig at adferiad COVID-19, gan gynnwys nodi meysydd blaenoriaeth ar gyfer cyllid ychwanegol.

4.11 Nodwyd bod addysg cyn-16 wedi denu cryn sylw gwleidyddol yng nghamau cynnar y pandemig, a bod rhanddeiliaid yn gweld ôl-16 (AB yn benodol) fel 'gwasanaeth Sinderela' i ryw raddau, gyda llai o ffocws ar ddysgwyr ôl-16 a llai o sylw iddynt. Yn rhannol roedd y gwelliant mewn rhwydweithiau cydweithredol yn ymateb i'r canfyddiad hwn, gan sicrhau bod anghenion dysgwyr ôl-16 yn cael eu cydnabod.[27] Gwnaed ymdrechion hefyd o fewn Llywodraeth Cymru i gydlynu cymorth ar gyfer addysg cyn ac ôl-16 mewn ysgolion a cholegau.

4.12 Pwysleisiodd rhanddeiliaid AU hefyd bwysigrwydd cydweithio agos â sefydliadau, ac ar yr un pryd cydnabod annibyniaeth sefydliadau addysg uwch (SAU) a rôl CCAUC fel cyllidwr a rheoleiddiwr. Bu i Lywodraeth Cymru weithio'n agos iawn â CCAUC o ddechrau'r pandemig, gan alw ar eu perthynas sefydledig. Y dyhead

[27] Er i grwpiau a rhwydweithiau fel y rhwydwaith Cwricwlwm ac Ansawdd fodoli a gweithio'n agos â Llywodraeth Cymru cyn COVID, fe wnaethant gyfarfod yn amlach a gweithio ar y cyd i nodi anghenion a grëwyd gan y pandemig.

oedd gweithio mewn cydweithrediad agos â'r sector addysg uwch, “roedden ni eisiau gwneud gyda, nid gwneud i.” (Uwch randdeiliad, AU).

4.13 Roedd rhanddeiliaid AU o'r farn bod prosesau gwneud penderfyniadau yn gymhleth yng nghamau cynnar y pandemig cyn dod i gytundeb ar y llythyr cylch gwaith gan Lywodraeth Cymru i CCAUC. Bu pryderon mawr ynghylch hyfywedd ariannol SAU yn y dyfodol yng nghyd-destun y pandemig hefyd.

4.14 Sefydlwyd dau grŵp AU cydweithredol, y 'Grŵp Edrych Ymlaen' traws-sector' a'r 'Grŵp Canllawiau' ('Tasg a Gorffen' yn wreiddiol'). Yn wreiddiol, bwriadwyd i'r ail fod yn seinfwrdd i wirio synnwyr canllawiau ar gyfer SAU ond fe aeth yn fforwm i drafod materion ehangach, er enghraifft, cofrestriadau myfyrwyr meddyg teulu a gweinyddu brechlynnau. Roedd y ddau grŵp yn cael eu gwerthfawrogi'n gyffredinol gan randdeiliaid ar draws sefydliadau, gan annog cyfathrebu agored ac effeithiol am heriau a blaenoriaethau cyllido.

4.15 Roedd dysgu seiliedig ar waith (DSW) yn gweithredu ar strwythur gwahanol a thrwy drefniant cyllido gwahanol i rannau eraill o'r sector ôl-16, gan gyfyngu ar gwmpas Llywodraeth Cymru i ymyrryd. Yn hytrach na sefydlu gweithgorau, bu i Lywodraeth Cymru weithio gyda Ffederasiwn Hyfforddiant Cenedlaethol Cymru (FfHCC) a CholegauCymru i gysylltu â'r sector DSW a'i gefnogi. Er y bu cyfathrebu rheolaidd â darparwyr, dywedodd uwch randdeiliaid fod y dull o weithio gyda DSW yn fwy organig ac yn llai strwythuredig na rhannau eraill o'r sector ôl-16. Teimlwyd bod y dull hwn yn effeithiol, gan hwyluso gwneud penderfyniadau amserol ac adeiladu ar berthnasoedd cadarnhaol a fu'n bodoli eisoes rhwng Llywodraeth Cymru,FfHCC, ColegauCymru a darparwyr DSW.

4.16 Ochr yn ochr ag adeiladu ac atgyfnerthu cysylltiadau mewn gwahanol rannau o'r sector ôl-16, sefydlwyd ‘grŵp addysg cenedlaethol’ i gydlynu camau gweithredu ar draws Llywodraeth Cymru, gan ddwyn ynghyd swyddogion polisi addysg, Iechyd Cyhoeddus Cymru, Awdurdodau Lleol (ALl) a darparwyr addysg. Roedd gwybodaeth iechyd cyhoeddus fel arfer yn cael ei rhaeadru i wahanol rannau o'r sector ôl-16 gan randdeiliaid Llywodraeth Cymru. Byddai swyddogion iechyd cyhoeddus hefyd yn gwirio dogfennau canllaw i'r sector addysg yn ôl yr angen.

### Rôl tystiolaeth a llais dysgwyr wrth wneud penderfyniadau

4.17 Roedd cyfleoedd i wneud penderfyniadau ar sail tystiolaeth yn gyfyngedig yn ystod camau cynnar y pandemig oherwydd natur ddigynsail y sefyllfa a'r angen am wneud

penderfyniadau'n gyflym. Yn hytrach, roedd penderfyniadau'n seiliedig ar farn orau ar y cyd ac ymddiriedaeth ym mhrofiad a gwybodaeth rhanddeiliaid y sector o ran yr hyn oedd ei angen a sut i ymdrin ag anghenion cymorth a nodwyd.

4.18 Bu ymgysylltu cyfyngedig â dysgwyr o fewn y broses gwneud penderfyniadau yn gyffredinol, er i randdeiliaid AU nodi y bu i'r gweinidog addysg ymgynghori'n rheolaidd â chynrychiolwyr UCM Cymru. Cynigiodd yr ymgysylltu hwn gyfleoedd i ddysgu am faterion sy'n berthnasol i ddysgwyr ôl-16 (er gyda ffocws penodol ar AU ac AB). Roedd disgwyliadau y byddai sefydliadau dysgu unigol yn ymgysylltu â'u dysgwyr wrth wneud penderfyniadau am anghenion a blaenoriaethau gwariant.

**Ystyriaethau gwerth am arian**

4.19 Roedd gwerth am arian yn ffactor mewn penderfyniadau cyllido ar gyfer addysg bellach (AB) ac adrannau chweched dosbarth ysgolion ond fe'i hystyriwyd yn llai o ffactor nag y byddai fel arfer. Roedd hyn yn gysylltiedig â'r cyflymder yr oedd angen gwneud penderfyniadau i gefnogi'r sector.

4.20 Roedd AU yn gweithredu ychydig yn wahanol, gyda sefydliadau'n gwneud cais yn uniongyrchol i CCAUC am gyllid, ond gydag annibyniaeth o ran sut y cafodd y cyllid hwnnw ei wario o fewn y gwahanol ffrydiau cyllido.[28] Roedd gwneud penderfyniadau'n seiliedig ar farn orau gan gymryd gwerth am arian i ystyriaeth, er y darparwyd rhywfaint o arweiniad ar wariant gan CCAUC.

4.21 Yn yr un modd, roedd gwerth am arian yn ffactor wrth wneud penderfyniadau o fewn DSW, ond yng nghyd-destun cynaladwyedd ariannol tymor hwy. Yn benodol, sefydlwyd fformiwlâu cyllido i gefnogi darparwyr DSW yn seiliedig ar ddarpariaeth hanesyddol i sicrhau y byddai modd iddynt ailgydio yn eu gwaith ar ôl y pandemig:

> "Roedd cynaladwyedd y rhwydwaith yn bryder go iawn. Byddai'n broblem enfawr pe bai yna ddarparwyr a oedd wedi mynd i'r wal unwaith y byddai'r pandemig drosodd." (Uwch randdeiliad, DSW)

4.22 Nododd rhanddeiliaid ar draws y sector fod y prawf gwerth am arian wedi'i gymhwyso i bob cais mawr am gyllid fel rhan o broses Siambr y Seren[29]. Roedd y

---

[28] Roedd rhai ffrydiau cyllido a brofodd i fod yn eithriadau i'r annibyniaeth hon, er enghraifft, y gronfa Dysgu Digidol Cymru Gyfan a gaiff ei thrafod yn y bennod nesaf.

[29] Proses adolygu'r Adran Addysg ar gyfer data yn ymwneud â gwasanaethau plant, ysgolion a theuluoedd yw Siambr y Seren, gweler https://www.gov.uk/government/groups/star-chamber-scrutiny-board

broses hon hefyd yn sicrhau bod cyllid yn cael ei flaenoriaethu i'r ardaloedd â'r angen mwyaf.

**Blaenoriaethau a gwneud penderfyniadau dros gyfnod y pandemig**

4.23 Roedd blaenoriaethau a phenderfyniadau'n amrywio dros gyfnod y pandemig, gyda rhai ffactorau cyffredin ar draws gwahanol rannau o'r sector ôl-16. Ar ôl gweithredu'r cyfnodau clo cychwynnol i sicrhau lles staff a myfyrwyr, creodd misoedd cyntaf y pandemig bryderon arwyddocaol ynghylch hyfywedd ariannol darparwyr,[30] ac yna iechyd, lles a llesiant dysgwyr ar draws y sector wrth i'r rhain ddod o dan gylch gwaith sefydliadau unigol. Dilynwyd hyn yn y camau diweddarach gan fwy o ffocws ar gwblhau cyrsiau a dilyniant.

4.24 O ran rhanddeiliaid AU, bu pryderon cynnar am gynaladwyedd ariannol ochr yn ochr â chynllunio senarios ar gyfer derbyn myfyrwyr rhyngwladol a domestig. Ategwyd y broses o wneud penderfyniadau gan ymrwymiad ariannol gan lywodraeth y DU. Yn hydref 2020 bu mwy o ffocws ar iechyd a lles myfyrwyr, gan gynnwys rheoli ail don o'r firws. Bu pryderon cynyddol hefyd ynghylch iechyd meddwl a lles dysgwyr. Yn haf 2021 roedd ffocws cynyddol ar galedi myfyrwyr, a oedd wedi'i waethygu o ganlyniad i gyfleoedd gweithio rhan-amser grebachu, yn enwedig yn y diwydiannau manwerthu a hamdden.

4.25 Fel AU, roedd rhanddeiliaid DSW yn bryderus yn y lle cyntaf am hyfywedd ariannol darparwyr (o fewn cyd-destun mesurau iechyd cyhoeddus cenedlaethol/rhyngwladol gan gynnwys cyfyngiadau parhaus ar ddysgu wyneb yn wyneb). Fodd bynnag, bu'n rhaid cydbwyso'r awydd am gynnig cymorth ariannol yn erbyn yr angen am roi cefnogaeth ariannol i'r ymateb iechyd cyhoeddus i'r pandemig. Lleihaodd y pwysau hyn gan gyllid llywodraeth y DU. Bu pryderon ynghylch hyfywedd ariannol ochr yn ochr â phryderon parhaus a sylweddol am iechyd a lles dysgwyr, ac anogaeth i ddarparwyr sicrhau bod dysgwyr yn teimlo'n gysylltiedig ac wedi'u cefnogi. Roedd cysylltedd TG yn broblem am fod llawer yn ymwneud â dysgu seiliedig ar waith y tu allan i amgylchedd swyddfa. Aeth cwblhau cymwysterau'n flaenoriaeth yn ddiweddarach yng nghyfnod y pandemig, yn enwedig i fyfyrwyr ar gyrsiau ag asesiad ymarferol sylweddol neu le y bu'n ofynnol iddynt gronni isafswm o oriau.

[30] Dylid nodi y gofynnwyd i'r cyfweleion roi sylwadau ar flaenoriaethau yn eu rôl fel rhanddeiliaid uwch yn y sector ôl-16. Bu pryderon ynghylch hyfywedd ariannol yng nghyd-destun mesurau ar raddfa fawr a ddyluniwyd i ddiogelu'r cyhoedd pan oedd diogelu iechyd dysgwyr a staff y tu hwnt i reolaeth sefydliadau addysgol (h.y., yn ystod cyfnodau clo/cau i lawr).

## 5. Sut y defnyddiwyd y cyllid, a phenderfyniadau o fewn sefydliadau

5.1 Mae'r bennod a ganlyn yn rhoi trosolwg o'r canllawiau cyllido, prosesau gwneud penderfyniadau ar wariant, a chrynodeb o sut y bu i'r sefydliadau addysg ôl-16 ddefnyddio'r cyllid. Rydym hefyd yn archwilio ymagweddau sefydliadau at ystyried grwpiau blaenoriaeth, anghenion dysgwyr a staff, a'u cyfranogiad yn y prosesau gwneud penderfyniadau ar wariant. Mae'r bennod yn galw ar ganfyddiadau o gyfweliadau ag arweinwyr sefydliadau,a hefyd ar ddata GR.

**Arweiniad cyllido**

5.2 Roedd arweinwyr sefydliadau fel arfer yn gytûn bod y canllawiau a ddarparwyd gan Lywodraeth Cymru ar gyfer ffrydiau cyllido unigol yn glir, gan nodi paramedrau'r hyn y gellid ac na ellid ei wneud gyda'r cyllid. Fodd bynnag, oherwydd i'r cyllid gyrraedd drwy wahanol ffrydiau cyllido, ac mewn rhai achosion yn ystod yr un cyfnod amser, roedd yn heriol i rai sefydliadau ddeall pa rai o'r ffrydiau cyllido yr oedd y canllawiau'n berthnasol iddynt.

> "Roedd rhywfaint o ddryswch ynghylch yr hyn y gellid defnyddio'r cyllid ar ei gyfer mewn rhai achosion […] Hefyd, roedd hyd yn oed cydweithwyr yn Llywodraeth Cymru yn drysu am ei fod [y cyllid] yn dod o wahanol rannau o Lywodraeth Cymru." (Arweinydd sefydliad, AB)

5.3 Bu consensws ymhlith arweinwyr sefydliadau yr oedd Llywodraeth Cymru ar gael i ddarparu cymorth ac i ymateb i unrhyw ymholiadau. Roedd Llywodraeth Cymru hefyd yn rhagweithiol wrth ymgysylltu â sefydliadau AB yn ystod y pandemig trwy gyfarfodydd ymgysylltu rheolaidd. Roedd hyn wedi'i werthfawrogi gan arweinwyr AB, am fod y cyfarfodydd yn galluogi sefydliadau i rannu eu profiadau a'u dysgu â'i gilydd a gyda swyddogion Llywodraeth Cymru.

"Yr hyn oedd yn arbennig o drawiadol gan Lywodraeth Cymru oedd y cyfarfodydd rheolaidd." (Arweinydd sefydliad, AB)

5.4 Fodd bynnag, dywedodd arweinwyr DOC yr oeddent, ar ôl cyfarfod â Llywodraeth Cymru i drafod y cyllid a'r canllawiau cysylltiedig, yn fwy dryslyd fyth, am fod yr arweiniad ar lafar yn wahanol i'r fersiwn ysgrifenedig. Felly, gwnaethant awgrymu yn y dyfodol y gallai timau o fewn Llywodraeth Cymru wneud penderfyniadau ar y cyd a chyhoeddi unrhyw ganllawiau cyllido ochr yn ochr ag unrhyw dempledi monitro (gan sicrhau cysondeb mewnol unrhyw ganllawiau a rennir â'r sector).

5.5 Er i adrannau chweched dosbarth ysgolion dderbyn canllawiau cyllido gan Lywodraeth Cymru, darparodd rhai ALlau gymorth ychwanegol drwy ymateb i ymholiadau adrannau chweched dosbarth ynghylch defnyddio'r cyllid.

5.6 Derbyniodd sefydliadau AU ganllawiau ar ffrydiau cyllido perthnasol gan CCAUC. Er i rai arweinwyr AU gael y canllawiau cyllido ac arddull cyfathrebu CCAUC yn glir, teimlai eraill y gallai'r nodiadau canllaw fod yn gliriach o ran terminoleg ac y gallai cyfathrebu fod yn fwy rhagweithiol. Adroddodd un o'r ymatebwyr nad oedd CCAUC wedi rhannu unrhyw ganllawiau â nhw nes y gofynnwyd yn uniongyrchol amdanynt. Ymysg yr awgrymiadau ar gyfer ymdrin â'r problemau hyn oedd sefydlu fframwaith llywodraethu prosiect a darparu 'taflen o bethau i'w hystyried' - rhestr fer o ystyriaethau allweddol i gefnogi SAU wrth wneud cais am gyllid a chyflwyno prosiectau.

**Hyblygrwydd wrth ddefnyddio'r cyllid**

5.7 Roedd arweinwyr o bob rhan o’r sector yn gwerthfawrogi hyblygrwydd o ran sut y gellid defnyddio’r cyllid (ac fel y nodwyd yn y dogfennau canllaw), a fu'n galluogi sefydliadau i ymdrin â'u hanghenion penodol nhw a/neu rai eu hardal leol. Roedd hyblygrwydd hefyd yn galluogi sefydliadau i ymateb i anghenion newidiol.

> “Ychydig iawn o arweiniad a roddwyd ond roedd hynny’n dda mewn ffordd. Rwy’n credu yr oedd pob rhanbarth wedi cael profiad gwahanol iawn yn ystod COVID ac efallai y byddai angen iddynt i gyd ei wario mewn ffyrdd ychydig yn wahanol, felly rwy’n meddwl bod arweiniad rhydd yn eithaf synhwyrol.” (Arweinydd sefydliad, DOC)

> “Cafodd [y canllawiau] eu hysgrifennu’n dda iawn yn yr ystyr yr oeddech chi’n gwybod ble roedd y ffiniau a’r paramedrau. Ond o fewn y ffiniau a’r paramedrau hynny roedd yn hyblyg iawn.” (Arweinydd sefydliad, AB)

5.8 Er bod yr arweinwyr yn gadarnhaol ar y cyfan am y diffyg arweiniad rhagnodol, roedd rhai yn ei chael yn rhwystredig. Er enghraifft, byddai un arweinydd DOC wedi croesawu cyfarwyddyd cryfach ar ddefnyddio'r cyllid, gan nodi, yn hytrach nag annog hyblygrwydd, bod y diffyg arweiniad yn adlewyrchu diffyg dealltwriaeth ac eglurder ar ran y corff cyllido.

5.9 Nododd arweinwyr rhai sefydliadau fod y canllawiau cyllido wedi mynd yn fwy rhagnodol dros gyfnod y pandemig, gan gynnig mwy o fanylder ynglŷn â'r hyn yr

oedd pob ffrwd cyllido'n ei gwmpasu. Disgrifiodd cyfweleion ganllawiau eithaf agored yn ystod camau cynnar y pandemig ond gan nodi bod hyn wedi'i ddilyn gan set fwy trylwyr a chlir o ganllawiau, a oedd yn cynnwys enghreifftiau o arfer gorau.

**Ail-neilltuo a/neu ail-bwrpasu ffrydiau cyllido presennol**

5.10 Yn gyffredinol, ni fu'n rhaid i sefydliadau ail-neilltuo unrhyw gyllid craidd at ddibenion adferiad COVID-19, a disgrifiwyd bod y cymorth ariannol a ddarparwyd gan Lywodraeth Cymru yn ddigon ar gyfer y cymorth ychwanegol a ddarparwyd ganddynt yn ystod y pandemig (caiff hyn ei drafod ymhellach ym mhennod 9). Fodd bynnag, esboniodd un arweinydd AB ei fod yn croesawu, ochr yn ochr â'r Cyllid Adferiad COVID-19, cytundeb gyda Llywodraeth Cymru i leihau ei darged gyflwyno prif ffrwd. Bu i hyn alluogi'r sefydliad i ail-bwrpasu'r arian a fyddai wedi cael ei wario ar gyflwyno i ddarparu cymorth ychwanegol i ddysgwyr yn ystod y cyfnodau clo COVID-19.

5.11 Adroddodd rhai arweinwyr AU iddynt ailgyfeirio rhan o'u cyllid craidd i ehangu cymorth iechyd meddwl a lles yn ystod y pandemig, am fod hyn yn faes pryder allweddol.

**Amserlenni gwario**

5.12 Bu i arweinwyr sefydliadau o bob rhan o'r sector gydnabod yr amserlenni cyfyngedig i Lywodraeth Cymru ddosbarthu cyllid ac i'r sefydliadau ei ddyrannu a'i wario oherwydd natur yr argyfwng. Bu i amserlenni byrion i ddefnyddio'r cyllid greu heriau ar gyfer sefydliadau o ran cynllunio a defnyddio'r cyllid yn effeithiol. Roedd hyn yn rhannol am fod cylchoedd cyllido'n dilyn y flwyddyn ariannol yn hytrach na'r flwyddyn academaidd, mater a godwyd gyda Llywodraeth Cymru ac a gafodd ei ateb.

> "Mae'r sector wedi bod yn eithaf onest am y mater parhaus hwn [gyda chyfnodau cyllido ac amserlenni cyfyngedig] gyda Llywodraeth Cymru ac roedd Llywodraeth Cymru wedi gwneud rhai addasiadau wrth ymateb i'r adborth hwnnw." (Arweinydd sefydliad, AB)

5.13 Mynegodd arweinwyr sefydliadau bryderon hefyd ynghylch oedi wrth ddosbarthu cyllid digidol, a olygodd y bu'n rhaid i rai sefydliadau brynu'r dyfeisiau gyda'u harian eu hunain a chael eu had-dalu wedyn. Roedd hyn yn fwy heriol o safbwynt ariannol i sefydliadau bach â llai o gronfeydd ariannol wrth gefn i'w defnyddio.

5.14 Er y daeth adborth am amserlenni gwario tynn o bob rhan o'r sector ôl-16, roedd yn ymddangos bod arweinwyr AU yn wynebu heriau penodol, gan gael y cyfnod gwario "hynod o fyr" yn anodd. Amlygodd un arweinydd AU yr heriau a achoswyd gan amserlenni byrion o ran recriwtio staff i gefnogi'r gwaith o ddarparu ymyriadau ymateb i COVID-19.

**Penderfyniadau ac ystyriaethau gwariant**

5.15 Awgryma'r canfyddiadau fod y rhan fwyaf o sefydliadau wedi dilyn prosesau gwneud penderfyniadau tebyg gyda'r uwch dîm arweinyddiaeth (UDA) ym mhob sefydliad yn chwarae rôl ganolog wrth benderfynu sut i ddyrannu a defnyddio'r cyllid. Bu rhywfaint o amrywiad yn y broses ar gyfer AB ac AU, gydag arweinwyr yn disgrifio "ymagwedd fesul cam" at wneud penderfyniadau, gyda chyllid yn cael ei rannu rhwng adrannau/timau a phenderfyniadau gwariant yn cael eu dirprwyo i arweinwyr adrannau/timau. Roedd hyn yn caniatáu i benderfyniadau gwariant gael eu teilwra'n well i anghenion dysgwyr a staff mewn gwahanol rannau o'r sefydliad. Bu myfyrion o bob rhan o'r sector bod y prosesau wedi mynd yn fwy effeithiol dros amser, a'u bod wedi ymgorffori safbwyntiau staff a dysgwyr yn gynyddol (gweler 5.19).

**Grwpiau blaenoriaeth mewn penderfyniadau gwariant**

5.16 Bu i arweinwyr sefydliadau ar draws y sector ystyried amrywiaeth o grwpiau blaenoriaeth mewn penderfyniadau gwariant. Roedd grwpiau blaenoriaeth allweddol yn canolbwyntio ar y dysgwyr 'mwyaf agored i niwed', fel y rhai sy'n byw ag anabledd, dysgwyr sy'n profi anawsterau iechyd meddwl, a'r rhai mewn perygl o gael eu cam-drin. Roedd grwpiau blaenoriaeth allweddol eraill yn cynnwys dysgwyr a oedd yn fwy tebygol o brofi anhawster wrth gael mynediad at ddysgu ar-lein a chyfunol neu addasu iddynt, megis y rhai ag ADY, dysgwyr o gefndiroedd difreintiedig, a'r rhai sy'n byw mewn ardaloedd anghysbell.

> "Yn y lle cyntaf bu i ni ganolbwyntio ar bobl […] yn y rhwydwaith DOC nad oeddent yn gallu cyrchu'r rhyngrwyd, gan wneud yn siŵr y gallent gael mynediad iddo. Fe wnaethom hefyd edrych ar y rhai â heriau diogelu neu bryderon o ran iechyd a lles. Y dysgwyr a oedd yn ein rhaglen sgiliau hanfodol oedd y grŵp targed arall." (Arweinydd sefydliad, DOC)

**Cynnwys dysgwyr a staff wrth wneud penderfyniadau**

5.17 Roedd consensws ymhlith arweinwyr sefydliadau bod natur y pandemig, a phwys dirfawr yr ymateb, yn ei gwneud yn anodd iawn cynnwys llais dysgwyr mewn penderfyniadau gwariant (gweler hefyd 4.18). Nodwyd mai'r flaenoriaeth allweddol oedd medru parhau i addysgu a dysgu yn wyneb heriau ymarferol sylweddol. Fodd bynnag, bu i sefydliadau ystyried anghenion dysgwyr a staff a chynnwys y rhain mewn penderfyniadau gwariant cyn belled ag y gallent. Ymysg yr ystyriaethau allweddol oedd:

- diogelu a lles dysgwyr (yn enwedig i grwpiau agored i niwed)
- cael y cyfarpar a'r cysylltedd angenrheidiol i gyflwyno dysgu o bell
- sgiliau digidol staff
- cymorth ariannol ac ymarferol i ddysgwyr, staff, a'u teuluoedd.

5.18 Newidiodd natur yr ystyriaethau hyn dros gyfnod y pandemig, gan adlewyrchu anghenion newidiol dysgwyr a staff. Y blaenoriaethau a ddaeth i'r amlwg yng nghamau diweddarach y pandemig, gan gynnwys dychwelyd i ddarpariaeth wyneb yn wyneb, oedd:

- dal i fyny ar ddysgu a gollwyd
- iechyd meddwl, lles, a rhyngweithio cymdeithasol
- materion o ran ymgysylltu ac ymddygiad
- llwythi gwaith staff, a
- chefnogaeth gyda dysgu cyfunol.

5.19 Dywedodd arweinwyr sefydliadau hefyd, ar ôl yr ymateb 'argyfwng' cychwynnol, y bu'n haws iddynt gynnwys llais dysgwyr a staff yn y broses gwneud penderfyniadau. Casglwyd barn dysgwyr trwy arolygon a/neu ar lafar yn ystod gwasanaethau ysgol neu yn y dosbarth. Gofynnwyd i staff roi adborth ar lafar neu fe gawsant eu cynnwys yn uniongyrchol yn y gadwyn gwneud penderfyniadau.

5.20 Er i ddarparwyr DSW ddefnyddio arolygon dysgwyr hefyd i gywain llais dysgwyr yn ystod y pandemig, roedd yn heriol iddynt gynnwys safbwyntiau prentisiaid yn y penderfyniadau cychwynnol oherwydd amserlenni cyfyngedig. Roedd hyn yn golygu y bu'r adborth gan brentisiaid ar y dechrau wedi'i gyfyngu i hanesion anecdotaidd gan ddarparwyr/cyflogwyr.

### Gwella'r broses gwneud penderfyniadau

5.21 Fel y trafodwyd uchod, roedd sefydliadau'n aml yn gweld yr amserlenni ar gyfer defnyddio'r cyllid yn heriol, a nodwyd y byddent wedi croesawu amser rhagarweiniol hirach, i'w helpu i baratoi'n well. Teimlai arweinwyr sefydliadau y byddai gosod disgwyliadau ynghylch gwerth a natur y ffrydiau cyllido cyn dyfarnu cyllid wedi gwneud y broses o wneud penderfyniadau'n haws ac yn fwy effeithiol.

> “Gallai mwy o ystyriaeth fod wedi'i rhoi i'r logisteg a’r cydlyniad ohono [y cyllid]." (Arweinydd sefydliad, chweched dosbarth)

5.22 Gwelodd arweinwyr AU fwy o anhawster gyda ffrydiau cyllido a fu'n gofyn am wneud penderfyniadau ar y cyd/cydweithredol, gan gyfeirio’n benodol at gronfa Dysgu Digidol Cymru Gyfan (rhan o’r Gronfa Buddsoddi ac Adferiad Addysg Uwch). Eu teimlad oedd y byddai'r broses o wneud penderfyniadau'n well pe bai modd iddynt wneud y penderfyniadau gwariant yn annibynnol, gan ganiatáu i bob SAU deilwra'r pecyn ariannol i anghenion eu dysgwyr, yn hytrach na fel consortiwm.

5.23 Gwelodd arweinwyr DOC fod eu prosesau gwneud penderfyniadau'n aml wedi'u gwneud yn fwy cymhleth am fod angen cydlynu gwaith gyda nifer o dimau o fewn eu ALl, a’r haen ychwanegol o fiwrocratiaeth yr oedd hyn wedi'i chreu. Er enghraifft, nododd un arweinydd DOC mai’r tîm TG yn ei ALl oedd yn gyfrifol am brynu dyfeisiau digidol ar gyfer gwasanaethau DOC, a bod y tîm TG yn wynebu ceisiadau lluosog a chystadleuol yn sgil y pandemig. O ganlyniad i hyn roedd y broses yn anodd ac yn araf.

> “Dw i ddim yn rheoli'r tîm TG felly alla i ddim ddweud wrthynt pryd mae'n rhaid i chi wneud hyn, neu fod rhaid i chi wneud y llall. Ffurfiodd gwahanol grwpiau o fewn yr ALl weithgor er mwyn iddynt allu cydlynu ceisiadau i'r tîm TG a'r pwysau a oedd arno.” (Arweinydd sefydliad, DOC)

### Defnyddio'r cyllid

5.24 Mae’r is-adran a ganlyn yn rhoi trosolwg o sut y defnyddiwyd Cyllid Adferiad COVID-19 gan sefydliadau addysg ôl-16. Mae enghreifftiau hefyd wedi'u cynnwys drwy gydol yr adroddiad. Trafodir y canfyddiadau ar draws 5 maes thematig:

- cynhwysiad digidol a dysgu cyfunol
- iechyd meddwl a lles
- cymorth academaidd a dal i fyny

- pontio dysgwyr a chymorth gyrfaol
- cymorth ariannol ac ymarferol.

5.25 Daw'r canfyddiadau o ddata cyfweliadau ansoddol a gwybodaeth reoli (GR). Fodd bynnag, mae'n bwysig nodi mai dim ond darlun rhannol o'r defnydd o gyllid y mae'r data GR yn ei gynnig (oherwydd data coll) a dylid ei drin yn ofalus.

**Cynhwysiad digidol a dysgu cyfunol/ar-lein**

5.26 Cytunodd arweinwyr ar draws y sector fod cefnogi addysgu cyfunol/ar-lein a chynhwysiad digidol yn ffocws allweddol yn ystod y pandemig. Gwariwyd y rhan fwyaf o'r cyllid yn y maes hwn ar brynu dyfeisiau - gliniaduron yn bennaf, ond hefyd llechi, a phoethfannau/donglau Wi-Fi symudol y gellid eu rhoi'n fenthyg i staff a dysgwyr. Defnyddiwyd y cyllid hefyd i ddarparu gwasanaethau cysylltedd rhyngrwyd i ddysgwyr a'u teuluoedd, ac ar gyfer costau trwyddedau meddalwedd ychwanegol i alluogi mynediad o bell.

5.27 Mae GR a gasglwyd gan sefydliadau yn rhoi trosolwg o’r defnydd o gyllid digidol gan sefydliadau AB. Mae'r data'n atgyfnerthu'r adroddiadau gan arweinwyr lleoliadau y defnyddiwyd y cyllid yn bennaf i brynu gliniaduron.

**Tabl 5.1 Data GR: Defnydd o gyllid digidol gan sefydliadau AB**

| Eitemau a brynwyd gyda chyllid digidol gan sefydliadau AB | Nifer yr eitemau a brynwyd | Cyfanswm cost yr eitemau a brynwyd (£) | Cost gyfartalog fesul eitem (£) |
|---|---:|---:|---:|
| Gliniaduron | 23,992 | 7,938,450 | £331 |
| Llechi | 1,529 | 600,740 | £393 |
| Ffôn a data rhyngrwyd | 1,431 | 275,856 | £193 |
| Ategolion digidol | 11,735 | 207,589 | £18 |
| Trwyddedau meddalwedd | 5,987 | 154,857 | £26 |
| CYFANSWM GWARIANT | | 9,177,491 | |
| CYFANSWM A DDYFARNWYD | | **9,917,400** | |

*Ffynhonnell: Gwybodaeth Reoli*

### Cymorth iechyd meddwl a lles

5.28 Roedd iechyd meddwl a lles yn faes ffocws allweddol ar draws y sector ôl-16. Defnyddiodd sefydliadau gyllid i addasu amrywiaeth o ddulliau presennol er mwyn cefnogi dysgwyr a staff, gan gynnwys:

- adnoddau iechyd meddwl ar-lein, digwyddiadau a sesiynau lles, er enghraifft, ymwybyddiaeth ofalgar, ioga a myfyrdod
- gweithgareddau lles personol, gan gynnwys campau
- gwasanaethau cwnsela mewnol a/neu gyfeirio at wasanaethau perthnasol
- hybiau cymorth lles
- recriwtio staff lles a chymorth bugeiliol ychwanegol.

5.29 Buddsoddodd sefydliadau AB a chweched dosbarth mewn ehangu gwasanaethau presennol, yn enwedig drwy gyflwyno hybiau cymorth lles a recriwtio staff cymorth bugeiliol ychwanegol megis aelodau tîm cwnsela a diogelu. Fe wnaethant hefyd ddefnyddio cyfran o'r cyllid i greu neu ymestyn gweithgareddau lles a chlybiau myfyrwyr, gan gynnwys campau.

> "Gwelsom fod llawer ohonyn nhw'n cael pethau'n eithaf anodd yn gymdeithasol pan ddaethon nhw'n ôl, felly fe wnaethon ni redeg rhai clybiau, pethau fel pêl-fasged, badminton, celf, fel y gallen nhw gymdeithasu ychydig yn fwy." (Arweinydd sefydliad, AB)

5.30 Amlygodd arweinwyr DOC fod eu dysgwyr yn wynebu heriau ychwanegol, megis cyfrifoldebau gofalu, Saesneg fel Ail Iaith (ESL), a chyflyrau iechyd corfforol a meddyliol, a waethygodd yr heriau o ymdopi trwy gyfnod y pandemig. Mewn AB, canolbwyntiodd pryderon o ran lles ar gefnogi iechyd meddwl yn ystod y cyfnodau clo a dychwelyd i ddysgu wyneb yn wyneb, gyda phwyslais penodol ar y rhai a oedd yn glinigol agored i niwed. Mewn AU, dyrannwyd cyllid i Undebau Myfyrwyr i drefnu a hysbysebu cymorth lles ychwanegol.

5.31 Amlygodd arweinwyr sefydliadol o bob rhan o'r sector bryderon ynghylch y cynnydd yn llwyth gwaith staff a ddeilliodd o ddysgu cyfunol. O ganlyniad, bu i rai sefydliadau ddarparu cymorth lles penodedig i staff, fel diwrnodau lles staff, sesiynau lles ar-lein a rhaglenni cymorth staff, ac annog rheolwyr llinell i gynnig cymorth a chyfeirio pellach. Adroddodd arweinwyr DOC y cynigiwyd cymorth iechyd meddwl a lles a ddarparwyd gan eu ALl i staff, ochr yn ochr â staff ALl eraill. Cyflwynodd un o'r SAU

Gynllun Gweithredu Lles ac Iechyd, gan adeiladu ar waith a oedd eisoes ar y gweill i gefnogi eu staff.

> "Fe wnaethon ni ddarparu mwy o gymorth rheoli ar gyfer staff mewn gwirionedd, roedd gweithio o bell yn fater lles ynddo'i hun am ei fod yn creu mwy o bwysau." (Arweinydd sefydliad, AU)

**Cymorth academaidd a dal i fyny**

5.32 Derbyniodd sefydliadau AB a chweched dosbarth Gyllid Adferiad a Dilyniant Dysgwyr (ADD) i roi cymorth academaidd ychwanegol i ddysgwyr, ac i'w helpu i fynd i'r afael â'r bwlch dysgu a grëwyd gan y pandemig. Defnyddiwyd y cyllid fel arfer i ddarparu cymorth ar ffurf sesiynau dysgu un-i-un a grŵp, dosbarthiadau adolygu ychwanegol ac adnoddau ar-lein. Cyflwynodd rhai sefydliadau AB sesiynau dysgu academaidd neu ymarferol ychwanegol trwy 'Ddiwrnod Coleg Estynedig' i helpu dysgwyr i ddal i fyny â'r hyn yr oeddent wedi'i golli. Cyflwynodd un adran chweched dosbarth 'hyfforddwyr dysgu', yr oeddent wedi cefnogi dysgwyr iau yn yr ysgol cyn y pandemig, i gefnogi dysgwyr ym Mlynyddoedd 12 a 13.

5.33 Dywedodd arweinwyr AB fod cyllid wedi'i ddefnyddio'n bennaf ym mlwyddyn gyntaf y pandemig (Mawrth i Orffennaf 2020 a'r flwyddyn academaidd 2020/21) i ddatblygu deunyddiau addysgu ar-lein. Y flwyddyn wedyn (2021/22), defnyddiwyd y cyllid yn fwy systematig i fynd i'r afael â bylchau mewn gwybodaeth a sgiliau dysgwyr. Esboniodd arweinwyr AB fod y newid mewn gwariant yn bennaf o ganlyniad i ganllawiau mwy penodol gan Lywodraeth Cymru. Roedd y canllawiau yn ei gwneud yn ofynnol i sefydliadau gynyddu amser cyflwyno'r cwricwlwm 5 y cant a chynyddu gwersi Cymraeg i siaradwyr Cymraeg a dysgwyr dwyieithog.

> "Yn sicr, erbyn ail flwyddyn y cyllid dal i fyny roeddem yn fwy ffurfiol ein hymagwedd […] Roedd gwahaniaeth yn yr ymagwedd, yn bennaf am fod y canllawiau'n gliriach o lawer." (Arweinydd sefydliad, AB)

**Pontio dysgwyr a chymorth gyrfaol**

5.34 Dosbarthwyd cyllid pontio i sefydliadau AB ac adrannau chweched dosbarth i gefnogi dysgwyr a oedd yn cwblhau cyrsiau ac yn gadael addysg ôl-16, yn benodol, gyda chyngor gyrfaol. Fodd bynnag, awgryma'r canfyddiadau yr oedd gwariant ar bontio'n tueddu i ganolbwyntio ar gefnogi dysgwyr fu'n symud o fewn addysg ôl-16 (e.e., o'r ysgol i'r chweched dosbarth neu'r coleg), yn hytrach nag i gyflogaeth.

5.35 Dywedodd arweinwyr sefydliadau y defnyddiwyd y cyllid pontio i ddarparu amrywiaeth o weithgareddau:

- deunyddiau cymorth ar-lein
- diwrnodau agored rhithwir
- digwyddiadau pontio'r haf
- teithiau a sesiynau blasu'r coleg.

5.36 Mae'r Data Monitro Pontio (DMP) yn rhoi mewnweledDiad pellach i sut y gwnaeth sefydliadau AB ac adrannau chweched dosbarth mewn ysgolion wario'r cyllid pontio a'r nifer o ddysgwyr a elwodd o’r gweithgareddau hyn (gweler Tabl 5.). Dengys y data y bu i'r niferoedd mwyaf o ddysgwyr AB gymryd rhan mewn diwrnodau agored rhithwir a chyfweliadau personol, a’r gweithgaredd pontio mwyaf cyffredin ar gyfer dysgwyr adrannau chweched dosbarth ysgolion oedd cymorth wrth lunio Curriculum Vitae (CV) UCAS a chyngor gyrfaol, wedi'u dilyn yn agos gan gyfweliadau personol.

5.37 Mewn rhai achosion, nododd arweinwyr sefydliadau fod y cyllid hefyd yn cael ei ddefnyddio i gefnogi dysgwyr gyda chludiant i sicrhau y gallent fynychu digwyddiadau/sesiynau (er enghraifft, bws am ddim i ddiwrnod agored y coleg).

**Tabl 5.2 Data GR: Gweithgareddau pontio mewn AB ac adrannau chweched dosbarth 2020/21**

| Gweithgaredd | Nifer y dysgwyr a gymerodd ran - sefydliadau AB | Nifer y dysgwyr a gymerodd ran - adrannau chweched dosbarth ysgolion |
|---|---|---|
| Diwrnod agored rhithwir | 8,951 | 6,224 |
| Cyfweliad personol | 6,828 | 7,208 |
| Ymrestru cynnar a thaith campws | 6,658 | 1,953 |
| Cymorth CV UCAS | 5,731 | 8,013 |
| Sesiwn cymorth sgiliau | 5,412 | 4,342 |
| Cyngor gyrfaol | 3,510 | 7,316 |
| Cymorth lles | 1,774 | 3,771 |
| Cymorth Pontio[31] Rhydgrawnt neu Seren | 749 | 701 |
| Academïau chwaraeon haf | 485 | 189 |

*Ffynhonnell: Gwybodaeth Reoli*

**Cymorth ariannol ac ymarferol**

5.38 Yn ystod camau cynnar y pandemig rhoddwyd cyllid i sefydliadau ar gyfer mesurau ymateb ymarferol, yn benodol i weithredu mesurau diogelwch a gwarchod iechyd staff a dysgwyr. Defnyddiodd sefydliadau ar draws y sector ôl-16 y cyllid i brynu offer amddiffynnol personol (PPE) gan gynnwys masgiau wyneb a hylif diheintio dwylo a hefyd i ddatblygu eu mesurau Iechyd a Diogelwch COVID-19 a diweddaru polisïau diogelu. Defnyddiwyd y Cyllid Adferiad COVID-19 yn nes ymlaen hefyd i ddarparu cymorth ymarferol ac ariannol i ddysgwyr, yn enwedig y rhai mewn grwpiau agored i niwed.

5.39 Darparodd SAU gymorth caledi ychwanegol i'w dysgwyr gan ddefnyddio cyllid a ddosbarthwyd gan CCAUC. Roedd hyn yn cynnwys y 'Gronfa Cymorth i Fyfyrwyr COVID-19' a oedd ar gael i ddysgwyr fu'n profi anhawster wrth dalu costau o ganlyniad i'r pandemig, a bwrsariaeth ychwanegol (a ddyfarnwyd yn gyffredinol) i

[31] Menter gan Lywodraeth Cymru yw Seren, y mai ei nod penodol yw helpu dysgwyr addysg wladol disgleiriaf Cymru i gyflawni eu potensial academaidd llawn a chefnogi eu llwybr addysg i brifysgolion blaenllaw yng Nghymru, y DU a thramor.

fyfyrwyr ar incwm isel/â chyfrifoldebau gofalu. Cytunodd pob sefydliad i ddefnyddio system gyffredin i ddarparu cymorth fel bod tegwch ar draws y wlad.[32] Oherwydd y pwysau amser i gyfleu'r cymorth i fyfyrwyr, yn ogystal â phrinder staff ar draws AU, cytunwyd ar broses ddyfarnu symlach, gyda swm penodol ar gael i fyfyrwyr. Fodd bynnag, mynegodd rhai arweinwyr AU bryderon ynghylch effeithiolrwydd y dull hwn, gan mai nod y cyllid oedd darparu'r un faint o gymorth ariannol i bob dysgwr. Awgrymodd cyfweleion y gallai dull wedi'i dargedu'n well, a fu'n darparu cymorth yn gymesur ag anghenion y dysgwyr, fod wedi profi'n fwy effeithiol.

> "Aeth dyrannu'r gronfa caledi'n ffordd fecanistig iawn o gael […] symiau defnyddiol ond bach o arian i fwyafrif o fyfyrwyr, er y byddai dull a dargedir wedi bod yn well." (Arweinydd sefydliad, AU)

5.40 Darparwyd cyllid prydau ysgol am ddim (PYaDd) i sefydliadau AB i ymestyn cymorth PYaDd i fwy o ddysgwyr. Cyn COVID-19 dim ond i ddysgwyr mewn ysgolion, ar safle'r sefydliad ac yn ystod y tymor, yr oedd prydau ysgol am ddim ar gael. Disgrifiodd rhai arweinwyr AB hefyd sut y gwnaethant sefydlu banciau bwyd yn eu sefydliad i gefnogi dysgwyr fu'n profi tlodi bwyd. Mewn rhai achosion, roedd cymorth PYaDd wedi'i ddisodli gan arian parod neu gludiadau bwyd yn ystod y cyfnodau clo, i gefnogi dysgwyr a'u teuluoedd.

**Heriau a rhwystrau wrth ddefnyddio'r cyllid**

5.41 Yr her allweddol a adroddwyd gan arweinwyr sefydliadau oedd defnyddio'r cyllid COVID-19 o fewn yr amserlenni a bennwyd (gweler 5.12). Fodd bynnag, roedd rhai arweinwyr sefydliadau'n ei chael hi'n anodd diwallu anghenion gyda'r swm o arian oedd ar gael, gan adrodd am orwariant o fewn rhai ffrydiau cyllido (er enghraifft, dal i fyny ar ddysgu).[33]

5.42 Ochr yn ochr â'r materion o ran amserlenni, adroddodd arweinwyr sefydliadau hefyd mai'r rhwystrau allweddol i ddefnyddio'r cyllid yn effeithiol oedd capasiti staff ac anawsterau wrth recriwtio. Yn benodol, adroddodd arweinwyr sefydliadau y bu recriwtio staff addysgu a staff cymorth (e.e., cymorth TG) yn hynod o anodd a bod yr anhawster hynny'n parhau.

---

[32] Dosberthir cyllid caledi i ddysgwyr fel arfer trwy Gyllid Myfyrwyr Cymru (CNC) ar ôl i ddysgwyr gyflwyno cais i sefydliad.

[33] Cynigiodd Llywodraeth Cymru gyfle i sefydliadau AB gyflwyno gorgynigion am gyllid digidol os oedd eu hanghenion yn fwy na'r dyraniadau cychwynnol, a bodlonwyd y rhain yn llawn.

5.43 Yn ychwanegol at brinderau o ran y gweithlu, adroddodd arweinwyr sefydliadau brinderau o ran mathau penodol o offer digidol, yn benodol gliniaduron Chromebook. Roedd yr ymchwydd enfawr yn y galw a grëwyd gan y pandemig yn golygu nad oedd bob amser yn bosib prynu'r offer digidol o fewn yr amserlen ofynnol. Roedd hyn yn golygu na fu'n bosib i sefydliadau wario'r arian fel y bwriadwyd.

# 6. Profiadau staff sefydliadau

6.1 Mae’r bennod hon yn amlinellu canfyddiadau staff o'r Cyllid Adferiad COVID-19 a sut y cafodd ei ddefnyddio gan sefydliadau. Mae’n ymchwilio i ganfyddiadau staff o angen, y cymorth a gynigiwyd, ac effeithiolrwydd y cymorth hwnnw, ar draws y gwahanol ffrydiau cyllido. Daw'r canfyddiadau o gyfweliadau a grwpiau ffocws â staff ac arweinwyr sefydliadau yn ogystal â dadansoddiad o ddata arolygon staff.

6.2 Roedd yr arolwg staff yn cynnwys safbwyntiau gweithwyr o bob rhan o'r sector ôl-16. Fel y dangosir yn **Error! Reference source not found.**.1 amrywiodd y nifer o ymatebion yn sylweddol fesul math o sefydliad, o 143 o ymatebion gan staff AB i 7 gan weithwyr chweched dosbarth. Roedd amrywiad hefyd fesul rôl staff, sy’n darparu cyd-destun pwysig ar gyfer y canfyddiadau a drafodir isod, yn enwedig lefel yr ymwybyddiaeth/gwybodaeth am y Cyllid Adferiad COVID-19 a sut y cafodd ei ddefnyddio. Dangosir y dadansoddiad o ymatebion fesul rôl yn Tabl 6.. Mae’n dangos mai athrawon/tiwtoriaid/aseswyr oedd y gyfran fwyaf o’r staff a ymatebodd i’r arolwg (41 y cant).

**Tabl 6.1 Arolwg staff: Rôl y staff a ymatebodd i'r arolwg**[34]

| Rôl staff | Nifer | Cyfran (%) |
|---|---:|---:|
| Athro/tiwtor/aseswr | 114 | 41 |
| Arweinydd canolradd | 48 | 17 |
| Uwch arweinydd | 32 | 11 |
| Gweithiwr cymorth myfyrwyr | 16 | 6 |
| Cynorthwy-ydd addysgu | 7 | 3 |
| Arall | 43 | 15 |
| Gwell gennyf beidio â dweud | 19 | 7 |

*Sylfaen n= 279; Ffynhonnell: Arolwg staff*


**Safbwyntiau staff: Sut y defnyddiwyd y cyllid adferiad COVID-19 i gefnogi staff**

6.3 Awgrymodd trafodaethau â staff ymwybyddiaeth gyfyngedig o'r cyllid COVID-19 a’r manylion ynghylch sut y cafodd ei ddefnyddio, gyda staff weithiau heb fod yn ymwybodol a oedd un o’r ffrydiau cyllido wedi talu am ddarpariaeth ehangach. Ategir y canfyddiad hwn gan ddata o’r arolwg staff lle’r oedd mwy na chwarter yr

[34] Cwestiwn yr arolwg: ‘Beth yw eich rôl yn y sefydliad?’

ymatebwyr yn ansicr pa gymorth ychwanegol a gynigiwyd i staff o ganlyniad i'r cyllid COVID-19 (28 y cant, n=79) (gweler Ffigur 6.).

**Ffigur 6.1 Arolwg staff: Canfyddiadau staff o sut y defnyddiwyd y Cyllid Adferiad COVID-19 i gefnogi staff**[35]




*Sylfaen n= 279; Ffynhonnell: Arolwg staff; Gallai ymatebwyr ddewis opsiynau lluosog*

6.4 Er gwaethaf anawsterau o ran cysylltu cymorth a oedd newydd ar gael a mesurau ymateb i COVID-19 â'r cyllid, roedd cyfranogwyr y grwpiau ffocws yn gallu trafod y ddarpariaeth a oedd ar gael iddynt hwy eu hunain ac i aelodau staff eraill yn eu sefydliad. Er i staff siarad am amrywiaeth o ddarpariaeth, y themâu mwyaf cyffredin o ran cymorth i staff oedd symud i ddysgu cyfunol, ac iechyd meddwl a lles.

[35] Cwestiwn yr arolwg: 'Sut mae'r cyllid adferiad COVID-19 wedi cael ei ddefnyddio gan eich sefydliad i gefnogi staff?'

6.5 Adroddodd aelodau staff am ystod o gefnogaeth gan sefydliadau i hwyluso symud i ddysgu cyfunol. Roedd hyn yn aml yn cynnwys offer digidol a darparu meddalwedd i sicrhau y gallai dysgu barhau yn ystod y cyfnodau clo. Nododd cyfranogwyr y grwpiau ffocws hefyd fod symud yn gyflym i ddysgu cyfunol, a’r angen am gefnogi dysgwyr i wneud defnydd effeithiol o adnoddau digidol, wedi amlygu bwlch o ran sgiliau digidol aelodau staff. Roedd hyn yn arbennig o wir am y rhai sy'n gweithio yn y byd DOC, lle'r oedd dysgwyr yn tueddu i wynebu mwy o rwystrau i gyrchu dysgu ar-lein. Roedd ehangu dysgu cyfunol yn golygu y bu'n rhaid nid yn unig i sefydliadau prynu offer, ond hefyd cynyddu sgiliau staff. Dywedodd staff fod eu sefydliadau wedi cynnig hyfforddiant ar sut i ddefnyddio llwyfannau digidol yn effeithiol i gyflwyno dysgu cyfunol, ymgysylltu â dysgwyr ar-lein a’u cefnogi i gyrchu'r holl adnoddau yr oedd eu hangen arnynt.

> “Cydnabuwyd mai gwella’n sylweddol ein capasiti e-ddysgu a’n rhwydwaith cyfathrebu oedd ein llwybr i oroesi.” (Cyfranogwr staff mewn GFf, AU)

6.6 Atgyfnerthwyd y canfyddiadau hyn gan yr arolwg staff, lle nodwyd darparu caledwedd a chymorth a hyfforddiant i gyflwyno dysgu cyfunol gan gyfran fawr o aelodau staff fel cymorth a gynigiwyd gan eu sefydliadau o ganlyniad i'r Cyllid Adferiad COVID-19 (51 y cant, n=141 a 41 y cant, n=114 yn y drefn honno).

6.7 Roedd cymorth iechyd meddwl a lles hefyd yn cael ei drafod yn aml mewn grwpiau ffocws a chyfweliadau â staff. Roedd y gefnogaeth hon ar ffurf digwyddiadau cymdeithasol ar-lein dros Microsoft Teams, rheoli straen (e.e., sesiynau myfyrdod ar-lein), cyfeirio at adnoddau allanol, a darparu swyddogion cymorth cyntaf iechyd meddwl. Tynnodd staff sylw hefyd at wiriadau lles mwy rheolaidd gyda rheolwyr llinell fel ffurf allweddol ar gymorth ond nid oeddent yn siŵr a oedd hyn wedi’i gyllido gan y Cyllid Adferiad COVID-19. Amrywiodd amlder y cymorth lles ar draws mathau o leoliadau (yn ogystal â sefydliadau unigol), gyda staff AB a DOC yn adrodd am wirio lles a chyswllt mwy rheolaidd â rheolwyr.

6.8 Cadarnhawyd y canfyddiadau gan yr arolwg staff lle mai 'iechyd meddwl a lles' oedd yr ail fath o gymorth a adroddwyd amlaf, gan gael ei ddewis gan bron i hanner yr ymatebwyr (47 y cant, n=131).

6.9 Mewn cyfweliadau a grwpiau ffocws, yn ogystal â thrafod cymorth penodol i staff, soniodd y cyfranogwyr hefyd am y gwaith y buont yn ymwneud ag ef i gefnogi dysgwyr i ymdrin â dysgu a gollwyd, ac am reoli ymddygiad dysgwyr. Roedd y


themâu hyn yn fwy cyffredin yn hanesion staff chweched dosbarth ac AB ac fel arfer yn gysylltiedig â charfan iau o ddysgwyr. Roeddent hefyd yn gysylltiedig â chanfyddiad bod ymddygiad dysgwyr wedi gwaethygu ers dychwelyd i ddysgu wyneb yn wyneb. Fodd bynnag, nid oedd staff bob amser yn gallu cysylltu'r defnydd o'r Cyllid Adferiad COVID-19 â'r cymorth a gynigiwyd i helpu staff i reoli ymddygiad dysgwyr.

6.10 Adlewyrchwyd ymwybyddiaeth o'r mathau eraill hyn o gymorth yn yr arolwg staff gyda chyfran fechan o ymatebwyr yn dewis tâl am oriau ychwanegol a weithiwyd (14 y cant, n=40) a chymorth wrth reoli ymddygiad dysgwyr (18 y cant, n=50). Er i fwy na chwarter y rhai a ymatebodd i'r arolwg (29 y cant, n=82) ddewis canllawiau ar gefnogi dysgwyr drwy gyfnodau pontio fel maes allweddol lle'r oedd y cyllid wedi'i ddefnyddio, trafodwyd hyn yn llai aml mewn grwpiau ffocws a chyfweliadau â staff. Pan gafodd ei godi mewn grwpiau ffocws staff, canolbwyntiodd y cyfranogwyr ar ddigwyddiadau pontio a gynhaliwyd rhwng gwahanol sefydliadau i gefnogi dysgwyr (gweler 6.20).

**Safbwyntiau staff: Sut y defnyddiwyd y cyllid adferiad COVID-19 i gefnogi dysgwyr**

6.11 Teimlai cyfranogwyr y grwpiau ffocws y gallent drafod a chynnig enghreifftiau o'r cymorth a oedd ar gael ar gyfer dysgwyr yn well nag ar gyfer staff. Roedd y themâu mwyaf cyffredin yn ymwneud ag iechyd meddwl a lles dysgwyr, dysgu cyfunol a dal i fyny; gan ddangos tebygrwydd i'r canfyddiadau o'r grwpiau ffocws staff (gweler 6.4). Yn yr un modd â chymorth i staff, bu diffyg eglurder gan rai cyfweleion/cyfranogwyr grwpiau ffocws ynghylch sut roedd y Cyllid Adferiad COVID-19 wedi cyfrannu'n uniongyrchol at gymorth ehangach. Ategir hyn gan ganfyddiadau'r arolwg staff, lle dywedodd ychydig dros un o bob pump ymatebwr (21 y cant, n=60) eu bod yn ansicr, neu heb fod yn ymwybodol y cynigiwyd unrhyw gymorth cyllido ychwanegol (gweler Ffigur 6.).

**Ffigur 6.2 Arolwg staff: Sut y defnyddiwyd y Cyllid Adferiad COVID-19 i gefnogi dysgwyr**[36]




*Sylfaen n= 279; Ffynhonnell: Arolwg staff; Gallai ymatebwyr ddewis opsiynau lluosog*

6.12 Cyfeiriodd cyfranogwyr y grwpiau ffocws a chyfweleion at ddarpariaeth sefydliadau i roi benthyg offer digidol i ddysgwyr i'w helpu i gyrchu dysgu cyfunol/ar-lein ac adnoddau. Cyfeiriodd cyfweleion/cyfranogwyr yn aml hefyd at fuddsoddiad yn seilwaith digidol eu sefydliad i alluogi dysgu i barhau o bell, er enghraifft, prynu a sefydlu llwyfannau dysgu ar-lein newydd.

6.13 Adlewyrchwyd y canfyddiad hwn yn yr arolwg staff, lle mai'r mathau mwyaf cyffredin o gymorth a nodwyd ar gyfer dysgwyr oedd technoleg/caledwedd i gefnogi dysgu cyfunol (62 y cant, n=173) a chymorth iechyd meddwl a lles (55 y cant, n=153).

6.14 Wrth drafod cymorth iechyd meddwl a lles i ddysgwyr, cynigiodd cyfranogwyr y grwpiau ffocws enghreifftiau megis sesiynau cwnsela ychwanegol neu gymorth bugeiliol estynedig, rhai ohonynt wedi'u darparu gan staff presennol a rhai gan

[36] Cwestiwn yr arolwg: 'Sut mae cyllid adferiad COVID-19 wedi cael ei ddefnyddio gan eich sefydliad i gefnogi dysgwyr?'

arbenigwyr a oedd newydd eu cyflogi. Cyfeiriodd staff hefyd at sesiynau ar-lein i gefnogi lles dysgwyr yn ystod y cyfnodau clo. Er enghraifft, cynhaliodd rhai darparwyr DOC ddigwyddiadau cymdeithasol ar-lein ar gyfer eu dysgwyr, ac roedd gan rai SAB ofod lles dynodedig ar gael i ddysgwyr ar ôl iddynt ddychwelyd i ddysgu wyneb yn wyneb.

6.15 I rai staff, fodd bynnag, parhau â dysgu (er ar-lein) fu'n cefnogi lles dysgwyr fwyaf.

> "Rwy'n meddwl bod y ffaith na ddaeth y cyrsiau i ben [yn dda] gan y byddai hynny wedi golygu i rai pobl gael eu cau allan eto o faes arall o fywyd, nid yn unig [dydych chi] ddim yn gweld unrhyw un, ond nawr dydych chi ddim yn cael parhau â dysgu ychwaith." (Cyfranogwr staff mewn GFf, DOC)

6.16 Thema gyffredin arall a ddaeth i'r amlwg o grwpiau ffocws a chyfweliadau â staff oedd cefnogi dysgwyr i ailgydio yn eu hastudiaethau a dal i fyny â dysgu a gollwyd. Bu ymgysylltu â dysgwyr yn broblem benodol yn ystod y cyfnodau clo pan oedd addysgu'n cael ei gyflwyno o bell. Parhaodd hyn i fod yn her hyd yn oed wrth ddychwelyd i ddysgu wyneb yn wyneb. Amlygwyd ail-ymgysylltu â dysgwyr fel mater o bwys mawr i sefydliadau AU a DOC, a theimlai rhai staff fod hyn wedi arwain at ddychweliad arafach i ddysgu ar ôl iddynt ddychwelyd i ddarpariaeth wyneb yn wyneb.

6.17 Roedd dysgu a gollwyd a gweithgareddau dal i fyny yn bryder i staff ar draws y sector. Dangosir hyn gan ganlyniadau'r arolwg staff, lle dywedodd 41 y cant o ymatebwyr (n=115) fod eu sefydliad yn cefnogi dysgwyr i ddal i fyny. Roedd staff fu'n gweithio gyda dysgwyr i gwblhau cymwysterau, a phontio o fewn neu allan o addysg ôl-16, yn aml yn siarad am weithgareddau dal i fyny o ran addysgu mewn grwpiau bach neu un-i-un yn ogystal â chymorth gyda thechnegau adolygu ac arholiad. Roedd sesiynau dal i fyny fel arfer yn cael eu cyflwyno gan staff a gyflogwyd eisoes gan y sefydliad, a oedd wedyn yn cael eu talu am yr amser ychwanegol.

> "Unwaith y dechreuodd dawelu ychydig, gwahoddwyd y bobl a oedd ymhell ar ei hôl hi gyda'u gwaith i mewn i'r ysgol, wrth gwrs yn gwisgo masgiau ac yn dilyn rheolau diogelwch." (Cyfranogwr staff mewn GFf, AB)

6.18 Roedd DSW yn wahanol am fod dal i fyny i ddysgwyr yn fwy cyffredinol yn ymwneud ag atgyfnerthu cysylltiadau â chyflogwyr a chefnogi dysgwyr i fynd i'r afael â bylchau mewn profiadau dysgu ymarferol. Cymhlethwyd creu cyfleoedd ar gyfer

gweithgareddau dal i fyny ymarferol (neu wedi'u lleoli mewn labordy), boed ar gyfer DSW neu AB, gan y cyfyngiadau COVID-19 parhaus.

6.19 Ymhlith themâu eraill a ddaeth i'r amlwg o drafodaethau gyda staff oedd cymorth i ddysgwyr agored i niwed, megis y rhai mewn caledi ariannol, a dysgwyr fu'n pontio. Bu i gyfranogwyr y grwpiau ffocws drafod cymorth ariannol ar ffurf cronfeydd caledi AU a phecynnau bwyd a anfonwyd adref ar gyfer dysgwyr chweched dosbarth ac AB a fu'n gymwys i gael PYaDd. Adlewyrchwyd y canfyddiadau hyn yn yr arolwg lle adroddodd ychydig dros draean o staff fod eu sefydliad yn cynnig cymorth i ddysgwyr agored i niwed (36 y cant, n=101). Dangosodd dadansoddiad atchwel fod staff a oedd yn ymwybodol o rai mathau o gymorth (h.y., heb ddweud nad oeddent yn ymwybodol o gymorth ariannol) yn fwy tebygol o deimlo yr oedd y cyllid wedi dylanwadu'n gadarnhaol ar eu hyder wrth gefnogi cyrhaeddiad dysgwyr difreintiedig.[37]

6.20 Roedd staff a gymerodd ran mewn grwpiau ffocws hefyd yn dangos ymwybyddiaeth o gymorth i ddysgwyr fu'n pontio, ond dim ond wrth gael eu hysgogi. Bu i staff o adrannau chweched dosbarth drafod sesiynau dal i fyny ychwanegol i gefnogi dysgwyr iau fu'n pontio i'r chweched dosbarth neu i AB yn ystod y pandemig. Cynhaliodd rhai adrannau chweched dosbarth a SAU ddiwrnodau croesawu a chynefino ar-lein i hwyluso pontio. Cyfeiriodd staff hefyd at ddeunyddiau cyfeirio ar-lein i ddysgwyr, canllawiau i staff, digwyddiadau pontio'r haf a sesiynau blasu'r coleg. Soniodd staff SAU am gyngor gyrfaol a chymorth pontio a gynigiwyd i ddysgwyr blwyddyn olaf fu'n symud i gyflogaeth ond roeddent yn ansicr a ddefnyddiwyd y Cyllid Adferiad COVID-19 i gefnogi'r gweithgareddau hyn ai beidio. Mae'r canfyddiadau'n cydweddu ag ymatebion i'r arolwg staff lle dywedodd ychydig o dan chwarter o ymatebwyr fod eu sefydliad yn darparu cymorth i ddysgwyr ar gyfer pontio o fewn addysg ôl-16 (23 y cant, n=64) ac o addysg i gyflogaeth (20 y cant, n= 55).

**Dychwelyd i ddysgu wyneb yn wyneb**

6.21 Amlygodd staff a gymerodd ran mewn grwpiau ffocws fanteision dychwelyd i ddarpariaeth wyneb yn wyneb ar gyfer iechyd meddwl dysgwyr, cydio mewn dysgu


[37] Roedd staff nad oeddent yn ymwybodol o unrhyw fath o gymorth ariannol yn llai tebygol o deimlo bod y cyllid wedi gwella'u hyder wrth gefnogi cyrhaeddiad dysgwyr difreintiedig ($\beta$=-1.01, p=0.05). Casglodd cwestiwn yr arolwg ymatebion ar raddfa o 1-10 lle roedd 1 = cyllid heb gael unrhyw effaith bositif a 10 = cyllid wedi cael effaith hynod o bositif.

a lles cymdeithasol. Yn achos rhai sefydliadau, fel AU ac AB, bu staff yn awyddus i ddychwelyd cyn gynted â phosib, gan nodi bod dysgwyr wedi ymgysylltu llai pan oedd dysgu'n digwydd ar-lein, ac y bu'n anoddach i'w cefnogi. Roedd yr ymateb cadarnhaol hwn i ddychwelyd i ddysgu wyneb yn wyneb hefyd yn amlwg yn yr arolwg staff, lle y teimlai mwy na hanner yr ymatebwyr (59 y cant, n=165) yn bositif am ddychwelyd i ddarpariaeth wyneb yn wyneb (see Ffigur 6.3).

6.22 Er gwaethaf ymateb cadarnhaol cryf i ddychwelyd i ddysgu wyneb yn wyneb, bu consensws cryf bod elfennau o ddarpariaeth gyfunol (sy'n cyfuno dysgu wyneb yn wyneb â gweithgareddau a chynnwys digidol) yn gweithio'n dda ac y dylid eu cadw. Roedd staff, yn enwedig mewn DOC, yn cydnabod y gallai dysgu cyfunol fod o fudd i rai grwpiau o ddysgwyr (yn ogystal â thiwtoriaid), er enghraifft, y rhai a oedd yn ei chael yn anoddach teithio o ganlyniad i anabledd neu gyfrifoldebau gofalu. Nododd staff mewn AU i ddysgwyr werthfawrogi medru cael mynediad at ddarlithoedd wedi'u recordio a deunyddiau dysgu ar-lein, a nododd y rhai mewn AB/chweched dosbarth fod llwyfannau dysgu ar-lein yn gweithio'n dda. Nododd rhai aelodau o staff, yn enwedig mewn AU a DOC fod rhoi'r dewis i ddysgwyr fynychu dosbarthiadau'n rhithwir yn dileu rhywfaint o'r pwysau ariannol o fynd i brifysgol mewn dinas arall a thalu am lety.

> "Bydd rhai cwestiynau difrifol yn cael eu codi ynghylch y model ysgol breswyl o addysg uwch, yn enwedig gyda chyrsiau lle nad oes angen i'r myfyriwr fod yn gorfforol bresennol mewn dinas ymhell i ffwrdd o'i gartref neu ei dref enedigol er mwyn astudio." (Cyfranogwr staff mewn GFf, AU)

**Ffigur 6.3 Arolwg staff: Sut yr oedd staff yn teimlo am ddychwelyd i ddysgu wyneb yn wyneb[38]**





*Sylfaen n= 279; Ffynhonnell: Arolwg staff*

6.23 Er mai prin oedd y drafodaeth mewn grwpiau ffocws a chyfweliadau am y rhesymau yr oedd staff yn teimlo'n hyderus i ddychwelyd i ddysgu wyneb yn wyneb, awgryma canfyddiadau'r arolwg yr oedd staff yn hapus bod sefydliadau wedi cymryd rhagofalon diogelwch COVID-19 digonol (68 y cant, n=119) ac y byddent yn rhoi'r cymorth angenrheidiol iddynt i ddychwelyd (41 y cant, n=72). Roedd canfyddiadau'r arolwg hefyd yn adlewyrchu adborth gan staff ynghylch manteision canfyddedig cyflwyno wyneb yn wyneb i'r rhan fwyaf o ddysgwyr (gweler 6.21), gyda chyfran fawr yn dweud bod addysgu wyneb yn wyneb yn fwy effeithiol na dysgu cyfunol (61 y cant, n=107). At hynny, nododd bron i ddau draean o staff ddymuniad dysgwyr i ddychwelyd i ddysgu wyneb yn wyneb (64 y cant, n=112).

[38] Cwestiwn yr arolwg: 'Sut oeddech chi'n teimlo am ddychwelyd i addysgu wyneb yn wyneb?' Lle mae negyddol iawn = 1-2, ychydig yn negyddol = 3,4, niwtral = 5,6, ychydig yn bositif = 7,8, hynod o bositif = 9,10

**Ffigur 6.4 Arolwg staff: Rhesymau pam yr oedd staff yn teimlo'n bositif am ddychwelyd i ddysgu wyneb yn wyneb**[39]





*Sylfaen n= 175; pawb a oedd yn teimlo'n bositif am ddychwelyd i ddysgu wyneb yn wyneb; Ffynhonnell: Arolwg staff; Gallai ymatebwyr ddewis opsiynau lluosog*

6.24 Pan ofynnwyd yn benodol faint o gefnogaeth y gwnaethant deimlo eu bod yn ei derbyn wrth ddychwelyd i addysgu wyneb yn wyneb, dywedodd mwy na dau draean o staff (68 y cant, n=164) iddynt deimlo eu bod yn cael eu cefnogi gan mwyaf neu i raddau helaeth (gweler Ffigur 6.). Dim ond 7 y cant o staff a adroddodd iddynt deimlo nad oeddent wedi cael eu cefnogi o gwbl (n=16).

[39] I'r rhai a atebodd 6-10 ar y raddfa ymateb ‘Sut oeddech chi’n teimlo am ddychwelyd i addysgu wyneb yn wyneb?’ Bu i gwestiwn dilynol yr arolwg ofyn: ‘pam oeddech chi'n teimlo fel hyn?’

**Ffigur 6.5 Arolwg staff: I ba raddau y teimlai staff iddynt gael eu cefnogi wrth ddychwelyd i ddysgu wyneb yn wyneb**[40]




*Sylfaen n= 279; Ffynhonnell: Arolwg staff*

6.25 Ategir y canfyddiadau hyn gan ddadansoddiad atchwel a ddangosodd fod staff a deimlai fod eu sefydliad yn cynnig cymorth iechyd meddwl a lles i'w gweithwyr yn fwy tebygol o deimlo'n bositif ynghylch dychwelyd i addysgu wyneb yn wyneb.[41]

6.26 Er gwaethaf consensws ymhlith staff bod dychwelyd i ddysgu wyneb yn wyneb yn newid cadarnhaol, cydnabuwyd mewn grwpiau ffocws a chyfweliadau y bu elfennau o weithio gartref megis hyblygrwydd a mwy o allu i gydbwyso gwaith â chyfrifoldebau domestig, y byddent yn gweld eu heisiau. Roedd staff hefyd yn gwerthfawrogi manteision gweithio gartref i'r rhai ag anghenion hygyrchedd a chyfrifoldebau gofalu. At hynny, bu i staff gydnabod bod rhai aelodau o'r gweithlu'n glinigol agored i niwed ac felly'n bryderus ynghylch dychwelyd i'r gweithle.


6.27 Roedd lleiafrif amlwg o ymatebwyr i'r arolwg staff a nododd deimladau cymysg (22 y cant, n=60) neu deimladau negyddol (10 y cant, n=29) ynghylch dychwelyd i ddysgu wyneb yn wyneb (gweler Ffigur 6.). Cyfeiriodd yr ymatebwyr at nifer o resymau, y mwyafrif ohonynt yn ymwneud â rhesymau personol neu bryderon ynghylch eu hiechyd meddwl eu hunain ac iechyd eu dysgwyr (gweler Ffigur 6.6).

---

[40] Cwestiwn yr arolwg: 'I ba raddau y teimloch i chi gael eich cefnogi gan eich sefydliad wrth ddychwelyd i addysgu wyneb yn wyneb; Lle mae 'dim cefnogaeth o gwbl' = 1,2; 'dim llawer o gefnogaeth' = 3,4; 'cymysg' = 5,6; 'cefnogaeth gan mwyaf' = 7,8; 'llawer o gefnogaeth' = 9,10

[41] Roedd staff a deimlai fod eu sefydliad wedi defnyddio'r Cyllid Adferiad COVID-19 i gefnogi iechyd meddwl a lles gweithwyr yn fwy tebygol o deimlo'n bositif am ddychwelyd i addysgu wyneb yn wyneb ($\beta$=0.95, $p$=0.01). Casglodd cwestiwn yr arolwg ymatebion ar raddfa o 1 i 10 lle mae 1 = negyddol iawn a 10 = positif iawn.

**Ffigur 6.6 Arolwg staff: Rhesymau pam yr oedd staff yn teimlo'n negyddol am ddychwelyd i ddysgu wyneb yn wyneb**[42]




*Sylfaen n= 79; Ffynhonnell: Arolwg staff; Gallai ymatebwyr ddewis opsiynau lluosog*

[42] I'r rhai a atebodd 1-5 ar y raddfa ymateb 'Sut oeddech chi'n teimlo am ddychwelyd i addysgu wyneb yn wyneb?' Bu i gwestiwn dilynol yr arolwg ofyn: 'pam oeddech chi'n teimlo fel hyn?'


# 7. Profiadau dysgwyr ôl-16

7.1 Mae'r bennod a ganlyn yn amlinellu profiadau dysgwyr mewn perthynas â chymorth a ddarparwyd gan sefydliadau addysg ôl-16 gan ddefnyddio'r Cyllid Adferiad COVID-19. Mae'r bennod yn archwilio effeithiau astudiaethau dysgwyr COVID-19, eu hanghenion cymorth a chanfyddiadau o'r cymorth a ddarparwyd gan sefydliadau, yn ogystal â'u teimladau ynghylch dychwelyd i addysgu wyneb yn wyneb. Daw'r canfyddiadau o drafodaethau grŵp ffocws a chyfweliadau â dysgwyr yn ogystal â'r arolwg dysgwyr.

**Effeithiau'r pandemig ac anghenion dysgwyr**

7.2 Cafodd y pandemig effaith ar astudiaethau dysgwyr mewn gwahanol ffyrdd. Roedd yr effeithiau a godwyd amlaf mewn grwpiau ffocws a chyfweliadau â dysgwyr yn cynnwys materion gysylltiedig ag iechyd meddwl a lles, anawsterau wrth addasu i ddysgu cyfunol/ar-lein, caledi ariannol, ac effeithiau negyddol ar eu canlyniadau arholiad/cyrhaeddiad. Dewisodd mwy na hanner y rhai a ymatebodd i'r arolwg dysgwyr 'Cefais drafferth gyda dysgu cyfunol/ar-lein' (55 y cant, n=200) ac 'fe achosodd anawsterau llesiant' (50 y cant, n=182), pan ofynnwyd iddynt am effeithiau'r pandemig ar eu hastudiaethau.

**Ffigur 7.1 Arolwg dysgwyr: Effeithiau COVID-19 ar astudiaethau dysgwyr[43]**




*Sylfaen: n=362; Ffynhonnell: Arolwg Dysgwyr; Gallai ymatebwyr ddewis opsiynau lluosog*

7.3 Dywedodd dysgwyr o bob rhan o'r sector ôl-16 iddynt wynebu rhyw lefel o unigedd o ganlyniad i'r cyfnodau clo cenedlaethol, gan effeithio ar eu hyder a'u hunan-barch. At hynny, roedd rhai dysgwyr yn ei chael hi'n heriol cynnal cymhelliant a chyfranogiad ar ôl i addysgu symud ar-lein. Disgrifiwyd ymdeimlad o flinder ac unigedd a ddylanwadodd ar eu gwaith academaidd.


> "Pan oeddwn yn dysgu ar-lein, rwy'n meddwl ei fod wedi bwrw fy hyder. Fe wnaeth fy atal rhag siarad a gofyn cwestiynau." (Dysgwr - cyfranogwr mewn GFf, AU)

Yn ogystal, adroddodd dysgwyr a oedd wedi profi heriau iechyd meddwl cyn y pandemig fod eu hiechyd meddwl wedi gwaethygu yn ystod y cyfnodau clo. Roeddent o'r farn bod hyn yn deillio o unigedd cymdeithasol a mynediad cyfyngedig at wasanaethau yr oeddent yn eu defnyddio.

[43] Cwestiwn yr arolwg: 'Ym mha ffyrdd mae COVID-19 wedi effeithio ar eich astudiaethau?'

7.4 Ategwyd y canfyddiadau hyn gan ganlyniadau o’r arolwg dysgwyr, lle nododd 62 y cant (n=224) o’r ymatebwyr angen am gymorth iechyd meddwl a lles yn ystod y pandemig.

**Ffigur 7.2 Arolwg dysgwyr: Anghenion cymorth dysgwyr[44]**




*Sylfaen: n=362; Ffynhonnell: Arolwg Dysgwyr; Gallai ymatebwyr ddewis opsiynau lluosog*

7.5 Y brif flaenoriaeth i ddysgwyr DOC oedd medru parhau i ddysgu yn ystod y pandemig. Yn ystod grwpiau ffocws, adroddodd dysgwyr DOC fod y cwrs wedi mynd yn bwysicach fyth yn ystod y cyfnodau clo COVID-19 i’r rhai a oedd wedi’u cymell i astudio am resymau datblygu personol, i gymdeithasu, neu i aros yn egnïol. Wrth i sefydliadau symud cyrsiau ar-lein roedd y cymorth digidol a ddarparwyd gan y Cyllid Adferiad COVID-19 yn hanfodol i lawer o ddysgwyr DOC o ran parhau i ddysgu.

7.6 Er i lawer o ddysgwyr chweched dosbarth, AB ac AU a gymerodd ran mewn grwpiau ffocws a chyfweliadau adrodd y buont yn hyderus yn ddigidol cyn y pandemig, nododd yr arolwg dysgwyr i fwyafrif o ymatebwyr (55 y cant) barhau i brofi anhawster wrth symud i ddysgu cyfunol/ar-lein. gweler Ffigur 7.). Tynnodd rhai dysgwyr sylw at y ffaith yr effeithiwyd ar ansawdd eu hastudiaethau ac y byddent

[44] Cwestiwn yr arolwg: ‘Yn ystod y pandemig COVID-19 (hynny yw rhwng mis Mawrth 2020 a mis Gorffennaf 2022), p'un o'r canlynol oedd arnoch chi eu hangen neu eisiau cymorth gyda nhw?'

wedi elwa o adnoddau ar-lein a oedd wedi'u teilwra'n well i anghenion carfannau penodol (h.y., gallai staff fod wedi teilwra’r deunyddiau ar-lein a ailddefnyddiwyd o flynyddoedd blaenorol neu ar draws carfannau gwahanol mewn ffordd well). Ar ben hynny, teimlai rhai o’r dysgwyr yr oedd eu hastudiaethau’n cynnwys elfen ymarferol (fel gwaith labordy ac interniaethau) eu bod wedi colli’r profiad hwnnw, ac na chynigiwyd dewis amgen boddhaol.

7.7 Yn yr un modd, adroddodd rhai dysgwyr DSW y byddent wedi elwa o gael mwy o gymorth dysgu a rhoi dewisiadau amgen pwrpasol ar waith.

> “Er y gallech chi gael cefnogaeth [yn ystod y cyfnod clo] nid oedd yn ddigon o gefnogaeth oherwydd roedd y cyfan dros y cyfrifiadur i gyd. Nid oedd modd dangos unrhyw beth ymarferol i chi.” (Dysgwr - cyfranogwr mewn GFf, DSW)

7.8 Dywedodd dysgwyr AU iddynt brofi trafferthion ariannol o ganlyniad i'r pandemig. Achoswyd hyn yn aml gan gostau uwch yn ymwneud â’u llety (er enghraifft, gorfod symud tŷ neu dalu am lety nas defnyddiwyd yn ystod y tymor), colli incwm o swyddi rhan-amser, ac effeithiau ariannol ehangach ar eu rhieni/teuluoedd, gan gyfyngu ar eu gallu i gynnig cymorth ariannol.

**Ymwybyddiaeth dysgwyr o'r cymorth**


7.9 Dangosodd dysgwyr a gymerodd ran mewn grwpiau ffocws a chyfweliadau ymwybyddiaeth dda o'r cymorth iechyd meddwl a lles, cymorth gyda dysgu cyfunol/ar-lein (fel mynediad at adnoddau ar-lein, dyfeisiau digidol, a chymorth technegol), cymorth academaidd ychwanegol a gweithgareddau dal i fyny, yn ogystal â gwahanol fathau o gymorth ymarferol (e.e., PYaDd estynedig, banciau bwyd, a chymorth ariannol) a ddarparwyd gan eu sefydliadau.

7.10 Roedd dysgwyr yn werthfawrogol o ymdrechion staff sefydliadau a ddarparodd adnoddau dysgu ar-lein yn ystod y cyfnodau clo COVID-19 ac a sicrhaodd eu bod ar gael ar-lein i ddarparu cymorth un-i-un a/neu i gyfeirio pan oedd angen. Esboniodd dysgwyr AU fod staff prifysgolion wedi sicrhau bod y deunyddiau dysgu i gyd ar gael trwy lwyfannau dysgu ar-lein fel Moodle.

> “Roedd y Brifysgol yn dda iawn ac roeddem yn gwybod y gallem siarad ag unrhyw un o’r darlithwyr a gyrru e-bost atynt unrhyw bryd os oedd gennym unrhyw bryderon ac roedd ein holl adnoddau ar gael ar Moodle cyn ac ar ôl seminarau.” (Dysgwr - cyfranogwr mewn GFf, AU)

7.11 Awgryma canlyniadau'r arolwg dysgwyr nad oedd tua un o bob pump ymatebwr (21 y cant, n=75) yn ymwybodol o unrhyw gymorth a ddarparwyd gan eu sefydliad i fynd i'r afael ag effaith negyddol y pandemig. Pan ofynnwyd iddynt pa fath o gymorth a gynigiwyd gan eu sefydliad, yr ymateb a ddewiswyd amlaf oedd 'Mynediad at ddeunyddiau dysgu ar-lein' (63 y cant, n=229). Dilynwyd hyn gan gynnig cymorth iechyd meddwl a lles (38 y cant, n=138), a mynediad at ddyfeisiau digidol (27 y cant, n=96).

**Ffigur 7.3 Arolwg dysgwyr: Cymorth a gynigiwyd gan sefydliadau[45]**




*Sylfaen: n=362; Ffynhonnell: Arolwg Dysgwyr; Gallai ymatebwyr ddewis opsiynau lluosog*

7.12 Dywedodd dysgwyr AU ac AB a gymerodd ran yn y grwpiau ffocws fod sefydliadau (ac yn achos AU, Undebau Myfyrwyr) wedi gwneud ymdrechion i godi ymwybyddiaeth o'r cymorth lles ac iechyd meddwl a gynigiwyd. Gwnaeth SAU ymdrechion hefyd i fonitro lles dysgwyr trwy holiaduron byr yn ystod eu darlithoedd neu seminarau.

---

[45] Cwestiwn yr arolwg: 'Yn ystod y pandemig COVID-19 (hynny yw rhwng mis Mawrth 2020 a mis Gorffennaf 2022), pa un o'r canlynol y gwnaeth eich sefydliad addysg (e.e. ysgol, coleg) gynnig cefnogaeth i chi gyda nhw?'

"Roedden nhw bob amser yn gofyn, roedden nhw bob amser yn gwneud fel codau QR ar ddechrau'r darlithoedd i wirio lles eu myfyrwyr, a oedd yn braf iawn." (Dysgwr - cyfranogwr mewn GFf, AU)

7.13 At hynny, adroddodd dysgwyr DOC y bu i'w tiwtoriaid hyrwyddo mynediad at gwnsleriaid yn weithredol yn ystod eu gwersi trwy gydol y pandemig. Roeddent yn annog eu dysgwyr i gysylltu â nhw os oeddent yn cael pethau'n anodd ac yn cyfeirio at wasanaethau cwnsela a/neu wasanaethau lles eraill.

**Y cymorth a ddefnyddiwyd gan ddysgwyr**

*Sgiliau digidol a dysgu cyfunol/ar-lein*

7.14 Awgryma canfyddiadau'r arolwg dysgwyr mai mynediad at ddeunyddiau dysgu ar-lein oedd y math o gymorth a ddefnyddiwyd amlaf, a adroddwyd gan bron i 90 y cant o ddysgwyr y cynigiwyd y math hwn o gymorth iddynt. Nododd dysgwyr AU fod hyn hefyd yn cynnwys mynediad at y recordiadau o'u darlithoedd a'u seminarau ar-lein. Fel y dangosir yn Nhabl 7.1, er i fwy na chwarter y rhai a ymatebodd i'r arolwg dysgwyr nodi bod eu sefydliad yn darparu mynediad i ddyfeisiau digidol (96 allan o 362), roedd llai na hanner y dysgwyr hyn wedi cael mynediad atynt (44 o 96). Ar yr un pryd, yn ystod y grwpiau ffocws a'r cyfweliadau, pwysleisiodd dysgwyr DOC fod hwn yn gymorth hanfodol i lawer ohonynt.

**Tabl 7.1 Arolwg dysgwyr: Y cymorth a ddefnyddiwyd gan ddysgwyr[46]**

| Math o gymorth | Nifer y dysgwyr a nododd fod y math o gymorth ar gael yn eu sefydliad | Nifer y dysgwyr a ddefnyddiodd y cymorth a oedd ar gael | Cyfran y dysgwyr a ddefnyddiodd y cymorth a oedd ar gael (%) |
|---|---|---|---|
| Mynediad i ddeunyddiau dysgu ar-lein | 229 | 205 | 90% |
| Sesiynau dal i fyny ar ddysgu | 79 | 54 | 68% |
| Cymorth ymarferol, e.e., darparu prydau bwyd, cymorth ariannol) | 51 | 33 | 65% |

[46] Cwestiwn yr arolwg: 'Yn ystod y pandemig COVID-19 (hynny yw rhwng mis Mawrth 2020 a mis Gorffennaf 2022), pa un o'r mathau canlynol o gymorth sefydliadol wnaethoch chi eu defnyddio?'

| Math o gymorth | Nifer y dysgwyr a nododd fod y math o gymorth ar gael yn eu sefydliad | Nifer y dysgwyr a ddefnyddiodd y cymorth a oedd ar gael | Cyfran y dysgwyr a ddefnyddiodd y cymorth a oedd ar gael (%) |
|---|---|---|---|
| Iechyd meddwl a lles | 138 | 77 | 56% |
| Mynediad at ddyfeisiau digidol | 96 | 44 | 46% |
| Cefnogaeth wrth symud rhwng gwahanol lefelau addysg | 29 | 13 | 45% |
| Cyngor gyrfaol | 64 | 27 | 42% |

*Sylfaen: n=362; Ffynhonnell: Arolwg dysgwyr*; *Gallai ymatebwyr ddewis opsiynau lluosog*

7.15 Dywedodd dysgwyr ar draws y sector ôl-16 y cynigiwyd cymorth unigol iddynt pan oeddent yn profi anhawster gyda materion penodol o ran meddalwedd digidol neu hygyrchedd. Roedd y cymorth hwn yn aml ar ffurf sesiynau galw heibio gyda staff cymorth TG neu staff eraill.

**Cymorth academaidd a dal i fyny ychwanegol**

7.16 Yn ogystal â defnyddio adnoddau dysgu cyfunol, cymerodd dysgwyr ran mewn gwahanol fathau o ymyriadau â'r nod o wella'u sgiliau astudio a'u cyrhaeddiad academaidd a/neu i ddal i fyny ar ddysgu a gollwyd.

7.17 Awgryma canfyddiadau o’r arolwg dysgwyr mai’r mathau o gymorth dal i fyny a ddefnyddiwyd amlaf oedd sesiynau addysgu (ar-lein neu wyneb yn wyneb), naill ai mewn grŵp neu un-i-un, dosbarthiadau adolygu, a chymorth gyda dysgu ymarferol.

7.18 Dywedodd rhai dysgwyr AB fod eu sefydliad wedi gweithredu 'diwrnod coleg estynedig' ar ôl dychwelyd i addysgu wyneb yn wyneb. Sesiwn adolygu ddyddiol oedd hon gyda'r bwriad o helpu dysgwyr i ddal i fyny ar ddysgu a gollwyd. Fodd bynnag, mynegodd rhai o’r dysgwyr hefyd eu rhwystredigaeth am nad oeddent yn gallu dewis gwersi neu weithgareddau penodol yn ystod y cyfnod hwn i ddiwallu eu hanghenion neu feysydd o ddiddordeb penodol.

**Cymorth iechyd meddwl a lles**

7.19 Awgrymodd canfyddiadau o’r grwpiau ffocws i ddysgwyr deimlo y cafodd eu hiechyd meddwl a’u lles eu blaenoriaethu gan sefydliadau a chan staff, yn enwedig y rhai

mewn rolau lles. Fodd bynnag, er i gyfran fawr o ddysgwyr (62 y cant, n=224) angen neu eisiau cymorth iechyd meddwl a lles yn ystod y pandemig, dengys canlyniadau o'r arolwg dysgwyr na fu i bron i hanner (44 y cant, n=61) y dysgwyr a allai gyrchu cymorth iechyd meddwl a lles y sefydliad ei ddefnyddio (gweler Tabl 7.).

7.20 Mewn rhai achosion, roedd dysgwyr ag anghenion iechyd meddwl cymhleth eisoes yn defnyddio cymorth a ddarparwyd gan wasanaethau eraill (gan amlaf drwy'r GIG) ac nid oeddent am ddyblygu cymorth. Fodd bynnag, cafwyd adroddiadau hefyd gan rai dysgwyr iddynt deimlo bod yna stigma ynghlwm wrth gyrchu cymorth a ddarparwyd gan eu sefydliad.

> "Gan fy mod i gyda'r holl stwff addysg arbennig, doeddwn i ddim wir yn hoffi teimlo […] yn wahanol. Felly dyna pam wnes i erioed siarad â nhw mewn gwirionedd (gwasanaethau lles ysgolion)." (Dysgwr a gyfwelwyd, chweched dosbarth)

7.21 Dengys canfyddiadau o'r arolwg dysgwyr mai'r mathau o ymyriadau iechyd meddwl a lles a ddefnyddiwyd fwyaf oedd mynediad at adnoddau arbenigol (43 o 69 o ddysgwyr), sesiynau un-i-un gyda staff cymorth (33 o 55 o ddysgwyr), a sesiynau cwnsela (31 o 56 o ddysgwyr) (gweler Tabl 7.). Yn y grwpiau ffocws, adroddodd dysgwyr iddynt ddefnyddio sesiynau lles ar-lein yn ystod y cyfnodau clo am eu bod yn cynnig lle i ddysgwyr gymdeithasu a chymryd rhan mewn gwahanol fathau o weithgareddau lles.

**Tabl 7.2 Arolwg dysgwyr: Cymorth iechyd meddwl a lles a ddefnyddiwyd[47]**

| Math o gymorth | Nifer y dysgwyr y cynigiwyd y cymorth iddynt gan eu sefydliad | Nifer y dysgwyr a ddefnyddiodd y cymorth a gynigiwyd | Cyfran y dysgwyr a ddefnyddiodd y cymorth a gynigiwyd |
|---|---|---|---|
| Mynediad at adnoddau lles/iechyd meddwl | 69 | 43 | 62% |
| Sesiynau un-i-un gyda staff cymorth | 55 | 33 | 60% |
| Sesiynau cwnsela | 56 | 31 | 55% |
| Gweithgareddau lles/iachaol ar-lein | 65 | 34 | 52% |
| Gweithgareddau cymdeithasol, naill ai ar-lein neu wyneb yn wyneb | 23 | 11 | 48% |
| Digwyddiadau lles wyneb yn wyneb | 12 | 4 | 33% |

*Sylfaen: n=138; Ffynhonnell: Arolwg dysgwyr; Gallai ymatebwyr ddewis opsiynau lluosog*

7.22 Dywedodd dysgwyr AB ac AU a gymerodd ran mewn grwpiau ffocws a chyfweliadau iddynt ystyried mai eu tiwtoriaid personol neu 'hyfforddwyr personol' oedd y pwynt cyswllt cyntaf pan oeddent yn profi heriau o ran eu lles a'u hiechyd meddwl. Roedd tiwtoriaid/hyfforddwyr yn eu cyfeirio at adnoddau, gan gynnwys gwasanaethau myfyrwyr neu fathau eraill o gymorth, megis adnoddau ar-lein. Teimlai'r rhai a gyfeiriwyd at wasanaethau myfyrwyr fod y broses atgyfeirio'n cymryd gormod o amser.

7.23 Yn ystod y cyfnodau clo, cyrchodd rhai dysgwyr gymorth cwnsela ar-lein trwy Microsoft Teams neu becynnau meddalwedd tebyg. Er i ddysgwyr werthfawrogi gallu cael mynediad i gymorth, cafodd rhai y modd ar-lein yn heriol, gan y bu'n anoddach agor i fyny a rhannu eu trafferthion ar sgrin. Mewn rhai achosion, gwaethygwyd hyn gan gysylltiad rhyngrwyd gwael neu ddiffyg preifatrwydd yn y cartref.

> “Rwy’n ei chael hi’n anodd siarad â phobl ar Teams […] Pan oeddwn i’n cael sesiynau cwnsela, dyna oedd yr anterth o bobl yn defnyddio’r rhyngrwyd ar gyfer

[47] Cwestiwn yr arolwg: ‘Pa wasanaethau cymorth iechyd meddwl a/neu les wnaethoch chi eu defnyddio?’

y math yna o beth ac ar adegau aeth y signal ar chwâl am ddim rheswm."
(Dysgwr - cyfranogwr mewn GFf, AU)

7.24 Dywedodd dysgwyr AB fod eu sefydliadau'n defnyddio amrywiaeth o ddulliau o ran hysbysebu a phecynnu'r cynnig cymorth iechyd meddwl a lles. Er enghraifft, cynigiwyd cymorth i ddysgwyr trwy ddiwrnodau lles, timau lles, neu hybiau lles.

**Pontio ychwanegol i ddysgwyr a chymorth gyrfaol**

7.25 Awgryma canfyddiadau o'r arolwg dysgwyr mai cymorth pontio a gwasanaethau gyrfaol oedd rhai o'r mathau o gymorth a ddefnyddiwyd leiaf yn ystod y pandemig (gweler Tabl 7.1). Dywedodd dysgwyr fod y math o gymorth oedd ar gael iddynt yn debyg i'r hyn a oedd ar gael cyn y pandemig, gyda diwrnodau agored, ffeiriau gyrfaol, ymweliadau â phrifysgolion a cholegau, sesiynau galw heibio gyda gwasanaethau gyrfaol, etc.

7.26 Er bod y gwasanaethau/gweithgareddau fel cymorth gyrfaol neu ddiwrnodau agored wedi'u haddasu i'w cyflwyno ar-lein, roedd y dysgwyr a ddefnyddiodd y cymorth yn ansicr a oedd y dull cyflwyno bob amser yn effeithiol ar gyfer y math o gymorth a gynigiwyd (er iddynt gydnabod yr angen am newid y modd).

**Cymorth ariannol ac ymarferol**

7.27 Dywedodd dysgwyr a gymerodd ran mewn grwpiau ffocws fod y gwahanol fathau o gymorth ymarferol yr oeddent yn ei ddefnyddio amlaf yn cynnwys banciau bwyd a sefydlwyd ar safle eu coleg neu ysgol, prydau ysgol am ddim ychwanegol a oedd mewn rhai achosion yn cael eu disodli gan daleb neu arian parod yn ystod y cyfnod clo, yn ogystal â chymorth ariannol.

7.28 Tynnodd dysgwyr AU sylw at ehangiad y cymorth ariannol ar ffurf cyllid caledi COVID-19. Roedd hwn ar gael i'r holl ddysgwyr yr oedd angen cymorth ariannol arnynt (gweler 5.39). Roedd llawer o ddysgwyr yn gwerthfawrogi'r cymorth a'u helpodd i dalu costau uwch mewn perthynas â'u llety neu gludiadau bwyd.


**Safbwyntiau dysgwyr ar effaith y cymorth**

7.29 Dengys data o'r arolwg dysgwyr i 70 y cant o ddysgwyr (n=196) deimlo y cawsant eu cefnogi i gyrchu deunyddiau dysgu ar-lein, teimlai mwy na hanner (55 y cant, n=131) yr ymatebwyr iddynt gael eu cefnogi i gyrchu dyfeisiau digidol, a theimlai 40 y cant (n=111) iddynt gael eu cefnogi wrth gyrchu cymorth iechyd meddwl a lles (gweler Ffigur 7.4).

7.30 Mewn cyferbyniad, y meysydd lle teimlai dysgwyr y cawsant eu cefnogi leiaf oedd wrth bontio rhwng gwahanol lefelau addysg, gyda chyngor gyrfaol a chymorth ymarferol (adroddodd llai na thraean yr ymatebwyr iddynt deimlo y cawsant eu cefnogi yn y meysydd hyn). Yn ystod y grwpiau ffocws a'r cyfweliadau, bu i ddysgwyr ar draws adrannau chweched dosbarth, AB ac AU adleisio'r canfyddiad hwn, gan adrodd nad oeddent yn teimlo iddynt gael eu cefnogi ddigon wrth bontio rhwng lefelau a/neu ddarparwyr.

> "Roedd yn anodd iawn oherwydd roeddwn i'n fyfyriwr blwyddyn un ac yn gorfod pontio o Safon Uwch i'r brifysgol a doeddwn i ddim yn deall sut i wneud prifysgol […] Roedd y Brifysgol ond yn darparu'r hyn y byddai'r rhyngrwyd yn ei ddarparu." (Dysgwr - cyfranogwr mewn GFf, AU)

**Ffigur 7.4 Arolwg dysgwyr: I ba raddau y teimlai dysgwyr y cawsant eu cefnogi ar draws gwahanol fathau o gymorth[48]**




*Ffynhonnell: Arolwg dysgwyr*

**Sgiliau digidol a gwell seilwaith ar gyfer dysgu cyfunol**


7.31 Yn ystod y grwpiau ffocws, adroddodd rhai dysgwyr AU a DOC aeddfed eu bod wedi gwella eu sgiliau digidol yn ystod y pandemig. Roeddent o'r farn i hyn ddeillio'n uniongyrchol i orfod addasu i ddysgu ar-lein. Fodd bynnag, roedd dysgwyr eraill, yn bennaf y rhai o adrannau chweched dosbarth a lleoliadau AB, eisoes yn teimlo'n hyderus yn ddigidol.

[48] Gofynnodd yr arolwg am ymatebion ar raddfa o 1 (negyddol iawn) i 10 (positif iawn). Grwpiwyd yr ymatebion hyn fel a ganlyn: Dim cefnogaeth o gwbl = 1-2, Dim llawer o gefnogaeth = 3-4, Niwtral/ cymysg = 5-6, Rhywfaint o gefnogaeth = 7-8, Llawer o gefnogaeth = 9-10. Talgrynnwyd y canrannau a ddangosir yn y ffigur i'r cyfanrif agosaf.

7.32 Er ei fod yn anodd nodi effaith y cymorth ar hyder digidol dysgwyr, am fod llawer yn teimlo'n hyderus yn ddigidol cyn i'r cymorth ychwanegol gael ei ddarparu, dywedodd dysgwyr ar draws y sector fod y seilwaith digidol yn eu sefydliadau wedi gwella'n amlwg ers dechrau'r pandemig.

> "Nawr bod gennym ni'r seilwaith ar-lein, rydyn ni'n llawer mwy cyfarwydd ag e. Rydyn ni'n gwybod beth sy'n mynd i ddigwydd, beth i'w ddisgwyl […] Nawr gallwn ni ddefnyddio adnoddau ar-lein os na allwn ni fynd i mewn yn gorfforol." (Dysgwr - cyfranogwr mewn GFf, AB)

**Ffigur 7.5 Arolwg dysgwyr: Hyder wrth ddefnyddio offer digidol ar gyfer dysgu cyfunol/ar-lein**[49]




*Sylfaen: n=362; Ffynhonnell: Arolwg dysgwyr*

7.33 Teimlai mwy na hanner y rhai a ymatebodd i'r arolwg dysgwyr (57 y cant, n=207) yn hyderus wrth ddefnyddio offer digidol ar gyfer dysgu cyfunol/ar-lein. Adroddodd tua chwarter yr ymatebwyr ddiffyg hyder yn eu sgiliau digidol.

**Hyder dysgwyr**


7.34 Yn ystod y grwpiau ffocws, adroddodd dysgwyr y buont yn gallu dechrau ailadeiladu eu hyder ar ôl iddynt ddychwelyd i ddysgu wyneb yn wyneb a derbyn cymorth academaidd ychwanegol. Roedd dychwelyd i ddysgu wyneb yn wyneb hefyd yn eu helpu i deimlo'n llai pryderus am eu perfformiad academaidd a'u canlyniadau.

[49] Gofynnodd yr arolwg am ymatebion ar raddfa o 1 (ddim yn hyderus o gwbl) i 10 (hyderus iawn). Grwpiwyd yr ymatebion fel a ganlyn: Ddim yn hyderus o gwbl = 1-2, Ddim yn hyderus iawn = 3-4, Niwtral/cymysg = 5-6, Eithaf hyderus = 7-8, Hyderus iawn = 9-10.

Adroddodd y rhai ar gyrsiau galwedigaethol neu ag elfen ymarferol fawr (gan gynnwys DSW) iddynt deimlo'n fwy hyderus ar ôl i'w sesiynau ymarferol/labordy ailgychwyn.

7.35 Nododd tua hanner y rhai a ymatebodd i'r arolwg dysgwyr (50 y cant, n=148) iddynt deimlo bod y cymorth a ddarparwyd gan sefydliadau yn eu helpu i deimlo'n fwy hyderus yn eu hastudiaethau (gweler Ffigur 7.).

**Ffigur 7.6 Arolwg dysgwyr: A oedd cymorth academaidd a dal i fyny wedi gwella hyder dysgwyr yn eu hastudiaethau**[50]




*Sylfaen: n=293; Ffynhonnell: Arolwg dysgwyr*

**Iechyd meddwl a lles**


7.36 Nododd yr arolwg dysgwyr i fwy na hanner y dysgwyr (57 y cant, n=75) deimlo bod y cymorth wedi helpu i wella eu hiechyd meddwl a'u lles a dim ond 11 y cant (n=12) a ddywedodd nad oedd y cymorth yn help o gwbl.

7.37 Atgyfnerthodd dadansoddiad atchwel o ddata'r arolwg dysgwyr y canfyddiad hwn, gan nodi y bu rhai mathau o gymorth lles ac iechyd meddwl yn arbennig o effeithiol wrth helpu lles dysgwyr. Dangosodd y model fod dysgwyr yr oeddent wedi defnyddio gwasanaethau cwnsela yn fwy tebygol o lawer o roi gwybod am effaith gadarnhaol ar eu lles (roedd hyn yn cyfateb i gynnydd o 1.12 ar raddfa'r arolwg o

[50] Gofynnodd yr arolwg am ymatebion ar raddfa o 1 (ddim yn ddefnyddiol o gwbl) i 10 (defnyddiol iawn). Grwpiwyd yr ymatebion fel a ganlyn: Ddim yn ddefnyddiol o gwbl = 1-2, Ddim yn ddefnyddiol iawn = 3-4, Niwtral/cymysg = 5-6, Eithaf defnyddiol = 7-8, Defnyddiol iawn = 9-10.

1=defnyddiol iawn i 10=ddim yn ddefnyddiol o gwbl, $p=0.05$). Er yr ymddengys mai gwasanaethau cwnsela a gafodd yr effaith fwyaf ar hunan-adroddiadau dysgwyr am les, roedd cyrchu adnoddau lles ac iechyd meddwl hefyd yn dangos effaith gadarnhaol ($\beta=0.89$, $p=0.05$).

**Ffigur 7.7 Arolwg dysgwyr: A oedd y cymorth wedi helpu dysgwyr gyda'u hiechyd meddwl a'u lles[51]**




*Sylfaen: n=114; Ffynhonnell: Arolwg dysgwyr*

7.38 Dangosodd data ansoddol o grwpiau ffocws a chyfweliadau â dysgwyr effaith gadarnhaol ganfyddedig y cymorth ar les dysgwyr hefyd. Er enghraifft, disgrifiodd dysgwyr effaith gadarnhaol yr hybiau lles a sefydlwyd ar draws rhai sefydliadau AB.

> "Rhywbeth sydd wedi fy helpu'n fawr yw'r 'hyb lles' sydd yn y bôn yn ardal dawel braf […] lle gallwch chi ymlacio. Mae syth drws nesaf i swyddfa'r tîm diogelu felly os oes angen i chi siarad ag unrhyw un maen nhw yno. Mae'r tîm diogelu yn anhygoel hefyd. Maen nhw'n gwrando arnoch chi gydag unrhyw beth y mae angen i chi siarad amdano." (Dysgwr - cyfranogwr mewn GFf, AB)


**Dychwelyd i addysgu wyneb yn wyneb**

7.39 Dywedodd bron i draean o'r rhai a ymatebodd i'r arolwg dysgwyr (31 y cant, n=112) iddynt deimlo'n 'bositif iawn' gydag un o bob pump pellach (19 y cant, n=68) yn teimlo'n 'eithaf positif' am ddychwelyd i addysgu wyneb yn wyneb. Fodd bynnag, roedd gan nifer sylweddol o ddysgwyr, tua thraean (32 y cant, n=115), deimladau

[51] Gofynnodd yr arolwg am ymatebion ar raddfa o 1 (ddim yn ddefnyddiol o gwbl) i 10 (defnyddiol iawn). Grwpiwyd yr ymatebion fel a ganlyn: Ddim yn ddefnyddiol o gwbl = 1-2, Ddim yn ddefnyddiol iawn = 3-4, Niwtral/cymysg = 5-6, Eithaf defnyddiol = 7-8, Defnyddiol iawn = 9-10.

cymysg am ddychwelyd i'r ystafell ddosbarth (gweler **Error! Reference source not found.**).

**Ffigur 7.8 Arolwg dysgwyr: Sut oedd dysgwyr yn teimlo am ddychwelyd i addysgu wyneb yn wyneb**[52]




*Sylfaen: n=362; Ffynhonnell: Arolwg dysgwyr*


7.40 Roedd dysgwyr AU yn arbennig o bositif ynghylch dychwelyd i ddysgu wyneb yn wyneb, o gymharu â rhannau eraill o'r sector ôl-16, gan adlewyrchu efallai cyfnodau hwy o ddysgu cyfunol dros gyfnod y pandemig. Yn wir, esboniodd dysgwyr AU a gymerodd ran yn y grwpiau ffocws a chyfweliadau iddynt deimlo'n rhwystredig ynghylch y ddibyniaeth barhaus ar ddysgu ar-lein, pan oeddent wedi talu ffioedd dysgu am gwrs wyneb yn wyneb. Gwnaethant bwysleisio na fu'n bosib iddynt brofi 'bywyd prifysgol' yn ystod y cyfnod COVID-19, gan gynnwys profiadau dysgu wyneb yn wyneb, bywyd ar y campws a chymdeithasu â chymheiriaid.

> "Doeddwn i ddim yn gallu aros [am ddychwelyd i ddysgu wyneb yn wyneb] ond roeddwn i braidd yn nerfus. Roeddwn wedi cael llond bol o eistedd yn fy nhŷ, fel fy mod yn talu i fynd i'r brifysgol a dwi jyst yn eistedd yn fy nhŷ ar sgrin y gliniadur." (Dysgwr - cyfranogwr mewn GFf, AU)

[52] Gofynnodd yr arolwg am ymatebion ar raddfa o 1 (negyddol iawn) i 10 (positif iawn). Grwpiwyd yr ymatebion fel a ganlyn: Negyddol iawn = 1-2, Eithaf negyddol = 3-4, Niwtral/ cymysg = 5-6, Eithaf positif = 7-8, Positif iawn = 9-10.

7.41 Pan ofynnwyd i ddysgwyr pam eu bod yn teimlo’n bositif ynghylch dychwelyd i ddysgu wyneb yn wyneb, dywedodd dros ddau draean (69 y cant, n=141) o’r ymatebwyr fod yn well ganddynt ddarpariaeth wyneb yn wyneb. I ychydig dros hanner yr ymatebwyr (56 y cant, n=115) roedd addysgu wyneb yn wyneb yn fwy effeithiol na dysgu cyfunol/ar-lein, a dywedodd 44 y cant (n=90) fod yn well ganddynt ddysgu gyda phobl eraill. Amlygwyd yr agwedd gymdeithasol hon ar addysgu wyneb yn wyneb yn ystod trafodaethau grŵp ffocws gyda dysgwyr, a roddodd gryn werth ar allu dysgu gyda chymheiriaid.

**Ffigur 7.9 Arolwg dysgwyr: Rhesymau pam yr oedd dysgwyr yn teimlo'n bositif am ddychwelyd i addysgu wyneb yn wyneb**[53]




*Sylfaen: n=204; Ffynhonnell: Arolwg dysgwyr; Gallai ymatebwyr ddewis opsiynau lluosog*


7.42 Er i ddysgwyr adrodd am effaith negyddol y cyfnodau clo ar eu hiechyd meddwl a'u lles, roedd nifer sylweddol o ddysgwyr hefyd yn poeni am sut y gallai dychwelyd i addysgu wyneb yn wyneb effeithio ar eu lles. Pan ofynnwyd i ddysgwyr a oedd â theimladau cymysg neu negyddol am ddychwelyd i addysgu wyneb yn wyneb am eu rhesymau, y pryderon a adroddwyd amlaf oedd bod ar ei hôl hi gyda dysgu (49 y

[53] Dysgwyr a ddewisodd 6 i 10 ar raddfa 1 i 10 pan ofynnwyd iddynt sut yr oeddent yn teimlo am ddychwelyd i addysgu personol.

cant, n=72), ac iechyd meddwl a lles (48 y cant, n=71). Mynegodd lleiafrif mawr o ymatebwyr (44 y cant, n=64) fod yn well ganddynt ddysgu gartref (gweler Ffigur 7.).

7.43 Nododd dysgwyr sy'n wynebu rhwystrau i ddysgu wyneb yn wyneb fel y rhai â chyfrifoldebau gofalu, dysgwyr ag anableddau, neu'r rhai sy'n byw mewn ardaloedd gwledig fod yn well ganddynt ddysgu o bell neu ddysgu cyfunol yn ystod grwpiau ffocws a chyfweliadau. Awgrymodd y dysgwyr hyn y dylai sefydliadau addysg barhau neu hyd yn oed ehangu eu harlwy dysgu o bell i wneud dysgu'n fwy hygyrch.

**Ffigur 7.10 Arolwg dysgwyr: Rhesymau pam yr oedd dysgwyr yn teimlo'n negyddol am ddychwelyd i ddysgu wyneb yn wyneb**




*Sylfaen: n=215, dysgwyr a oedd yn teimlo'n negyddol am ddychwelyd i addysgu wyneb yn wyneb; Ffynhonnell: Arolwg dysgwyr; Gallai ymatebwyr ddewis opsiynau lluosog*

## 8. Dysgu a chynaladwyedd arferion newydd

8.1 Mae’r bennod hon yn amlinellu dysgu allweddol a chynaladwyedd arferion newydd a fabwysiadwyd yn ystod y pandemig, yn enwedig o ran cynllunio a gweinyddu'r Cyllid Adferiad COVID-19. Mae hefyd yn trafod yr heriau a wynebir gan sefydliadau a staff wrth ddefnyddio'r cyllid yn ogystal ag anghenion cymorth parhaus dysgwyr.

**Dysgu allweddol o gynllunio, sefydlu a gweithredu**

8.2 Un o'r llwyddiannau a adroddwyd amlaf am ddull y Cyllid Adferiad COVID-19 oedd gweithio ar y cyd â Llywodraeth Cymru a rhwng sefydliadau unigol. Adroddodd arweinwyr sefydliadau fod y gefnogaeth gan Lywodraeth Cymru wedi creu dull cydweithredol cryf o ddechrau’r pandemig, gyda sefydliadau’n cael eu hannog i weithio ar y cyd. Roedd hyn yn aml ar ffurf rhannu arfer gorau ynghylch sut i ddefnyddio’r cyllid, a/neu gyngor ar ba offer digidol i’w defnyddio. Amlygodd arweinwyr sefydliadau hefyd fanteision cydweithio rhwng sefydliadau i gefnogi pontio myfyrwyr. Arweiniodd hyn at broses o rannu dysgu ar draws sefydliadau sydd wedi parhau y tu hwnt i’r pandemig.

> “I ni roedd y rhan fwyaf yn ymwneud â rhannu arfer da a rhannu syniadau. Dyna oedd y manteision mwyaf i ni. Rydym wedi ymwneud ag ysgolion i ryw raddau. Er enghraifft, gofynnodd un o’n hysgolion partner i ni gymryd rhan wrth ddarparu dysgu ar-lein i'r bobl ifanc yn eu blwyddyn 11 y byddent yn ymuno â ni.”(Arweinydd lleoliad, SAB)

8.3 Oherwydd y dull cydweithredol cryf hwn roedd sefydliadau'n gallu datblygu perthynas dda â’i gilydd a gyda Llywodraeth Cymru. Bu i hyn eu grymuso i wneud penderfyniadau a sicrhau yr oedd strwythurau ar waith i'w helpu i addasu ac ymdrin yn hyblyg â materion yn y dyfodol. Roedd arweinwyr sefydliadau’n aml yn trafod cael un cyswllt allweddol o fewn Llywodraeth Cymru y gallent gysylltu â nhw fel y bo angen am gymorth, i ateb ymholiadau neu i egluro canllawiau. Nodwyd y bu llai o ganllawiau gwariant gyda'r gyfran gyntaf o gyllid nag yn ddiweddarach yn y pandemig. Bu i uwch randdeiliaid gysylltu hyn â’r angen am ddosbarthu cyllid yn gyflym wrth ymateb i’r argyfwng (gweler hefyd 5.9).

8.4 Adroddwyd enghreifftiau o bartneriaethau parhaol rhwng sefydliadau yn rheolaidd gan staff ac arweinwyr sefydliadau. Datblygodd y rhain yn ystod y pandemig, ac maent yn cynnwys partneriaethau rhwng colegau AB lleol, rhwng colegau AB a

SAU, a rhwng colegau AB ac adrannau chweched dosbarth ysgolion. Mewn un bartneriaeth o'r fath, bu i arweinwyr sefydliadau goladu dogfen arfer gorau i'w rhannu â cholegau eraill a fu'n canolbwyntio'n benodol ar ymgysylltu â chyflogwyr a gweithwyr proffesiynol i roi sgyrsiau ar-lein i ddysgwyr yn ystod y cyfnodau clo.

8.5 Yn aml, aeth cyfarfodydd wyneb yn wyneb tymhorol yn rhai wythnosol neu fisol rhithwir. Parhaodd y cyfarfodydd o bell hyn y tu hwnt i'r pandemig ac maent wedi bod yn fodd i sefydlu perthnasoedd gwaith cadarnhaol rhwng sefydliadau a gyda sefydliadau eraill, megis undebau athrawon neu gynghorau sir.

> "Rydym yn cwrdd â'r undebau bob wythnos. Mae'r...agenda partneriaeth gymdeithasol hwnnw wedi bod yn wyrth o ran y berthynas â'r undebau gan nad oedd yn dda iawn o'r blaen a nawr, mae'n dda." (Arweinydd sefydliad, SAB)

8.6 Yn yr un modd, adroddodd arweinwyr SAU am feithrin perthnasoedd cryfach gyda CCAUC, a nododd arweinwyr adrannau chweched dosbarth ysgolion gydweithio cryfach rhwng grwpiau o ysgolion lleol. Er enghraifft, cyfarfu ysgolion yng nghanolbarth Cymru fwy neu lai unwaith yr wythnos drwy gydol y pandemig i rannu adnoddau addysgu a dysgu ac arfer gorau.

**Heriau o ran cynllunio a sefydlu**

8.7 Er i arweinwyr sefydliadau gydnabod yr angen am gyllido'n gyflym ac yn ymatebol yn wyneb digwyddiad mor ddigynsail â'r pandemig, teimlai rhai y byddai wedi bod yn fuddiol i Lywodraeth Cymru ymrwymo i gyllid tymor hwy hefyd. Byddai ymrwymiad cyllido tymor hwy yn cynnig sicrwydd ariannol ac yn galluogi lleoliadau i ymwreiddio'n llawn y dulliau gweithio newydd a hwyluswyd gan y Cyllid Adferiad COVID-19. At hynny, er i arweinwyr sefydliadau werthfawrogi hyblygrwydd ac annibyniaeth wrth ddefnyddio'r cyllid gan Lywodraeth Cymru, teimlai rhai y byddent wedi elwa o gael rhagor o ganllawiau a/neu gymorth wrth wneud penderfyniadau. Adroddodd rhai nad oedd y cyllid wedi'i roi ar waith mewn ffordd a oedd yn hwyluso ymagwedd gynaliadwy at yr argyfwng ac roeddent yn teimlo y gallai sefydliadau elwa o ddod at ei gilydd i gydweithio er mwyn taclo deilliannau tymor hwy y pandemig.

8.8 Nododd rhai arweinwyr lleoliadau SAU, DSW a DOC eu pryderon nad oedd digon o ystyriaeth wedi'i rhoi i ymgysylltu â chyflogwyr wrth ddyrannu'r cyllid. Galwodd yr arweinwyr sefydliadau hyn ar Lywodraeth Cymru i gefnogi cydweithio gwell yn y

dyfodol, gan gynnwys cymhellion i gyflogwyr ailgydio mewn gwaith ymgysylltu â sefydliadau addysg.

8.9 I arweinwyr adrannau chweched dosbarth, roedd y cyllid a fu'n canolbwyntio'n benodol ar ddysgwyr ôl-16 yn help wrth sicrhau bod adrannau chweched dosbarth yn derbyn y sylw ariannol yr oedd arnynt ei angen yn ystod y pandemig. Roedd rhai bellach yn poeni y byddai dileu'r cyllid hwn yn gwrthdroi rhywfaint o'r cynnydd yr oeddent wedi llwyddo i'w wneud, yn enwedig wrth i ysgolion barhau i wynebu heriau gyda chyllidebau.

**Arfer gorau**

8.10 Pan ofynnwyd iddynt ystyried enghreifftiau o arfer gorau, gwnaeth arweinwyr sefydliadau sylwadau cyson ynghylch y rhwydweithiau, y gwaith ar y cyd a'r partneriaethau a ddeilliodd o'r pandemig. Fel y trafodwyd uchod, gwelodd arweinwyr sefydliadau gydweithio ag arweinwyr lleoliadau eraill fel hwylusydd allweddol a fu'n eu galluogi i gefnogi eu sefydliadau'n dda yn ystod y pandemig. Thema gyffredin oedd sefydlu partneriaethau rhwng arweinwyr lleoliadau o fewn yr un math o leoliad, lle y bu iddynt sefydlu cyfarfodydd rheolaidd i drafod sut yr oeddent yn gwario'r cyllid, adnoddau a ddefnyddiwyd i gefnogi dysgu cyfunol a syniadau ac awgrymiadau eraill. Er enghraifft, dywedodd un arweinydd coleg fod ei bartneriaeth â cholegau lleol eraill yn hanfodol i roi syniadau datblygu staff ar waith er mwyn helpu i gefnogi eu staff yn ystod y pandemig, ac amlygodd arweinydd AU sut y mae eu cyfathrebiadau mwy sefydledig ag arweinwyr prifysgolion eraill wedi rhoi hyder iddynt o ran eu gallu i ateb her argyfwng posib yn y dyfodol. Roedd gweithio o bell yn ei gwneud hi'n haws o lawer i arweinwyr lleoliadau gwrdd yn rheolaidd a rhoi sianeli cyfathrebu effeithiol ar waith, yr oeddent yn allweddol i sefydlu'r partneriaethau hyn. Bu i rai partneriaethau alluogi dysgwyr ar draws yr holl sefydliadau dan sylw i elwa o gronfa a rennir o adnoddau. Er enghraifft, rhannodd un bartneriaeth o golegau rwydwaith iechyd meddwl a lles:

> "Rydyn ni'n gweithio'n agos iawn gydag un coleg, er enghraifft, ar iechyd meddwl a lles, ond yn benodol yn [rhanbarth] Cymru, mae'r pum coleg yn y [rhanbarth] yn cwrdd yn rheolaidd iawn i rannu gyda'n gilydd yn y bôn […] yr hyn yr oeddem yn defnyddio'r cyllid ar ei gyfer, felly mae hynny wedi bod yn werthfawr tu hwnt, wedyn mewn gwirionedd codi syniadau gan gydweithwyr

ac yn yr un modd, rhannu syniadau â nhw, i sicrhau ein bod ni'n manteisio i'r eithaf ar y gronfa hon er budd y dysgwyr.” (Arweinydd sefydliad, AB)

8.11 At hynny, bu i arweinwyr sefydliadau drafod manteision rhwydweithiau a phartneriaethau eraill a sefydlwyd gyda chyflogwyr, undebau a chynghorau lleol, y maent yn parhau i elwa o lawer ohonynt. Gweithiodd colegau gyda chyflogwyr i drefnu siaradwyr gwadd i gyflwyno sgyrsiau ar-lein ar draws rhwydwaith y colegau. Roedd rhai sefydliadau'n gallu creu partneriaeth â chanolfannau gwaith lleol, a ffurfiodd rhai bartneriaethau ag asiantaethau gwirfoddoli lleol y gallent gyfeirio dysgwyr atynt ar sail fwy anffurfiol. Bu i arweinwyr AU ac AB drafod sefydlu partneriaethau gwell ag ysgolion lleol er mwyn gwneud gweithgareddau pontio fel ymweliadau campws, lle y gallai dysgwyr gwrdd â staff addysgu, yn haws o lawer.

8.12 Sefydlwyd partneriaethau cryfach gyda chynghorau lleol hefyd o ganlyniad i’r angen am ddiweddariadau iechyd cyhoeddus rheolaidd yn ystod y pandemig. Mae'r rhain bellach yn hwyluso pethau fel gwaith ar y cyd â chanolfannau gwaith lleol a gwasanaethau eraill y cyngor. Soniodd un arweinydd lleoliad am Grŵp Adferiad Covid a fu'n cynnwys cynrychiolwyr o Lywodraeth Cymru, o'u coleg ac o undebau llafur lleol fel enghraifft dda o Bartneriaeth Gymdeithasol ar waith.

8.13 Bu consensws cryf ymhlith rhanddeiliaid sefydliadol bod y Cyllid Adferiad COVID-19 ychwanegol wedi galluogi sefydliadau i barhau i ddarparu dysgu trwy gydol y pandemig. Er i arweinwyr lleoliadau nodi meysydd i’w gwella, fe wnaethant hefyd adrodd yn ôl y buasai’r sefyllfa'n anghynaladwy heb y cyllid. Yr hyn a fu'n hollbwysig yw y gwnaeth alluogi sefydliadau i fuddsoddi yn eu seilwaith digidol mewn ffordd a sicrhaodd fod dysgu'n bosib o hyd.

8.14 Nid yn unig yr oedd y cyllid hwn yn hanfodol i alluogi dysgu i barhau ar-lein, mewn llawer o achosion fe wnaeth hefyd gyflymu cynlluniau ar gyfer darpariaeth ddigidol bellach. Roedd sefydliadau’n gallu buddsoddi mewn llwyfannau digidol newydd i gynnig mynediad haws at ddysgu i staff a dysgwyr fel ei gilydd. Roedd sefydliadau/darparwyr hefyd yn gallu darparu offer digidol i fwy o ddysgwyr, fel gliniaduron a donglau Wi-Fi. Roedd hyn yn arbennig o bwysig i'r sector DOC, lle y bu llai o gyfle i fuddsoddi mewn dysgu digidol yn y gorffennol. Roedd y cyllid hefyd yn cefnogi SAB, SAU ac ysgolion i ddatblygu unrhyw gynlluniau i wella eu darpariaeth ddigidol o dan gyllid Digidol 2030.

“Pe na bai’r cyllid gennym fe fyddai wedi cymryd 2-3 blynedd i ni gyrraedd lle’r ydym ni o ran digidol.” (Arweinydd sefydliad, SAU)

**Ymdrin ag anghenion cymorth parhaus**

8.15 Mae’r aflonyddwch parhaus ar ddysgu a grëwyd gan y pandemig yn parhau i fod yn her i sefydliadau. Bu i'r cyllid a ddarparwyd yn ystod y pandemig ac yn gynnar yn y cyfnod adfer alluogi nhw i dalu costau ychwanegol anghenion dysgwyr. Fodd bynnag, mynegodd arweinwyr sefydliadau bryder y bydd anghenion cymorth ychwanegol yn parhau y tu hwnt i'r cyfnod cyllido, gan greu bwlch anghenion.

8.16 At hynny, dywedodd rhai arweinwyr sefydliadau fod yna gostau parhaus ynghlwm wrth wasanaethau y talwyd amdanynt gan ddefnyddio'r Cyllid Adferiad COVID-19 ychwanegol. Mae hyn yn cynnwys staff cymorth iechyd meddwl a lles ychwanegol a chostau ychwanegol cynnal a diweddaru offer a seilwaith digidol. Yn yr un modd, amlygodd staff yr angen parhaus am weithgareddau dal i fyny ar ddysgu wrth i ddysgwyr symud drwy'r system addysg gyda bylchau yn eu dysgu o ganlyniad i'r pandemig. Amlygodd arweinwyr sefydliadau yn y sector DOC yr angen am gyllid parhaus i gynnal y seilwaith digidol a roddwyd ar waith yn ystod y pandemig.


8.17 Codwyd pryderon ynghylch ymddygiad ac ymgysylltiad dysgwyr yn aml mewn trafodaethau â staff ac arweinwyr sefydliadau. Nododd staff bryderon parhaus ynghylch gallu dysgwyr i ganolbwyntio ac ymgysylltu yn y dosbarth, gwydnwch gwael pan gynigwyd beirniadaeth adeiladol iddynt ac ymddygiad yn yr ystafell ddosbarth. Roedd yr holl faterion hyn yn arbennig o gyffredin ymhlith dysgwyr iau, ac felly, mewn adrannau chweched dosbarth ac AB.

8.18 Amlygodd rhai staff hefyd yr anawsterau yr oedd dysgwyr yn eu profi wrth gymdeithasu â’i gilydd, a oedd yn eu barn hwy yn gwaethygu problemau ymddygiad yn yr ystafell ddosbarth. O ganlyniad i hyn bu'n rhaid i staff dreulio mwy o amser addysgu yn atgyfnerthu disgwyliadau ymddygiadol, ac (ail)adeiladu sgiliau astudio dysgwyr. Ystyriwyd bod hyn yn rhoi pwysau ar lwythi gwaith staff (a oedd eisoes o dan bwysau).

8.19 Yn yr un modd, adroddwyd pryderon am ymgysylltu â dysgwyr (60 y cant, n=168), absenoldeb (51 y cant, n=142) ac ymddygiad (46 y cant, n=128) i gyd yn aml gan staff a ymatebodd i’r arolwg. Adroddwyd yn gyffredin hefyd bod angen mwy o gymorth dal i fyny (41 y cant, n=114). Fodd bynnag, y pryder mwyaf ymhlith

ymatebwyr oedd cefnogi anghenion lles ac iechyd meddwl parhaus staff (64 y cant, n=178).

**Ffigur 8.2 Arolwg staff: Anghenion cymorth parhaus staff**[54]




*Sylfaen: n=279; ffynhonnell: arolwg staff; gallai ymatebwyr ddewis opsiynau lluosog*

8.20 Ar gyfer cyfranogwyr grwpiau ffocws sy'n gweithio mewn SAB, DOC a DSW, roedd diffyg ymgysylltiad gan gyflogwyr yn bryder parhaus. Teimlai rhai fod perthnasoedd rhwng darparwyr addysg a chyflogwyr wedi dioddef yn sgil y cyfnodau clo ac yr oedd llai o gyfleoedd i gysylltu dysgwyr â chyflogwyr nag a fu o'r blaen.

[54] Cwestiwn yr arolwg: 'Gyda beth y mae aelodau staff yn eich sefydliad angen cefnogaeth o hyd?'


8.21 Ar ben hynny, mynegodd arweinwyr sefydliadau ar draws y sector bryderon ynghylch y gallu i recriwtio staff a dysgwyr newydd i'r sector yn y dyfodol. Teimlai rhai fod y cyllid pontio wedi helpu i liniaru heriau o ran recriwtio dysgwyr i'r cam nesaf o addysg yn ystod y pandemig, gan ei fod wedi helpu sefydliadau i symud gwaith ar-lein, ac y byddai parhau â'r cyllid hwn o fudd wrth gael hyn yn ôl ar y trywydd iawn.

8.22 Roedd canfyddiadau staff ynghylch anghenion parhaus dysgwyr yn canolbwyntio ar les ac ymgysylltu â dysgwyr. Adroddodd cyfranogwyr y grwpiau ffocws fod iechyd meddwl dysgwyr ar ei isaf erioed oherwydd yr unigedd cymdeithasol a achoswyd gan y cyfnodau clo. Adroddodd staff am weld cynnydd sylweddol yn yr angen am gymorth bugeiliol, gan gydnabod y bu hyn yn rhywbeth yr oedd angen iddynt fynd i'r afael ag ef wrth ddychwelyd i ddysgu wyneb yn wyneb.

> "Yr hyn rydw i'n ei weld […] yw argyfwng lles ac iechyd enfawr ymhlith dysgwyr, yn enwedig y math hwnnw o grŵp oedran 16 i 19. Rwy'n meddwl yr oedd ganddynt gymaint o bethau i ddygymod â nhw a chynifer o rwystrau i'w goresgyn. Mae pethau wedi bod yn heriol iawn iddyn nhw a nawr rydyn ni'n dechrau gweld hynny a sut mae'n dod i'r amlwg fel diffyg hyder difrifol a lefelau difrifol o bryder." (Cyfwelai staff, AB)

8.23 Adlewyrchodd canfyddiadau o'r arolwg staff y canfyddiad hwn, gydag iechyd meddwl a lles dysgwyr yn cael eu hadrodd gan bron i ddau draean o ymatebwyr (62 y cant).

**Ffigur 8.3 Arolwg staff: Anghenion cymorth parhaus dysgwyr**[55]




*Sylfaen: n=279; ffynhonnell: arolwg staff; gallai ymatebwyr ddewis opsiynau lluosog*

8.24 Amlygodd cyfranogwyr y grwpiau ffocws yr angen am gymorth dal i fyny parhaus ar gyfer dysgwyr oherwydd bylchau mewn sgiliau astudio, sgiliau ysgrifennu a hyder dysgwyr gan ddilyn y 2-3 blynedd diwethaf o darfu ar ddysgu. Ategwyd hyn ymhellach gan ganfyddiadau o’r arolwg staff lle dewisodd bron i ddau draean o ymatebwyr ‘ymgysylltu â dysgu’ (63 y cant, n=176) a bron i hanner ‘dal i fyny â dysgu coll’ (49 y cant, n=137).

8.25 Amlygodd yr arolwg staff hefyd yr angen am gymorth ariannol ar gyfer dysgwyr (49 y cant, n=136). Soniwyd am hyn mewn grwpiau ffocws staff a chyfweliadau ag arweinwyr lleoliadau wrth iddynt amlygu arwyddocâd datblygol yr argyfwng costau byw a'r angen am ailgyfeirio adnoddau i gefnogi dysgwyr.

[55] Cwestiwn yr arolwg: ‘Gyda beth mae dysgwyr yn eich sefydliad angen cefnogaeth o hyd?’

**Sut i ddiwallu anghenion parhaus**


8.26 Bu i drafodaethau â staff ymchwilio hefyd i'r hyn a oedd angen iddo ddigwydd i fynd i'r afael ag anghenion parhaus. Yn gyffredinol, roedd sefydliadau'n gytûn y byddai cynnal yr un lefel o gymorth, yn bennaf ar draws dal i fyny ar ddysgu a'r cynnig lles/iechyd meddwl, yn heriol tu hwnt heb gyllid ychwanegol. Pwysleisiodd cyfweliadau ag arweinwyr sefydliadau a thrafodaethau â staff bwysigrwydd cymorth ariannol parhaus a rhannu arfer gorau. Adlewyrchwyd y safbwyntiau hyn yn yr arolwg staff, lle y bu i fwy na dau draean o staff ddewis 'cyllid parhaus' (69 y cant, n=177) a mwy na hanner nodi 'rhannu arfer da/ gwersi a ddysgwyd ar draws y sector' (53 y cant, n=136) fel ffyrdd o ymdrin ag anghenion parhaus. Crybwyllwyd hyn hefyd ar y cyd ag anghenion cymorth o ganlyniad i'r argyfwng costau byw datblygol, y teimlai staff y gallai effeithio ar gyfraddau cadw wrth i anawsterau ariannol roi pwysau ar ddysgwyr i adael addysg i ymgymryd â gwaith â thâl.

8.27 Pwysleisiodd staff a gymerodd ran mewn grwpiau ffocws yr angen am gynnig cyfleoedd parhaus i ddal i fyny ar ddysgu. Eto, atgyfnerthwyd y canfyddiad hwn gan yr arolwg staff, lle'r oedd 49 y cant (n=125) yn cydnabod yr angen am adnoddau addysgu a dysgu ychwanegol i gefnogi anghenion parhaus.

> "Yn sgil COVID credaf mai un o'r heriau i lawer o'n myfyrwyr yw dychwelyd i wyneb yn wyneb… Rydyn ni'n gweld dysgwyr sydd angen y cymorth ychwanegol hwnnw i lenwi bylchau naill ai o ran gwybodaeth neu sgiliau." (Cyfwelai staff, AB)

8.28 I rai staff, roedd yr anghenion dal i fyny ychwanegol hyn yn mynd law yn llaw â darparu cymorth pontio pellach. Roedd hyn yn angen arbennig o ddybryd i ddysgwyr a fu'n profi heriau gyda bylchau dysgu o ganlyniad i'r pandemig, ac yn awyddus i symud i addysg bellach.

**Ffigur 8.4 Arolwg staff: Teimladau staff ynghylch sut y gellid ymdrin ag anghenion parhaus staff[56]**




*Sylfaen: n= 255; ffynhonnell: Arolwg staff; Gallai ymatebwyr ddewis opsiynau lluosog*

[56] Cwestiwn yr arolwg: 'Sut ydych chi'n meddwl y gellir ymdrin ag anghenion parhaus staff?'

## 9. Deilliannau a chanfyddiadau o effeithiolrwydd

9.1 Mae'r adran a ganlyn yn dechrau drwy ymchwilio i'r ffyrdd yr oedd sefydliadau wedi monitro deilliannau ac effeithiolrwydd y cyllid. Mae'n cynnwys safbwyntiau sefydliadol ar wella dulliau monitro a mesur deilliannau yn y dyfodol. Wedyn mae'n ystyried safbwyntiau ar ganfyddiadau o effeithiolrwydd y gwahanol ffrydiau cyllido a gwahaniaethau ar draws y boblogaeth ddysgwyr. Mae'r adran yn galw ar ganfyddiadau o gyfweliadau ag arweinwyr sefydliadau, trafodaethau gyda staff a dysgwyr a data o'r arolwg staff.

**Cywain gwybodaeth a monitro deilliannau**

9.2 Roedd sefydliadau fel arfer yn monitro'r un dangosyddion rhifol (sylfaenol) â chyn y pandemig, gan gydnabod bod ganddynt lefel benodol o hyblygrwydd o ran gofynion y Cyllid Adferiad COVID-19. Roedd y metrigau a amlygwyd mewn cyfweliadau ag arweinwyr sefydliadau a grwpiau ffocws staff yn cynnwys:

- Cadw: niferoedd (yn weddill) ar bob cwrs
- Cwblhau: niferoedd yn cwblhau pob cwrs
- Cyrhaeddiad: deilliannau academaidd dysgwyr/cymwysterau a enillwyd, ac
- Ymadael: niferoedd yn gadael pob cwrs.

9.3 Dywedodd un arweinydd AU fod gofynion cyllido CCAUC yn cynnwys monitro metrigau ar gyfer recriwtio, cadw, cwblhau a chyflogadwyedd graddedigion. At hynny, bu i randdeiliaid AU fonitro boddhad myfyrwyr a data am gyrchfannau, gan nodi bod arolygon cenedlaethol fel yr Arolwg Myfyrwyr Cenedlaethol (NSS) yn caniatáu meincnodi â sefydliadau eraill.

9.4 Yn yr un modd, roedd rhai sefydliadau AB, DSW a DOC wedi cymryd rhan yn Arolwg Mewnwelediadau Profiad Digidol Jisc i archwilio sut yr oedd eu dysgwyr a'u staff yn defnyddio technoleg.[57] Roeddent yn gallu cymharu eu deilliannau â sefydliadau yn yr un rhan o'r sector ôl-16.

9.5 Roedd yr hyblygrwydd a roddwyd o ran monitro deilliannau'n golygu nad oedd angen i sefydliadau wneud ymdrechion ychwanegol i gasglu data gan ddefnyddio llawer o adnoddau. Nododd un arweinydd AB ac un DSW nad oedd unrhyw fonitro ychwanegol wedi digwydd i archwilio effaith y cyllid. Fodd bynnag, adroddodd un

[57] Jisc (2022) Arolwg Mewnwelediadau Profiad Digidol, cyrchwyd yn: https://digitalinsights.jisc.ac.uk/digital-experience-insights-wales-post-16-providers/

arweinydd AB am ddefnyddio'r Cyllid Adferiad COVID-19 i ymestyn traciwr gweithgareddau dysgwyr presennol i gynnwys ymgysylltiad myfyrwyr â'r ymyriadau.

9.6 Er gwaethaf adroddiadau gan rai rhannau o'r sector ôl-16 nad oedd llawer o fonitro deilliannau ychwanegol wedi'i wneud, bu i rai mathau o sefydliadau wneud ymdrechion i gasglu gwybodaeth yn gysylltiedig â ffrydiau cyllido penodol (a oedd mewn rhai achosion yn amod o dderbyn y cyllid). Er enghraifft, adroddodd rhanddeiliaid AB a DSW iddynt fonitro'r niferoedd a fu'n cyrchu/defnyddio dyfeisiau digidol trwy gymwysiadau a gwasanaethu, a fu'n caniatáu iddynt asesu faint o ddysgwyr oedd yn parhau â'u hastudiaethau o ganlyniad i'r cyllid.

9.7 Roedd cydnabyddiaeth gan gyfweleion ar draws y sector (ac wedi'i nodi'n benodol gan DSW ac AB), fod monitro deilliannau ac effeithiolrwydd yn llawer mwy heriol mewn rhai meysydd, er enghraifft, lles ac iechyd meddwl, nag mewn rhai eraill. Yn yr un modd, roeddent yn cydnabod ei bod yn symlach cysylltu'r defnydd o gyllid â deilliannau dysgu cadarnhaol mewn agweddau, megis cymorth digidol a chadw, nag mewn rhai eraill.

> "Rwy'n meddwl bod y stwff allgáu digidol yn symlach i'w fesur oherwydd gallwch ddweud yn llythrennol faint o ddysgwyr sy'n cael mynediad i hynny. Heb y mynediad hwnnw, a fydden nhw wedi aros ar y rhaglen neu wedi dal i ymgysylltu [yn ystod] y pandemig? Na fyddent, yn ôl pob tebyg." (Arweinydd sefydliad, DSW)

9.8 Nododd y cyfweleion fod y data monitro craidd yn mynd trwy Gofnod Dysgu Gydol Oes Cymru (CDGOC)[58] a bod data'n cael ei ddadansoddi yn ôl newidynnau demograffig allweddol, megis oedran, rhyw a grŵp ethnig. Mae hyn yn golygu y bu'n bosib i'r rhan fwyaf o sefydliadau weld sut gynnydd y mae gwahanol grwpiau o ddysgwyr yn gwneud ar nifer fach o ddangosyddion.

9.9 Er bod systemau casglu data ar wahân yn bodoli ar gyfer ysgolion, roedd rhan o'r broses fonitro a fabwysiadwyd gan adrannau chweched dosbarth yn cynnwys cymharu data allweddol dros amser, ac yn ôl yr un newidynnau demograffig, yn ogystal â lefel amddifadedd aelwydydd. Fodd bynnag, cafodd ei nodi gan arweinydd chweched dosbarth arall, a'i adleisio gan staff AB, fod newidiadau mewn dulliau

[58] Data ar ddysgwyr mewn addysg a hyfforddiant ôl-16, heb gynnwys y rheini mewn ysgolion a sefydliadau AU, ond gan gynnwys y rheini mewn Sefydliadau Addysg Bellach, darparwyr Dysgu Seiliedig ar Waith eraill a darpariaeth Dysgu Cymunedol a gasglwyd drwy Gofnod Dysgu Gydol Oes Cymru (CDGOC) Llywodraeth Cymru).

asesu a fu'n ofynnol o ganlyniad i COVID-19 wedi cymhlethu ac, yn ôl pob tebyg, annilysu cymariaethau hydredol o ddata cyrhaeddiad.

> "Dydw i ddim yn siŵr a allen ni fynd ymlaen wedyn i gymharu'r garfan bresennol hon â'r garfan COVID. Rwy'n credu y byddai'n gymhariaeth annheg oherwydd y newid amlwg yn y fethodoleg asesu ar gyfer y myfyrwyr hynny." (Cyfwelai staff, AB)

9.10 Cyfeiriodd rhai arweinwyr chweched dosbarth a DOC at ddysgwyr yn gosod eu nodau eu hunain ac yn hunan-fonitro eu perfformiad. Bu i sefydliadau gefnogi'r broses hunanasesu hon, gan sicrhau bod nodau'n realistig a bod dysgwyr yn cael cymorth i weithio tuag atynt.

**Cywain adborth gan staff a dysgwyr**

9.11 Pwysleisiodd cyfweliadau â rhanddeiliaid y sector gyflymder angenrheidiol yr ymateb, a gyfyngodd ar gyfleoedd i ymgynghori â staff a/neu ddysgwyr yng nghamau cynnar y pandemig. Yn lle hynny, gwnaeth rhanddeiliaid ddefnydd o rwydweithiau lefel uchel, er mwyn dosbarthu a defnyddio'r cyllid (gweler 4.6).

9.12 Pan fu i aflonyddwch cychwynnol y pandemig leddfu roedd mwy o gyfleoedd i ymgynghori. Cyfeiriodd arweinwyr AB at ymgynghori (arolygon ar-lein yn aml) â dysgwyr, ac weithiau gyda staff. Er enghraifft, cynhaliodd un coleg arolwg gyda staff bob 6 wythnos. Dywedwyd bod amlder arolygon gyda staff a dysgwyr wedi cynyddu ers camau cynnar y pandemig.

9.13 Cyfeiriodd rhanddeiliaid DOC a DSW at arolygon blynyddol. Mewn un achos roedd yr arolwg o ddysgwyr seiliedig ar waith wedi bod yn rhedeg ers nifer o flynyddoedd, a hynny cyn y pandemig hefyd, gan gyflawni cyfradd ymateb hynod o gryf. Roedd enghreifftiau o'r math o ymgynghori â dysgwyr (mewn AB) yn cynnwys: ymwybyddiaeth a sgiliau digidol, barn am ddysgu ar-lein (o'i gymharu â wyneb yn wyneb), profiadau a barn am ddeunyddiau i gefnogi pontio, megis fideos ar wefannau colegau. Roedd enghreifftiau o ymgynghori â staff yn cynnwys anghenion lles a chymorth parhaus (staff). Cynhaliodd un darparwr DOC arolwg blynyddol gyda'i ddysgwyr ond teimlai nad oedd hwn yn darparu'r hanesion personol yr oedd eu hangen arnynt i ddangos llwyddiant.

9.14 Nododd un arweinydd chweched dosbarth mewn ysgol fod rhan o'r broses fonitro yn cynnwys cywain adborth gan ddysgwyr, fodd bynnag, awgrymodd grwpiau

ffocws myfyrwyr efallai nad oedd hyn yn arfer cyffredin. Yn wir, awgrymodd y nifer fach o ddysgwyr yr ymgynghorwyd â nhw fel rhan o’r gwerthusiad nad oeddent yn teimlo bod unrhyw un wedi gwrando arnynt pan oeddent mewn lleoliad ysgol.

9.15 Dangosodd cyfweliadau fod sefydliadau AU ac AB yn symud yn gynyddol tuag at systemau adborth 'amser real', megis 'TellUsNow’.[59] Rhoddodd hyn fwy o fewnwelediad iddynt i'r problemau a oedd yn effeithio ar ddysgwyr a staff, gan eu galluogi i reoli'r adborth hwnnw mewn ffordd ddeinamig. Nid oedd y systemau hyn wedi’u cysylltu’n benodol â'r Cyllid Adferiad COVID-19, yn hytrach roedd yn rhan o ymdrech ehangach i wella llais dysgwyr (a staff).

9.16 Cyfeiriodd rhai arweinwyr sefydliadau at gynnal astudiaethau achos gyda dysgwyr. Mewn un enghraifft, cynhaliodd darparwr DOC astudiaethau achos gyda phawb a oedd wedi derbyn offer digidol y talwyd amdano gan ddefnyddio'r Cyllid Adferiad COVID-19 ychwanegol. Cyfeiriodd darparwyr DOC eraill at dystiolaeth anecdotaidd gan staff, er enghraifft, dywedwyd wrthynt fod staff wedi gwella eu sgiliau digidol a’u hyder wrth gyflwyno gwersi ar-lein.

9.17 Cyfeiriodd arweinwyr AB at gyfweliadau 'ymadael' ar gyfer y rhai sy'n pontio allan o'r lleoliad, fel dull o gywain adroddiadau personol (ansoddol) o gamau nesaf dysgwyr. Cyfeiriodd darparwr DOC hefyd at ffurflenni adborth ymadael, ynghyd â hunanasesiadau dysgwyr. Darparodd y dulliau hyn adborth ôl-weithredol a chipolwg amser real o ddeilliannau ar y pwynt pontio.

9.18 Roedd yna hefyd ymdrech wedi'i thargedu gan rai darparwyr addysg i gysylltu â dysgwyr mwy agored i niwed. Er enghraifft, siaradodd un arweinydd AB am alwadau wythnosol gyda’r rhai ag ADY a gofalwyr ifanc i sicrhau bod eu hanghenion yn cael eu diwallu. At hynny, amlygodd staff AB werth sesiynau dal i fyny ar ddiwedd y dydd gyda dysgwyr er mwyn deall gwerth y cymorth a gynigir mewn amser real:

> “Fe wnaethom edrych ar yr hyn a wnaethon ni bob dydd gyda’n sesiynau dal i fyny diwedd dydd i weld pa effaith roedd hynny’n ei chael, faint o ddysgwyr oedd yn mynychu ac a oedd wedi gwneud gwahaniaeth i’r dysgwyr unigol hynny.” (Cyfwelai staff, AB)

[59] Llwyfan rheoli adborth yw TellUsNow sy’n galluogi sefydliadau i gasglu, coladu a dadansoddi adborth, gweler https://tell-us-now.com/

**Myfyrdodau ar fonitro a mesur**

9.19 Roedd y rhan fwyaf o randdeiliaid yn gwerthfawrogi cyflymder yr ymateb i COVID-19 ond gan bwysleisio mai'r peth pwysicaf yn y dyfodol fyddai eglurder ynghylch y gofynion monitro o'r cychwyn cyntaf. Cydnabuwyd nad oedd neb yn ymwybodol o arwyddocâd llawn COVID-19 yn nyddiau cynnar y pandemig, ac felly pwysigrwydd monitro deilliannau.

> "Wnaethon ni byth fynd ati i fesur yr hyn roedden ni'n ceisio'i gyflawni oherwydd doedden ni ddim yn gwybod beth oedden ni'n delio ag ef mewn gwirionedd." (Arweinydd sefydliad, AB)

9.20 Nododd arweinwyr sefydliadau ar draws y sector y gallai mesur deilliannau ac effeithiolrwydd fod yn heriol iawn, ac (fel uchod) yn anos mewn rhai meysydd/ffrydiau cyllido na rhai eraill. Roedd rhai wedi gwneud ymdrechion i wella systemau, er enghraifft nododd un arweinydd DSW ei fod wedi newid y pwynt cofnodi data deilliannau o 3 mis ar ôl cwblhau'r cwrs i bwynt yn ystod y cyfnod pontio. Bu i hyn ei gwneud hi'n haws casglu data ac arwain at set ddata fwy cyflawn ynghylch pontio. Yn yr un modd, amlygodd staff AB ymdrechion y sefydliad i wella cywirdeb a hygyrchedd data deilliannau dysgwyr trwy fuddsoddi mewn pecyn meddalwedd newydd.

9.21 Nododd un rhanddeiliad AU nad oedd capasiti staff yn caniatáu gwerthuso cynhwysfawr a chadarn, ond bod y drefn arferol yn cynnwys monitro defnydd a deilliannau sylfaenol. Er enghraifft, casglodd y sefydliad ddata hunan-gofnodedig ynghylch a oedd cyllid caledi wedi dylanwadu ar benderfyniad myfyriwr i aros yn y brifysgol.

9.22 Adleisiodd rhanddeiliaid AU eraill y neges am gyfyngiadau o ran capasiti, a diffyg data cymaradwy/sylfaenol, gan ddifaru'r cyfleoedd coll i fonitro deilliannau tymor hwy y rhai a gefnogwyd gan gyllid ychwanegol (e.e., pontio i waith o ganlyniad i'r Gronfa Cymorth i Raddedigion).

> "Un peth na fyddwn byth yn ei wybod yw'r effaith ar gymunedau, sgil-effaith lluosydd budd-daliadau… i'r [sefydliad] yn benodol mae hynny'n wahaniaeth eithaf amlwg yn effaith y cyllid hwn na fyddwn byth yn ei wybod mewn gwirionedd" (Arweinydd sefydliad, AU).

9.23 Pwysleisiodd un arweinydd bwysigrwydd amseru o ran mesur effaith: Ddim yn rhy fuan i fedru dangos newid, nac yn rhy hwyr i gywain data ac iddo fod yn bwrpasol. Gallai’r amser gorau posib amrywio gan ddibynnu ar y math o gymorth a gynigiwyd, er enghraifft (ac fel y trafodwyd uchod), gallai darparu adnoddau digidol arwain at welliant ar unwaith mewn cyfraddau cadw, tra y gallai cymorth llesiant gymryd mwy o amser i ddangos newid gwirioneddol.

9.24 Pwysleisiodd arweinwyr sefydliadau hefyd bwysigrwydd sicrhau bod ffurflenni monitro'n gynhwysfawr ond yn hylaw, yn cael eu rhannu'n amserol a gyda chyfarwyddiadau cwblhau clir. At hynny, pwysigrwydd cydnabod bod gan sefydliadau bach lai o gapasiti i fuddsoddi mewn monitro a dadansoddi.

**I ba raddau yr oedd y cyllid wedi bodloni anghenion staff a dysgwyr**

9.25 Roedd arweinwyr sefydliadau o bob rhan o’r sector yn hynod gadarnhaol am y cyllid a’r hyn yr oedd yn ei hwyluso, yn benodol i barhau i addysgu a dysgu a dechrau lliniaru effeithiau negyddol y pandemig.

> “Roedd y cyllid yr oedd gennym yn y cronfeydd penodol hynny yn bendant wedi cyflawni ei nodau” (Arweinydd sefydliad, DOC)

9.26 Nododd rhanddeiliaid DOC y byddai dysgu wedi dod i ben heb y cyllid, a dywedodd arweinwyr AB y byddai llai o ddysgwyr wedi cwblhau cyrsiau/cyflawni cymwysterau heb y cyllid ac felly'n methu â symud i AU neu'r gwaith. Nododd un arweinydd AB:

> "Bydden ni wedi cael trafferth fawr [heb y cyllid]. Bydden ni wedi stryglo i gyflwyno ar-lein; nid oedd gennym y sgiliau na’r offer angenrheidiol i wneud hynny… Ni fyddai modd i ni addasu ein hamgylchedd a darparu amgylchedd diogel i’r dysgwyr hynny gwblhau eu cyrsiau ar gyfer 2020/2021… Byddem wedi gweld deilliannau dysgwyr yn lleihau a hefyd morâl ymhlith staff ac yn ein cymunedau, gan y byddent wedi bod â llai o hyder yn yr hyn yr oeddem yn ei wneud" (Arweinydd sefydliad, AB).

9.27 Adleisiwyd hyn gan ddarparwyr DSW a DOC, a deimlai fod y cyllid yn caniatáu iddynt atal dysgwyr rhag ymddieithrio. Yn yr un modd, gwnaeth rhanddeiliaid AU sylwadau ar haelioni'r cyllid a sut yr oedd hynny wedi galluogi sefydliadau i ddechrau taclo materion yn ymwneud ag ymgysylltiad dysgwyr, er yn cydnabod mai her sylweddol oedd hon, ac yn un na fu modd iddynt ei goresgyn yn llwyr. Nododd

un arweinydd AU, er ei fod yn anodd siarad am yr achosiaeth, y “gall cymorth ariannol ar yr adeg iawn wneud gwahaniaeth”. (Arweinydd sefydliad, AU)

9.28 Adlewyrchwyd y teimladau hyn mewn rhannau eraill o’r sector gydag arweinwyr sefydliadau’n adrodd bod lefel y cyllid yn “berffaith” (arweinydd sefydliad, AB) a bod y sefydliad “yn gallu gwneud popeth yr oeddem yn meddwl oedd yn syniad da trwy un o'r cronfeydd cyllido” (Arweinydd sefydliad, adran chweched dosbarth).

9.29 Mewn cyferbyniad â hynny, ac yn llai cyffredin, oedd y farn nad oedd y cyllid yn mynd yn ddigon pell. Er enghraifft, teimlai un arweinydd DSW na fu'r cyllid yn ddigonol i ganiatáu iddynt gefnogi eu holl ddysgwyr a darparwyr, gan olygu bod yn rhaid iddynt flaenoriaethu grwpiau penodol o ddysgwyr. Roedd hyn yn arbennig o wir yng nghamau cynnar y pandemig (h.y., Rownd 1 y cyllid), lle'r oeddent yn teimlo bod DSW yn mynd ar goll i ryw raddau ymhlith y gweithgareddau i gefnogi rhannau eraill o'r sector. Yn yr un modd, teimlai un arweinydd chweched dosbarth fod y broses o wneud penderfyniadau ynghylch sut i ddefnyddio'r cyllid wedi'i gwrthbwyso gan ymwybyddiaeth o gost, a’r angen am osgoi gorwario. Yn yr achos hwn roedd y broses o wneud penderfyniadau hefyd wedi'i chymhlethu gan gamddehongliad cychwynnol ynghylch faint o gyllid y byddai'r sefydliad yn ei dderbyn.

> “Dw i’n meddwl mai dyna oedd y peth ar y dechrau, pan oedden ni’n meddwl ein bod ni’n cael cymaint o arian ac yna’n weddol gyflym fe wnaethon ni sylweddoli nad oedd yn mynd i fod gymaint â hynny. Yna gwnaethoch chi ddechrau dod o hyd i bethau yr oeddech chi'n gwybod y gallech eu fforddio.” (Arweinydd sefydliad, chweched dosbarth)

9.30 Fodd bynnag, roedd hyn yn aml yn gydnabyddiaeth y buasai modd i sefydliadau wella cyrhaeddiad y cymorth gyda mwy o gyllid.

> “Pe bai mwy o arian ar gael, fe fydden ni wedi gallu ei wario a rhoi gwell cymorth i’n dysgwyr a’n staff. Ond ar yr un pryd, dwi’n meddwl y gwnaethon ni'n dda iawn gyda’r hyn oedd gyda ni.” (Arweinydd sefydliad, AB)


9.31 Roedd sylwadau llai cadarnhaol eraill yn canolbwyntio ar brydlondeb y cyllid, er enghraifft, nododd arweinwyr AB a DSW fod y cyllid (cyllid digidol yn yr achos hwn) wedi dod yn rhy hwyr i fod mor ddefnyddiol ag y gallai fod. A bod COVID-19 yn golygu nad oedd sefydliadau’n gallu cysylltu â rhai dysgwyr yn ystod y cyfnod clo i’w cefnogi.

9.32 At hynny, nodwyd bod staff sefydliadau'n chwarae rôl bwysig wrth sicrhau y diwallwyd anghenion dysgwyr, beth bynnag oedd y Cyllid Adferiad COVID-19. Roedd hyn yn golygu dibyniaeth barhaus ar “ewyllys dda” ac “ysbryd ar y cyd” gan staff, a oedd wedi cael effaith ar les. Nododd un arweinydd chweched dosbarth:

> "Roedden ni’n isafu'r maint o ddysgu y gwnaethant ei golli ond doedd hynny ddim oherwydd yr oedd arian ychwanegol ar gael. Roedd yn ymwneud â'r ffaith i ni deimlo mai dyna oedd y peth iawn i'w wneud o safbwynt moesol, fel gweithlu ar y cyd.” (Arweinydd sefydliad, chweched dosbarth)

9.33 Roedd yr adborth cadarnhaol a gasglwyd o gyfweliadau ag arweinwyr lleoliadau'n llai amlwg yng nghanfyddiadau’r arolwg staff ac yn yr adborth gan ddysgwyr. Pan ofynnwyd yn yr arolwg staff a oedd y Cyllid Adferiad COVID-19 wedi lliniaru effeithiau’r pandemig ar draws sawl maes allweddol, cymysg oedd yr ymatebion. Er i bron i hanner y rhai a ymatebodd i’r arolwg staff (n=138) gytuno neu gytuno’n gryf fod y cyllid wedi lliniaru effeithiau negyddol y pandemig ar les ac iechyd meddwl dysgwyr, roedd llai na chwarter (n=62) yn teimlo’n gadarnhaol tuag at effaith y cyllid ar lwythi gwaith staff. Bu i gyfrannau nodedig o staff ddewis ‘ddim yn gwybod’ neu ‘ddim yn berthnasol’, gan adlewyrchu ymwybyddiaeth gyfyngedig o sut y defnyddiwyd y cyllid (gweler Ffigur 9.1).

**Ffigur 9.1 Arolwg staff: A oedd y cyllid COVID-19 wedi lliniaru effeithiau negyddol y pandemig[60]**




*Sylfaen: n=279; ffynhonnell: arolwg staff.*

**I ba raddau yr oedd y cyllid wedi bodloni amcanion**

9.34 Roedd rhanddeiliaid yn cael trafferth gwneud sylwadau ar effeithiolrwydd y Cyllid Adferiad COVID-19 yn erbyn amcanion, gan nad oedd y rhain bob amser yn eglur, a bod ymwybyddiaeth yn gyffredinol isel ymhlith y rhai y cyfwelwyd â hwy.

9.35 Fodd bynnag, fel arfer gallai arweinwyr sefydliadau a staff fyfyrio ar effeithiolrwydd y cyllid ar draws ffrydiau penodol/meysydd eang, er enghraifft, iechyd meddwl a lles neu ddigidol, ond, fel y trafodwyd uchod, roedd yn haws rhoi sylwadau ar effeithiolrwydd mewn rhai meysydd na mewn rhai eraill.

[60] Cwestiwn yr arolwg: 'I ba raddau ydych chi'n cytuno bod y cyllid adferiad COVID-19 wedi helpu i liniaru effeithiau negyddol y pandemig ar y canlynol?'

### Effeithiolrwydd: mynediad a chynhwysiad digidol

9.36 Yn wir, mae cyllid ar gyfer mynediad a chynhwysiad digidol yn un maes lle’r oedd tystiolaeth glir o gynnydd yn erbyn amcanion. Bu consensws ar draws y sector y defnyddiwyd y cyllid digidol yn effeithiol i gefnogi dysgwyr a staff, gan alluogi i ddysgu barhau. Er enghraifft, roedd un arweinydd DOC yn glir y “cyflawnwyd nodau cynhwysiad digidol yn bendant” (Arweinydd sefydliad, DOC). Teimlad a adleisiwyd mewn AB a DSW, lle nododd un arweinydd y bu'r newid i ddysgu cyfunol yn un cadarnhaol tra arwyddocaol. Yn yr un modd, amlygodd arweinwyr sefydliadau (yn fwyaf nodedig mewn AU) gyflymder y datblygiad digidol a alluogwyd gan y cyllid COVID-19. Roeddent yn ystyried bod hyn yn fuddsoddiad cadarnhaol sylweddol yn nyfodol dysgu cyfunol (gweler 8.14).

### Effeithiolrwydd: iechyd meddwl a lles

9.37 Roedd meysydd cyllido blaenoriaeth eraill, fel iechyd meddwl a lles, yn fwy anodd i'w hasesu. Roedd arweinwyr sefydliadau o bob rhan o’r sector yn gallu cynnig enghreifftiau o’r mathau o gymorth estynedig y talwyd amdanynt gan ddefnyddio'r Cyllid Adferiad COVID-19. Dywedodd un arweinydd AB fod y galw am wasanaethau iechyd meddwl a lles wedi cynyddu’n sylweddol ers y pandemig a’i fod yn her barhaus.

> “Mae nifer y bobl sy’n dod i'r amlwg gyda phroblemau iechyd meddwl yn cynyddu’n esbonyddol. [...] Dyna ein her fwyaf, iechyd meddwl ac ymddygiad.” (Arweinydd sefydliad, AB)

9.38 Er ei bod yn amlwg yr oedd y cyllid wedi galluogi ehangu gwasanaethau cymorth lles ac iechyd meddwl ar draws y sector, pwysleisiodd arweinwyr sefydliadau bwysigrwydd ymrwymiad parhaus i’r math hwn o gymorth.

9.39 Roedd un adran chweched dosbarth mewn ysgol wedi gweld effeithiau yn sgil ymestyn gwasanaethau lles estynedig, yn benodol rhwng gwasanaethau a sefydlwyd yn eu sefydliad ar gyfer cymorth iechyd meddwl ôl-16 (gan estyn y gwasanaethau a oedd ar gael i ddysgwyr Blwyddyn 11) a chadw dysgwyr. Dywedodd yr arweinydd hefyd fod hyn wedi bod o fudd anuniongyrchol i staff drwy leihau'r angen iddynt ddarparu gofal bugeiliol.

> “[Creodd [y ddarpariaeth a ariannwyd] ofod o fewn yr ysgol yn y chweched dosbarth lle gallem gael sgyrsiau tawel a chyfrinachol gyda dysgwyr... roedd yn

caniatáu i’r athrawon… ganolbwyntio mwy ar yr agweddau academaidd a llai ar reoli argyfyngau… a chanolbwyntio ar ddychwelyd i ddysgu arferol.” (Arweinydd sefydliad, chweched dosbarth)

9.40 Roedd cymorth a lles staff hefyd yn faes lle'r oedd effeithiau cadarnhaol wedi'u lleddfu gan bryderon parhaus ynghylch cynaladwyedd. Er enghraifft, teimlai un arweinydd AB fod ei sefydliad wedi buddsoddi’n sylweddol mewn datblygiad staff a DPP (Datblygiad Proffesiynol Parhaus), gan arfogi staff i gyflwyno mewn amgylchedd digidol. Fodd bynnag, gwnaethant dynnu sylw hefyd at faterion yn ymwneud â chadw a recriwtio, yn enwedig ar gyfer graddau is, gan nodi bod tâl isel yn rhan o’r broblem.

**Effeithiolrwydd: dal i fyny i ddysgwyr**

9.41 Roedd dal i fyny i ddysgwyr yn fwy o flaenoriaeth i rai rhannau o'r sector na rhai eraill. Er enghraifft, bu i DSW (a DOC) ddefnyddio'r cyllid yn bennaf i brynu offer a darparu gwasanaethau iechyd meddwl a lles yn hytrach na dal i fyny.

9.42 Gwnaeth arweinwyr sefydliadau o bob rhan o AB sylwadau am yr anawsterau yr oeddent yn eu hwynebu wrth ddefnyddio'r cyllid ar gyfer dal i fyny i ddysgwyr. Roedd hyn yn bennaf yn broblem gyda staffio, ac anawsterau wrth recriwtio staff newydd/ychwanegol. Yn y rhan fwyaf o achosion, roedd sefydliadau AB yn gallu darparu adnoddau rhannol o leiaf ar gyfer gweithgareddau dal i fyny drwy dalu staff presennol ond gan nodi bod dal i fyny yn parhau i fod yn flaenoriaeth ac yn her.

9.43 Gwnaeth un arweinydd chweched dosbarth sylwadau am werth sesiynau addysgu un-i-un a grŵp bach ar gyfer dal i fyny ar ddysgu, gan amlygu pwysigrwydd medru rhedeg sesiynau y tu allan i’r diwrnod ysgol a thalu athrawon am hynny. Gwelodd y sefydliad hefyd fod deunyddiau ar-lein a ddatblygwyd gyda chymorth y Cyllid Adferiad COVID-19 yn fuddsoddiad gwerth chweil, ac yn adnodd y mae ei ddysgwyr yn parhau i'w gyrchu. Adlewyrchwyd y buddsoddiadau mewn adborth cadarnhaol gan ddysgwyr ac yn y canlyniadau. Er i sefydliadau eraill ddefnyddio model tebyg (e.e., cynnig sesiynau ychwanegol i ddysgwyr), nodwyd bod hyn wedi cael effaith andwyol ar les staff.

9.44 Nododd arweinwyr sefydliadau fod newidiadau i asesiadau yr oedd eu hangen oherwydd y pandemig wedi creu problemau penodol i ddysgwyr. Roedd hyn yn cynnwys diffyg profiad ymarferol o arholiadau, problem benodol i ddysgwyr fu'n symud i gymwysterau ag asesiadau sy'n seiliedig ar arholiadau (fel Safon Uwch).

Ceisiodd rhai sefydliadau gau'r bwlch hwn, gan gyflwyno hyfforddiant i fyfyrwyr ar dechnegau arholiad a chan adrodd ei fod yn werth chweil.

> “Fyddai llawer o bobl ifanc ddim wedi gallu cael y cymwysterau oedd eu hangen arnyn nhw i gyrraedd y brifysgol... a dwi'n meddwl y byddech chi wedi cael problem fwy fyth o bobl ifanc yn dod drwodd nad oedden nhw'n barod am swyddi, ac rwy'n credu yr ydyn ni wedi llwyddo i liniaru hynny'n eitha da.” (Arweinydd sefydliad, AB)


**Effeithiolrwydd: pontio dysgwyr**

9.45 Roedd pontio yn faes arall gydag adborth mwy cymysg o ran effeithiolrwydd. Roedd arweinwyr sefydliadau’n gadarnhaol ar y cyfan ynghylch yr hyn yr oedd modd iddynt ei wneud gyda'r cyllid COVID-19, gan gynnig enghreifftiau o arfer gorau, megis mentora ac adnoddau ar-lein (gan gynnwys diwrnodau agored) i ymgeiswyr, a nodi bod newidiadau wedi’u mabwysiadu fel rhan o'r drefn arferol. Mewn cyferbyniad, roedd safbwyntiau dysgwyr yn tueddu i fod yn llai cadarnhaol. Er iddynt werthfawrogi’r angen am symud adnoddau, megis cymorth gyrfaol, teithiau campws a diwrnodau agored, ar-lein yn ystod y cyfnodau clo, ni fu i ddysgwyr a ddefnyddiodd y math hwn o gymorth deimlo ei fod wedi diwallu eu hanghenion yn llawn.

9.46 Teimlai rhai arweinwyr sefydliadau fod bylchau dysgu, ynghyd â newidiadau mewn dulliau asesu, wedi gadael carfan o ddysgwyr mewn sefyllfa wannach ar y pwynt pontio. Dywedodd un arweinydd AU fod bylchau dysgu yn fwy amlwg mewn rhai meysydd, fel STEM (Gwyddoniaeth, Technoleg, Peirianneg a Mathemateg) seiliedig ar labordai, nag mewn rhai eraill. Roedd hyn yn rhywbeth yr oedd sefydliadau’n parhau i’w reoli ond gan nodi y byddai’r sefyllfa wedi bod yn waeth heb y Cyllid Adferiad COVID-19.

9.47 Adlewyrchir gwahaniaethau yng nghanfyddiadau'r arolwg staff. Mae'r gwahaniaethau hyn yn amlwg er gwaethaf y niferoedd mawr iawn o staff a ddewisodd yr opsiwn ymateb 'ansicr', lle'r oedd y cyfrannau'n amrywio o 30 y cant ('ymgysylltu â dysgu') i 46 y cant ('cynnydd o addysg i gyflogaeth’). Adroddodd staff yr effeithiau cadarnhaol cryfaf ar gyfer 'ymgysylltu â dysgu' ac 'iechyd meddwl a lles' dysgwyr a'r lleiaf ar gyfer pontio/dilyniant dysgwyr, yn enwedig i gyflogaeth.

**Ffigur 9.2 Arolwg staff: Effaith y cyllid Covid-19 ar ddysgwyr[61]**




*Sylfaen: n=279; ffynhonnell: arolwg staff.*

**Gwahaniaethau o ran effeithiau ac effeithiolrwydd**

9.48 Dangosodd cyfweliadau ag arweinwyr sefydliadau wahaniaethau mewn effaith ac effeithiolrwydd ar draws y sector ôl-16. Roedd yn heriol i symud cyrsiau galwedigaethol gyda chwricwlwm ymarferol ar-lein. Hyd yn oed gyda dulliau arloesol megis gwahodd siaradwyr y diwydiant i gyflwyno digwyddiadau ar-lein, roedd yn anodd cynnal ymgysylltiad dysgwyr galwedigaethol. Roedd hon yn broblem benodol yn y sectorau adeiladwaith ac iechyd a gofal cymdeithasol. Nododd arweinydd sefydliad arall mai dysgwyr galwedigaethol oedd y grŵp cyntaf i ddychwelyd i ddysgu wyneb yn wyneb, ond ei fod yn her i liniaru bylchau mewn dysgu. Adlewyrchwyd hyn mewn trafodaethau gyda dysgwyr a staff, a amlygodd fwlch mewn gweithgareddau dysgu ar gyfer myfyrwyr celf a dylunio.

[61] Cwestiwn yr arolwg: ‘I ba raddau y cafodd y cyllid effaith gadarnhaol ar y deilliannau canlynol i ddysgwyr?’

9.49 At hynny, roedd bylchau cynnar yn y cymorth ariannol ar gyfer darparwyr galwedigaethol/DSW yn golygu bod angen targedu cyllid at y rhai â'r angen mwyaf ond gan adael bylchau yn y cymorth ymhlith y corff ehangach o ddysgwyr. Dywedodd un arweinydd DSW fod dysgwyr iau (16-24 oed) yn cwblhau eu haseiniadau ar ffonau symudol, gan nodi bod hwn yn angen dysgu digidol nad oeddent yn gallu ymdrin ag ef. Mewn cyferbyniad, gwelwyd bod angen mwy o gymorth gyda sgiliau digidol ar ddysgwyr mwy aeddfed. Roedd hyn i'w weld yn broblem benodol ymhlith dysgwyr DOC, a oedd hefyd yn cael trafferth gyda mynediad digidol.

9.50 At hynny, dywedodd un rhanddeiliad DOC fod angen i ddysgwyr mwy agored i niwed gael eu cefnogi gyda'u lles cyn iddynt allu symud ymlaen â dysgu. Yn aml roedd hyn yn golygu estyn allan ar sail unigol.

> "I'r dysgwyr mwy agored i niwed sydd gennym ni, fe wnaeth newid i fwy o gymorth lles yn hytrach na dysgu, a dyna beth oedd yn rhaid i ni symud ato am nad oedden nhw yn y lle iawn i ddysgu... Does dim pwynt ceisio cael dysgwr ar gwrs achos y cyfan yr oedden ni'n ei wneud oedd ychwanegu straen at eu bywydau a dyna'r peth olaf yr oedd ei angen arnyn nhw." (Arweinydd sefydliad, DOC)

9.51 Roedd sefydliadau AU hefyd yn gallu darparu cymorth ariannol i ddysgwyr unigol ar ffurf taliadau caledi, a oedd yn eu barn hwy yn darparu cymorth economaidd amhrisiadwy. Defnyddiodd un sefydliad y broses ymgeisio am galedi fel llwyfan i ddarparu cymorth iechyd meddwl i fyfyrwyr (gan gydnabod effaith negyddol caledi ariannol ar les). Er nad oedd SAU yn gallu cysylltu taliadau caledi yn uniongyrchol â chadw dysgwyr, roeddent yn cydnabod pwysigrwydd medru cynnig y cymorth hwn (a mathau eraill o gymorth) i'w myfyrwyr.

> "Derbyniodd 19,000 o fyfyrwyr arian parod ychwanegol. A fydden ni wedi colli'r dysgwyr hynny? Mae'n anodd gwybod, ond byddwn i'n amau hynny. Rwy'n meddwl mai dim ond gallu dweud wrth fyfyrwyr 'rydyn ni yma i chi'." (Arweinydd sefydliad, AU)

9.52 Adroddodd un arweinydd AB y defnyddiwyd rhywfaint o'r cyllid pontio i gefnogi dysgwyr â chyflyrau iechyd sylfaenol ac i ymestyn rhai o'u cyfnodau astudio a chefnogi pontio:

"Gan edrych ar yr agwedd bontio ar bethau ar gyfer dysgwyr y byddent […] wedi dod at ddiwedd eu rhaglen yn wreiddiol, ond oherwydd y cyfyngiadau a […] rhai lefelau eithaf difrifol o gyflyrau iechyd sylfaenol, wedi gweithio gyda ni bryd hynny i ymestyn rhai o'r cyfnodau astudio […] a gallen ni ddefnyddio rhywfaint o'r cyllid hwnnw'n greadigol i gefnogi proses bontio estynedig." (Arweinydd sefydliad, AB)

9.53 Roedd rhywfaint o dystiolaeth o wahaniaethau daearyddol o ran defnyddio'r cyllid a'i effeithiolrwydd. Fel y nododd un arweinydd DOC:

"Mae pob awdurdod lleol yn wahanol... allwch chi ddim cael jyst 'dyma'ch pot o arian, ffwrdd â chi' ac mae'n sefydlog, achos mae angen i bob ardal wneud ei beth ei hun ar gyfer ei dysgwyr ei hun, ei chymunedau ei hun." (Arweinydd sefydliad, DOC)

9.54 Felly, roedd sefydliadau a darparwyr yn wynebu heriau gwahanol gan ddibynnu ar yr ardal leol. Er enghraifft, nododd awdurdodau lleol/sefydliadau mwy gwledig sy'n gwasanaethu cymunedau gwledig yr her logistaidd o ddosbarthu offer digidol i ddysgwyr. Amlygodd adroddiadau gan ddysgwyr a gymerodd ran mewn grwpiau ffocws y problemau yr oeddent wedi'u hwynebu gyda chludiant, a gafodd ei gwtogi yn ystod y pandemig, ac mewn rhai achosion sydd heb ddychwelyd i wasanaeth 'llawn' a gyda chysylltedd, yn benodol gwasanaeth rhyngrwyd gwael/annibynadwy, mewn ardaloedd gwledig.

9.55 Er na thrafodwyd cymorth i ddysgwyr cyfrwng Cymraeg yn helaeth mewn cyfweliadau â rhanddeiliaid a grwpiau ffocws (er gwaethaf ysgogiadau), roedd rhai sefydliadau wedi cynnig cymorth wedi'i dargedu i'w dysgwyr. Parhaodd un sefydliad AB i gefnogi dysgwyr trwy eu "hyrwyddwyr y Gymraeg", a sicrhaodd un SAU fod gwasanaethau cwnsela ar gael mewn ieithoedd heblaw Saesneg. Nododd arweinwyr chweched dosbarth ysgolion broblemau penodol o ran recriwtio darparwyr/staff Cymraeg am fod y galw yn drech na'r cyflenwad, gan ei gwneud yn anodd defnyddio'r cyllid COVID-19 yn effeithiol. Lle'r oedd sefydliadau wedi llwyddo i symud dysgu drwy gyfrwng y Gymraeg ar-lein (gan greu adnodd dysgu cyfunol), roeddent yn awyddus i'w gynnal.

**Canlyniadau anfwriadol neu annisgwyl**

9.56 Cafodd rhanddeiliaid rywfaint o anhawster wrth nodi deilliannau anfwriadol neu annisgwyl y Cyllid Adferiad COVID-19, ac wrth ddatod hyn oddi wrth effeithiau ehangach y pandemig. Er enghraifft, nododd un cyfwelai fod y pandemig wedi creu

mwy o ymwybyddiaeth o hygyrchedd adeiladau (a ddygwyd i ffocws wrth geisio gadw pellter corfforol o fewn sefydliadau). Fodd bynnag, gwnaethant gydnabod nad oedd hyn yn uniongyrchol gysylltiedig â'r cyllid.

9.57 Yn yr un modd, roedd nifer o ddeilliannau nas rhagwelwyd fu'n deillio o ehangu dysgu cyfunol, a oedd wedi'u hysgogi gan y pandemig, ond wedi'u hwyluso gan y Cyllid Adferiad COVID-19. Er enghraifft, nododd cyfweleion ar draws y sector ôl-16 fod cyfleoedd dysgu cyfunol ehangach yn cynnig manteision i staff ac i ddysgwyr. Ystyriwyd bod gallu gweithio neu ddysgu o gartref yn arbennig o fanteisiol i'r rhai a oedd yn cael trafferth teithio o ganlyniad i anabledd a/neu gyfrifoldebau gofalu. Yn yr un modd, roedd gwelliannau nodedig mewn sgiliau digidol ymhlith dysgwyr DOC wedi effeithio ar gyfraddau cyrhaeddiad mewn cyrsiau digidol/TG.

> “Rydyn ni'n cyflawni rhywbeth fel cyfradd llwyddiant 90 y cant ar ein cyrsiau ICDL (Trwydded Yrru Gyfrifiadurol Ryngwladol)[62] etc. na fyddwn byth wedi'i darogan cyn i ni gael y cyllid hwnnw.” (Arweinydd sefydliad, DOC)

9.58 Yr hyn a oedd yn llai cadarnhaol oedd adroddiadau arweinwyr sefydliadau AB ac ALC eu bod wedi gweld lefel uwch o drosiant staff ers y pandemig a symud i ddysgu cyfunol, yn enwedig drwy ymddeoliad. Er i hyn greu aflonyddwch ar gyfer sefydliadau yn ogystal â materion staffio, a'i fod yn dueddol o gael ei ystyried yn newid negyddol, fe'i portreadwyd gan un arweinydd DOC fel ffactor cadarnhaol yn y tymor hwy am ei fod yn creu gweithlu mwy gwydn:

> “Maen nhw eisiau bod yno, maen nhw wedi uwchsgilio eu hunain mewn addysgu digidol ac maent yn fwy gwydn i newid.” (Arweinydd sefydliad, DOC)

### Cynnal deilliannau cadarnhaol

9.59 Roedd disgwyl i fuddsoddiadau a wnaed gan ddefnyddio'r Cyllid Adferiad COVID-19 arwain at effeithiau mwy hirdymor, er enghraifft, bod argaeledd cynyddol offer digidol, a llwyfannau dysgu cyfunol, yn cynnig rhwyd ddiogelwch ar gyfer y dyfodol.

> “Rydym yn parhau i ddosbarthu dyfeisiau digidol er bod mwyafrif yr addysgu nawr wedi dychwelyd i wyneb yn wyneb, mae ei angen ar y dysgwyr hyn i allu cwblhau aseiniadau ac wrth gwrs fel rhywbeth wrth gefn, os oes rhaid i ni symud

[62] Mae'r Drwydded Yrru Gyfrifiadurol Ryngwladol (ICDL), a oedd gynt yn Drwydded Yrru Gyfrifiadurol Ewropeaidd (ECDL) yn gymhwyster llythrennedd digidol a gydnabyddir yn rhyngwladol.

unrhyw ddysgu yn ôl ar-lein yn y dyfodol. Mae’n golygu sicrhau bod ganddyn nhw’r sgiliau i allu gwneud hynny.” (Arweinydd sefydliad, AB)

9.60 Yn yr un modd, roedd arweinwyr sefydliadau o'r farn y byddai buddsoddi mewn hyfforddiant i gefnogi lles o fudd parhaus i sefydliadau.

> “Bellach mae gennym adnodd anferth o bobl gymwysedig sydd ar gael i bobl ifanc neu oedolion a allai fod angen hynny. Hyd yn oed pethau syml fel nodi pan fydd rhywun yn cael trafferth a medru cyfeirio nhw. Bydd yr hyfforddiant hwnnw’n cael effaith hirdymor ar ein darpariaeth.” (Arweinydd sefydliad, DSW)

9.61 Fodd bynnag, ac fel y nodwyd gan gyfweleion o bob rhan o’r sector, roedd gwasanaethau estynedig yn gofyn am ymrwymiad parhaus, er enghraifft, sicrhau bod offer digidol a llwyfannau ar-lein yn cael eu cynnal a’u diweddaru, a bod hyfforddiant yn cael ei adnewyddu. Bu pryderon sylweddol hefyd ynghylch y pwysau parhaus a grëwyd gan COVID-19, yn ogystal â risgiau newydd, megis yr argyfwng costau byw.

> “Rwy’n meddwl yr oedd yn effeithiol iawn […] ond rwy’n meddwl y bydd sgil-effeithiau am 5-i-10 mlynedd […] Dwi ddim yn meddwl ein bod ni'n gwerthfawrogi maint y broblem yn llawn.” (Arweinydd sefydliad, AB)

9.62 Ar draws pob rhan o’r sector roedd barn gref, er gwaethaf dychwelyd i rywbeth sydd bron yn normal, bod llwythi gwaith staff yn parhau’n uchel gan adael ychydig iawn o le i fyfyrio ar/feddwl am ymwreiddio rhai o’r newidiadau cadarnhaol sydd wedi deillio o’r pandemig. Roedd hyn yn golygu, er bod yna awydd i fyfyrio ar brofiadau a dysgu gwersi o’r pandemig, yr oedd cwestiwn ehangach ynghylch gallu sefydliadau i wneud hynny.

9.63 Nododd arweinwyr hefyd fod yr amserlen ar gyfer defnyddio’r Cyllid Adferiad COVID-19 yn dynn, a bod hynny wedi arwain at danwariant mewn rhai sefydliadau. Pwysleisiodd rhanddeiliaid sefydliadol nad diffyg angen oedd yn gyfrifol am hyn. Yn yr un modd, teimlai un arweinydd AU y gallai'r cyllid caledi fod wedi cael ei ddefnyddio’n fwy effeithiol pe bai wedi cael ei ddosbarthu i ddysgwyr dros gyfnod hwy, a gyda meini prawf cymhwysedd a luniwyd yn fwy gofalus.

> “Efallai y byddai rhywfaint o’r cyllid wedi bod yn fwy effeithiol gyda chyfnod amser llai brys i’w wario.” (Arweinydd sefydliad, AU)

9.64 Pwysleisiodd rhanddeiliaid ar draws y sector ôl-16 bwysigrwydd y cyllid i gefnogi dysgwyr ond byddent wedi croesawu mwy o hyblygrwydd a chyfle i ailddyrannu unrhyw danwariant. Byddai’r gallu i ailddyrannu cyllid yn eu galluogi i ddefnyddio’r gwersi yr oeddent wedi’u dysgu yn ystod y pandemig, yn benodol, dysgu sut i wneud penderfyniadau gwariant gwell. Yn wir, dadleuodd cyfweleion o bob rhan o’r sector o blaid hyblygrwydd ynghylch sut a phryd y gallent ddefnyddio'r cyllid, gyda rhai'n nodi bod amserlenni gwariant yn arbennig o dynn i'r rheini a fu’n gweithio o fewn biwrocratiaeth awdurdodau lleol.

> “Er mor hyfryd yw’r cyllid, mae angen iddo fod ychydig yn ehangach am gyfnod hwy a gydag ychydig yn fwy o hyblygrwydd o ran sut y gallwn ddefnyddio cronfeydd o arian.” (Arweinydd sefydliad, DOC).

9.65 Bu cryn drafodaeth hefyd o'r heriau cyd-destunol parhaus a phwysigrwydd cyllid parhaus/tymor hwy, er mwyn i sefydliadau ôl-16 barhau i gefnogi dysgwyr yn y dyfodol.

9.66 Ar y cyfan, fodd bynnag, roedd yr adborth yn gadarnhaol, a theimlwyd bod yr ymateb a lefel y cyllid yn briodol i ddiwallu anghenion y sector:

> “Dydw i ddim yn meddwl y gallent [Llywodraeth Cymru] fod wedi cynnig unrhyw fwy, o ran bod yn gefnogol... Ni fyddwn yn eu beirniadu o gwbl, rwy’n credu y gwnaethon nhw ddelio’n dda iawn ag ef, ac rwy’n meddwl yr oedd y cyllid yn deg ac yn briodol ar gyfer yr hyn yr oedd ei angen arnon ni.” (Arweinydd sefydliad, AB)

# 10. Argymhellion

10.1 Mae’r adran hon yn cyflwyno’r argymhellion allweddol o’r gwerthusiad o Gyllid Adferiad COVID-19 Ôl-16 Llywodraeth Cymru gyda'r nod o gyfeirio’r gwaith o ddylunio modelau cyllido yn y dyfodol. Mae'r argymhellion yn seiliedig ar ganfyddiadau'r gwerthusiad a'n hadolygiad o'r hyn y gallai fframwaith gwerthuso yn y dyfodol ei gwmpasu (gweler Atodiad A).

**Eglurder gwybodaeth (ar ffrydiau cyllido a dosbarthu)**

10.2 Argymhelliad 1. Byddai gwybodaeth gliriach a symlach am faint o gyllid sydd ar gael o fewn ffrydiau cyllido gwahanol, a'u nodau, yn gwella tryloywder ei ddosbarthiad ar draws y sector ôl-16 a lleoliadau penodol o fewn y sector. Yn benodol, mae angen sicrhau bod yr wybodaeth hon yn cael ei chyflwyno a’i chyfathrebu’n gyson ar draws pob sianel a chynnyrch, gan gynnwys fformatau digidol. Argymhellwn ddarparu gwybodaeth glir am y cyllid sydd ar gael, sy'n mapio ffrydiau cyllido gwahanol, eu nodau a'u gwerth ariannol.

10.3 Argymhelliad 2. Yn y gwerthusiad hwn, roedd yn anodd sefydlu rhestr gynhwysfawr o sefydliadau a oedd wedi derbyn y cyllid. Yn ddelfrydol, dylai prif restr gynnwys dynodwr swyddogol (e.e., UKPRN) a data daearyddol (e.e., awdurdod lleol) i hwyluso cysylltiadau ar draws ffynonellau data lluosog. Bydd rhestr o'r fath yn darparu'r pwynt cyfeirio ar gyfer poblogaeth yr astudiaeth, yn sicrhau bod unrhyw waith gasglu data dilynol yn cynnwys yr holl sefydliadau'n gynhwysfawr, ac yn hwyluso adnabod data coll yn haws ar lefel sefydliadau. Gellid ei ddefnyddio hefyd fel man cychwyn ar gyfer cronfa ddata i goladu'r holl ddata GR. Argymhellwn lunio prif restr o'r holl sefydliadau a fydd yn derbyn y cyllid o'r cychwyn cyntaf.

**Gwybodaeth monitro a rheoli**

10.4 Bydd rhoi ystyriaeth weithredol i'r agweddau canlynol ar brosesau, canllawiau a chyfarwyddiadau data GR, yn ogystal â dylunio offer a mecanweithiau ar gyfer casglu data GR, yn gwella gallu Llywodraeth Cymru i asesu effeithiolrwydd ac effaith cyllid yn y dyfodol. Mae'r argymhellion yn yr adran hon wedi'u categoreiddio naill ai fel 'proses' (yn achos y rhai sy'n ymwneud â phrosesau trosgynnol Llywodraeth Cymru) neu fel 'casglu' (yn achos y rhai sy'n canolbwyntio ar agweddau mwy technegol ar gasglu data GR a fydd yn ofynnol yn y dyfodol).

10.5 Argymhelliad 3 (Proses). Awgryma canfyddiadau'r gwerthusiad y gallai disgwyliadau casglu data GR fod wedi'u cysylltu'n fwy eglur ag amcanion penodol ffrydiau cyllido unigryw (e.e., lle mae ffrydiau cyllido lluosog yn rhan o becyn cymorth cyffredinol). Yn yr un modd, awgryma'r dystiolaeth werthuso fod angen i ddisgwyliadau casglu data GR fod yn gymesur â lefel y cyllid a ddyrannir i sefydliadau. Byddai cyflwyno cysylltiadau agosach ag amcanion a symleiddio gofynion data yn ffocysu casglu data GR ar flaenoriaethau Llywodraeth Cymru ac yn cefnogi asesiad mwy cywir o'r cynnydd a gyflawnwyd, ac ar yr un pryd yn osgoi'r risg o orlwytho sefydliadau sydd â thimau/swyddogaethau cymorth gweinyddol llai, neu ddim o gwbl. Argymhellwn bennu'r gofynion monitro sydd ynghlwm wrth unrhyw gyllid yn y dyfodol ar ddechrau'r broses o ddylunio modelau cyllido. Yn benodol, gan ddarparu gwell eglurder a chydlyniant rhwng meini prawf cymhwysedd ar gyfer cymorth cyllido a'r cyfarwyddiadau o ran sut y dylai sefydliadau ôl-16 fonitro'r gwariant hwn ac adrodd arno.

10.6 Argymhelliad 4 (Proses). Mae asesiadau cywir o effeithiolrwydd ac effaith yn dibynnu ar gael gwaelodlin gadarn i fesur newid yn ei herbyn. Gall hyn gynnwys casglu gwybodaeth ychwanegol ar gyfer mentrau penodol sy'n mynd y tu hwnt i brosesau casglu data safonol neu gynnal dadansoddiad pellach o nodweddion, profiadau a safbwyntiau dysgwyr neu staff penodol. Argymhellwn ei gwneud yn ofynnol i bob sefydliad ôl-16 sy'n derbyn cyllid adrodd ar yr holl allbynnau a deilliannau sydd o ddiddordeb i Lywodraeth Cymru, sy'n berthnasol i'r sefydliadau ôl-16 gwahanol a'r cynllun gwerthuso a ddewiswyd, ar ddechrau'r cyfnod cyllido.

10.7 Argymhelliad 5 (Proses). Byddai sefydliadau ôl-16 yn croesawu gwell eglurder o ran sut y bydd unrhyw newidiadau i'r canllawiau neu baramedrau cyllido'n effeithio wedi hynny ar ofynion a chyfarwyddiadau monitro presennol. Nodwyd hyn yng nghyd-destun meini prawf cymhwysedd cynyddol ragnodol ar gyfer Cyllid Adferiad COVID-19 Ôl-16 Llywodraeth Cymru a phryderon ynghylch yr angen am ymgorffori newidiadau o'r fath wrth fonitro casglu data a dychweliadau data. Argymhellwn adolygu gofynion monitro, a chyfarwyddiadau cysylltiedig, pryd bynnag y gwneir newid i'r meini prawf cymhwysedd ar gyfer cymorth cyllido.

10.8 Argymhelliad 6 (Casglu). Her allweddol wrth gydgrynhoi'r gronfa ddata GR oedd gwahaniaethu rhwng 'data coll disgwyliedig' (h.y., data y rhagwelwyd y byddai ar goll gan nad oedd y sefydliad yn gymwys i dderbyn ffrwd gyllido benodol) a 'data

coll annisgwyl' (h.y., data nas rhagwelwyd y byddai ar goll am fod y sefydliad yn gymwys i dderbyn ffrwd gyllido benodol). Roedd hyn yn gysylltiedig ag anawsterau wrth bennu pa fathau o sefydliadau oedd yn gymwys i dderbyn ffrydiau cyllido penodol. Argymhellwn ddiffinio'n glir pa fathau o sefydliadau ôl-16 sydd â hawl i ffrydiau cyllido penodol o'r cychwyn cyntaf. Bydd pennu hyn yn gynharach yn y broses ymchwil yn caniatáu i werthusiad yn y dyfodol nodi 'data coll annisgwyl' a thargedu'r gwaith casglu data dilynol fel ei fod mor effeithiol ac effeithlon o ran adnoddau â phosib.

10.9 Argymhelliad 7 (Casglu). Yn y gwerthusiad hwn, darparwyd data GR ar gyfer adrannau chweched dosbarth i Ecorys ar lefel awdurdodau lleol, yn hytrach na lefel sefydliadau. Roedd hyn yn golygu bod adnodd wedi'i fuddsoddi mewn ymgysylltu â Llywodraeth Cymru ac awdurdodau lleol er mwyn cyrchu'r un data ar lefel sefydliadau, sef lefel y diddordeb ar gyfer y dadansoddiad. Dylai casglu, coladu a phrosesu data yn y dyfodol ddigwydd ar lefel y diddordeb, a hynny yn ôl pob tebyg fydd lefel sefydliadau o ran data GR. Argymhellwn gasglu, coladu a phrosesu data ar lefel sefydliadau.

10.10 Argymhelliad 8 (Casglu). Yn y gwerthusiad hwn, darparwyd y data GR a gasglwyd eisoes i Ecorys mewn cyfuniad o fformatau gan gynnwys taenlenni Excel, dogfennau Word a PDF. Byddai'n ddefnyddiol i waith casglu data yn y dyfodol gael ei wneud gan ddefnyddio offer casglu data sydd â chynifer o wiriadau dilysu caled neu feddal â phosib. Byddai gwiriadau dilysu caled yn gorfodi sefydliadau i ddarparu data mewn fformat penodol gan ddefnyddio opsiynau neu gyfyngiadau ymateb a ragnodir ymlaen llaw. Er enghraifft, gellid darparu rhestr o ymatebion cymeradwy o fewn offeryn casglu data y byddai sefydliadau'n ei ddewis o gwymplen, yn hytrach na gorfod mewnbynnu'r wybodaeth eu hunain. Ni fyddai gwiriadau dilysu meddal yn gorfodi ymatebion penodol drwy gyfyngiadau, ond yn hytrach yn darparu arweiniad ar sut y dylai ymatebion edrych. Er enghraifft, pan ddarperir ymateb, gellid cynhyrchu neges rhybudd awtomataidd i ofyn i ymatebwyr wirio a yw eu hymateb wedi'i ddarparu yn y fformat cywir. Gellid cyflawni offer casglu data gyda phriodweddau dilysu o'r fath trwy ddefnyddio taenlenni Microsoft Excel wedi'u dilysu neu gan ddefnyddio offer arolwg ar-lein fel Microsoft Forms. Bydd defnyddio offer o'r fath yn sicrhau bod y data a gesglir yn gyson ar draws sefydliadau a'i fod yn cyflawni isafswm lefel o ansawdd. Argymhellwn ddylunio offer casglu data sy'n

isafu'r posibilrwydd o wallau mewnbynnu data ac yn osgoi defnyddio templedi neu dablau casglu data yn Microsoft Word.

10.11 Argymhelliad 9 (Casglu). Yn y gwerthusiad hwn, bu i ni geisio llenwi data coll drwy ymgysylltu â sefydliadau a gofyn iddynt ddarparu gwybodaeth am y cyllid a ddarparwyd ac a wariwyd o leiaf flwyddyn ynghynt. Dylai casglu data yn y dyfodol geisio sicrhau proses hyblyg o gasglu data (bron mewn) amser real. Bydd hyn yn lleihau'r risg o gyflwyniadau anghywir a gall ganiatáu ymdrin â data coll yn barhaus. Gellid cyflawni'r math hwn o fecanwaith casglu data drwy, er enghraifft, ddarparu eu gwefan cwmwl ddiogel eu hunain i sefydliadau lle gallant uwchlwytho'r data gofynnol yn barhaus. Argymhellwn annog sefydliadau i gasglu a darparu data (bron mewn) amser real lle bynnag y bo modd.

10.12 Argymhelliad 10 (Casglu). Yn y gwerthusiad hwn, bu i ni ei chael hi'n anodd ymgysylltu â rhai o'r sefydliadau yr oeddem yn ceisio casglu data GR a oedd ar goll ganddynt. Er mwyn sicrhau cymaint o ymgysylltu â phosib gan sefydliadau addysg, sefydliadau neu gyrff allweddol, dylid cyfathrebu'n rheolaidd â sefydliadau (e.e., awdurdodau lleol ar gyfer adrannau chweched dosbarth ysgolion, Prifysgolion Cymru ar gyfer SAU a CholegauCymru (Colegau Cymru) ar gyfer sefydliadau AB). Argymhellwn ymgysylltu â sefydliadau perthnasol yn gynnar yn y broses casglu data.

**Cydweithio a rhannu gwybodaeth**

10.13 Argymhelliad 11. Cyfeiriodd sefydliadau'r sector at effeithiau lluosog, buddiol y grwpiau/fforymau a fu'n cefnogi eu cyfathrebiadau/cydweithredu agosach â Llywodraeth Cymru yn ystod y pandemig, yr oedd rhai ohonynt wedi'u sefydlu ar y dechrau a rhai eraill a fu'n bodoli eisoes. Roedd yr effeithiau cadarnhaol hyn yn cynnwys deialog fwy agored ac effeithiol gyda Llywodraeth Cymru ar flaenoriaethau a heriau cyllido, yn ogystal â gwneud penderfyniadau mwy amserol. Gallai archwilio dichonoldeb o ran ehangu'r cysylltiadau a'r perthnasoedd agosach hyn â sefydliadau sy'n cynrychioli'r sector, er enghraifft drwy grwpiau rhanddeiliaid sector parhaus, gynnal y manteision a adroddwyd. Argymhellwn nodi dulliau posib o gynnal y perthnasoedd mwy cydweithredol rhwng Llywodraeth Cymru a chyrff/sefydliadau sector ôl-16 a oedd yn angenrheidiol oherwydd y pandemig.

10.14 Argymhelliad 12. Mae canfyddiadau'r gwerthusiad yn amlygu'r angen parhaus am gynnig cymorth iechyd meddwl a lles i staff mewn sefydliadau ôl-16, ochr yn ochr â

phwysau parhaus ar lwyth gwaith staff a 'throsiant' mewn staff. Gallai cefnogaeth gan Lywodraeth Cymru hwyluso’r broses o rannu dysgu a thystiolaeth o ddulliau effeithiol o ran darparu'r fath gymorth, gan gynnwys unrhyw anghenion penodol mewn gwahanol sefydliadau ôl-16. Gallai nodi dulliau priodol o hwyluso'r math hwn o gyfnewid gwybodaeth ar draws y sector ôl-16 wella dulliau o fynd i’r afael â heriau parhaus a meithrin cynhyrchu mwy o dystiolaeth, a gwella'r defnydd ohoni, sy’n berthnasol i’r sector a’i ystod o sefydliadau. Argymhellwn ymchwilio i opsiynau coladu a rhannu arfer gorau a dysgu o ran darparu cymorth iechyd meddwl a lles i staff mewn sefydliadau ôl-16.

10.15 Argymhelliad 13. Dengys canfyddiadau o’n gwerthusiad mai un o’r meysydd lle’r oedd dysgwyr, yn enwedig y rhai mewn adrannau chweched dosbarth, lleoliadau AB ac AU, yn teimlo y cawsant eu cefnogi leiaf oedd o ran cymorth wrth bontio rhwng gwahanol lefelau addysg. Er mwyn cyfeirio gwaith parhaus yn y maes hwn, argymhellwn rannu’r canfyddiadau gwerthuso hyn â thimau perthnasol yn Llywodraeth Cymru; er enghraifft, gyda'r rhai sy'n gweithio mewn partneriaeth â CholegauCymru i beilota cymorth cysylltiedig fel rhan o'r Rhaglen Adnewyddu a Diwygio (o dan y categori 'Pontio a Llwybrau i Ddysgwyr’). Argymhellwn sicrhau bod canfyddiadau gwerthuso o ran canfyddiadau dysgwyr o gymorth i bontio rhwng gwahanol lefelau addysg yn cael eu rhannu â thimau rhaglen perthnasol Llywodraeth Cymru.

10.16 Argymhelliad 14. Dangosodd ein gwerthusiad fod y rhan fwyaf o sefydliadau ôl-16 yn ystyried bod cydweithredu â sefydliadau neu leoliadau eraill yn ymdrech gynhyrchiol. Fodd bynnag, dywedodd rhai fod cydweithredu gorfodol wedi bod yn fwy o faich na gweithgaredd gwerthfawr i gymryd rhan ynddo e.e., sefydliadau AU. Argymhellwn sicrhau bod unrhyw benderfyniadau cyllido yn y dyfodol yn gofyn am gydweithio pan fo'n berthnasol ac y gwyddys ei fod yn effeithiol.

10.17 Argymhelliad 15. Canfyddiad cyffredin yn ein gwerthusiad oedd bod sefydliadau ôl-16 yn gwerthfawrogi eu partneriaethau cydweithredu a dysgu a rennir â sefydliadau a lleoliadau eraill ac yn eu hystyried yn gadarnhaol, yn enwedig o ran rhannu dysgu am bynciau ymarferol a oedd yn berthnasol ar draws sefydliadau ôl-16. At hynny, mae diddordeb ar draws y sector ôl-16 mewn myfyrio ar eu profiadau unigol a chyfunol yn ystod y pandemig a dysgu ohonynt. Mae llawer yn cydnabod bod capasiti ac amser cyfyngedig i wneud hynny, felly mae cyfleoedd ar gyfer y fath

fyfyrio'n gyfyngedig. Gallai Llywodraeth Cymru annog a chefnogi'r dulliau cydweithredol parhaus hyn ymhellach drwy gydnabod yr ymrwymiad y mae sefydliadau ôl-16 wedi'i wneud i rannu eu dysgu a datblygu arfer da, er enghraifft drwy ryw fath o ddigwyddiad dathlu ar gyfer y sector neu drwy gydnabyddiaeth reolaidd o allbynnau'r partneriaethau a'r cydweithrediadau hyn. Argymhellwn ddathlu'r arfer da mewn gwaith cydweithredol ar draws sefydliadau ôl-16 yn ystod y pandemig, gan gefnogi sefydliadau i fyfyrio ar eu profiadau a dysgu oddi wrthynt.

**Proses a gweithredu**

10.18 Argymhelliad 16. Canfyddiad cyffredin ar draws yr holl leoliadau ôl-16 oedd ceisiadau am fwy o hyblygrwydd yn yr amserlenni cyllido gweithgareddau ac adnoddau a oedd yn gymwys i dderbyn cymorth cyllido. Bu canfyddiad bod hyn yn ffactor pwysig o ran lleihau cymhlethdod y broses o wneud penderfyniadau ar lefel awdurdodau lleol a gwella effeithiolrwydd y ffordd y caiff cyllid ei ddyrannu a'i reoli. Argymhellwn gynnig gwell hyblygrwydd o ran sut y gellir defnyddio cyllid ar lefel sefydliad/lleoliad, er enghraifft i ail-bwrpasu a/neu ailddosbarthu unrhyw danwariant, o fewn paramedrau'r dyraniadau cymorth a chyllid cymwys.

10.19 Argymhelliad 17. Gan ddilyn cyfnod cychwynnol yr ymateb brys i'r pandemig, profodd sefydliadau ôl-16 heriau oherwydd y defnydd o'r flwyddyn ariannol fel yr amserlen ar gyfer cynllunio a gwario Cyllid Adferiad COVID-19 Ôl-16 Llywodraeth Cymru, yn ogystal â chyflwyno rhai cyfnodau byrrach i wario'r cyllid a ddyrannwyd iddynt. Er iddynt gydnabod hyn fel mater sy'n codi dro ar ôl tro yng ngweithrediad ehangach cyllid Llywodraeth Cymru, mae sefydliadau ôl-16 o'r farn y byddai alinio dosbarthiad y cyllid â chylch y flwyddyn academaidd/ysgol, yn hytrach na chylch y flwyddyn ariannol, yn eu helpu i wella effeithiolrwydd wrth gynllunio a defnyddio'r cyllid. Argymhellwn ymchwilio i'r potensial am well aliniad rhwng y flwyddyn academaidd/ysgol a'r amserlenni ar gyfer dyrannu, dosbarthu a gwario cyllid.

**Anghenion gweithlu a dysgwyr parhaus/yn y dyfodol**

10.20 Argymhelliad 18. Bu symudiad sylweddol tuag at ddysgu cyfunol yn ystod y pandemig, ac ers iddo ddechrau. Rhoddodd hyn fwy o bwysau ar sgiliau digidol staff a dysgwyr i'w galluogi i ddylunio a chyflwyno dysgu yn y modd hwn. Mae canfyddiadau ein gwerthusiad hefyd yn adlewyrchu bod rhai aelodau o staff wedi gadael eu cyflogaeth yn y sector, a bu canfyddiad bod hyn yn rhannol oherwydd y pwyslais cynyddol ar, a'r gofyniad am, sgiliau digidol wrth gyflwyno dysgu ôl-16. O

ystyried pwysigrwydd cynyddol cymhwysedd digidol staff, gallai Llywodraeth Cymru ystyried unrhyw anghenion hyfforddi a datblygu gweithlu cysylltiedig fel rhan o adolygiad canol tymor o nodau ei fframwaith strategol Digidol 2030. Dylid rhoi ystyriaeth i anghenion sy'n ddibynnol ar leoliad; er enghraifft, cymorth penodol gan awdurdodau lleol ar gyfer y rhai sy'n gweithio yn y maes DOC i gefnogi dysgwyr sy'n wynebu rhwystrau ychwanegol i ddysgu digidol. Argymhellwn amlygu a blaenoriaethu'r angen parhaus am hyfforddiant a datblygu sgiliau digidol proffesiynol staff yn y sector ôl-16.

10.21 Argymhelliad 19. Croesawyd yr opsiynau i gymryd rhan mewn dysgu o bell neu drwy ddysgu cyfunol yn fawr gan ddysgwyr a adroddodd eu bod wedi profi rhwystrau amrywiol i ddysgu personol megis: y rhai sydd â chyfrifoldebau gofalu, dysgwyr sy'n byw ag anableddau, neu'r rhai sy'n byw mewn ardaloedd gwledig. Argymhellwn fod Llywodraeth Cymru yn adolygu i ba raddau y mae sefydliadau ôl-16 yn hysbysebu'r opsiynau dysgu o bell neu gyfunol sydd ar gael ac archwilio a yw dysgwyr yn ymwybodol o'r fath opsiynau.

10.22 Argymhelliad 20. Yn gyffredinol, roedd gan staff mewn sefydliadau ôl-16 ddealltwriaeth dda o'r cymorth oedd ar gael i ddysgwyr o ganlyniad i Gyllid Adferiad COVID-19 Ôl-16 Llywodraeth Cymru. Fodd bynnag, datgelodd canfyddiadau ein gwerthusiad hefyd fod gan leiafrif nodedig o staff (gan gynnwys ychydig dros un o bump a ymatebodd i'r arolwg staff) lai o ymwybyddiaeth o ba gymorth oedd ar gael i ddysgwyr, yn benodol mewn perthynas â'r cyllid. Yn y cyd-destun hwnnw, gallai fod yn ddefnyddiol ymchwilio ymhellach i natur cyfathrebiadau â staff ynghylch cymorth i ddysgwyr ac a yw diffyg ymwybyddiaeth yn fater y mae angen rhoi sylw iddo, mewn rhai o'r sefydliadau yn y sector ôl-16 neu ym mhob un ohonynt. Argymhellwn asesu'r angen am ymchwil bellach i archwilio cyfathrebiadau o fewn sefydliadau ôl-16 mewn perthynas ag argaeledd a natur cymorth i ddysgwyr, mewn mathau penodol o sefydliadau ôl-16.

**Fframwaith gwerthuso ar gyfer y dyfodol**

10.23 Argymhelliad 21. Ni chynhaliwyd astudiaeth ddichonoldeb fel rhagflaenydd i'r gwerthusiad hwn. Yn hytrach, ymgymerwyd ag ymarfer mapio manwl o ystyriaethau gwerthusiad effaith gwrthffeithiol ac asesiad gwerth am arian allweddol ar gyfer cyllid tebyg yn y dyfodol fel rhan o'r astudiaeth ehangach. Yn y dyfodol, argymhellwn y dylid ymgymryd ag astudiaeth dichonoldeb ochr yn ochr â dylunio

modelau cyllido'r dyfodol, neu'n fuan ar ôl gwneud hynny. Bydd yr astudiaeth dichonoldeb hon yn asesu a ellir cynnal gwerthusiad effaith gwrthffeithiol (CIE) ac asesiad gwerth am arian (VfM) o'r cyllid ai beidio. Bydd hefyd yn asesu'r opsiynau amrywiol ar gyfer asesu CIE a VfM, ac yn y pen draw yn nodi'r dulliau mwyaf cadarn a phriodol o wneud hynny.

10.24 Argymhelliad 22. Mae adborth ar rai o'r deilliannau a'r effeithiau yn y Theori Newid presennol yn awgrymu y gallai fod anawsterau wrth eu diffinio a'u mesur. Er enghraifft, gallai'r effaith “Mae gan y system yn ei chyfanrwydd seilwaith cryfach a'r gallu i fod yn gydnerth yn wyneb aflonyddwch yn y dyfodol” ddiffinio 'cydnerthedd' yn gliriach (a'i fesur wedyn). Argymhellwn adolygu deilliannau ac effeithiau yn y Theori Newid i sicrhau eu bod yn fesuradwy.

10.25 Argymhelliad 23. Er mwyn hwyluso gweithgarwch ymchwil a gwerthuso o safon uchel yn y dyfodol (er enghraifft, drwy gynnwys grŵp rheolydd/cymharu), yn ddelfrydol dylai casglu data rychwantu’r boblogaeth gyfan (h.y., yr holl sefydliadau ôl-16), hyd yn oed os nad yw rhai sefydliadau yn y pen draw yn gymwys i dderbyn cyllid/heb dderbyn cyllid mewn gwirionedd. Gallai hyn gael ei blethu i'r prosesau casglu data presennol (e.e., CYBLD, casglu ôl-16, SWAC) neu ffurfio cyfres casglu data newydd (e.e., arolwg staff/dysgwyr blynyddol). Argymhellwn ystyried casglu data'n rheolaidd ar draws y boblogaeth ar gyfer deilliannau ac effeithiau allweddol yn Theori Newid y rhaglen/ffrydiau cyllido.

10.26 Argymhelliad 24. Mae’r fframwaith deilliannau wedi gwneud dechrau cadarn o ran nodi setiau data gweinyddol allweddol y gellid eu defnyddio ar gyfer ymchwil yn y dyfodol, ond efallai y bydd rhai eraill. Gallai Llywodraeth Cymru ymgynghori’n rhagweithiol ag adrannau mewnol a rheolyddion data allanol (e.e., HESA) i sicrhau y gellir mesur cynifer o ddeilliannau ac effeithiau â phosib yn y Theori Newid gyda data gweinyddol. Bydd hyn hefyd yn sicrhau bod unrhyw waith casglu data sylfaenol yn y dyfodol yn isafu’r baich drwy ganolbwyntio dim ond ar y deilliannau a’r effeithiau hynny nad oes data ar gael eisoes ar eu cyfer. Argymhellwn fod Llywodraeth Cymru yn parhau i nodi data gweinyddol y gellid ei ddefnyddio ar gyfer ymchwil yn y dyfodol.

10.27 Argymhelliad 25. Yn y gwerthusiad hwn, rydym wedi argymell y dylai’r holl ddata, yn ddelfrydol, gael eu paru ar draws ffynonellau data fesul cyfuniad o ddynodwyr swyddogol (e.e., UKPRN) a dynodwyr uniongyrchol eraill lle bo angen (e.e., enw,

dyddiad geni). Os caiff offer casglu data newydd eu dyfeisio yn y dyfodol, dylid ystyried yn ofalus sut y caiff y data hyn eu paru â setiau data presennol mewn ffordd sydd mor ddidrafferth â phosib. Argymhellwn ystyried cysylltu data ym mhob gweithgaredd casglu data yn y dyfodol.

# 11. Atodiad A Fframwaith gwerthuso ar gyfer y dyfodol

11.1 Mae’r bennod hon yn nodi’r data sydd ei angen ar Lywodraeth Cymru i gynnal gwerthusiad effaith gwrthffeithiol (CIE) ac asesiad Gwerth am Arian (VfM) o gyllid ychwanegol a ddarperir yn y dyfodol. Mae hefyd yn cyflwyno canfyddiadau ymarfer mapio i amlygu'r anghenion data ar gyfer asesiad CIE a VfM o gyllid tebyg yn y dyfodol.

**Gwerthusiad effaith gwrthffeithiol**

11.2 Mae gwerthuso effaith gwrthffeithiol (CIE) yn ddull a ddefnyddir i amcangyfrif effaith rhaglen, ymyriad, polisi neu ffrwd gyllido benodol trwy gymharu’r deilliant gwirioneddol a arsylwir (yn y grŵp ymyriad) â’r hyn a fyddai wedi digwydd yn absenoldeb yr ymyriad (yn y grŵp rheolydd neu gymharu, y senario gwrthffeithiol). Trwy gymharu'r deilliant a arsylwir â'r deilliant gwrthffeithiol, gall ymchwilwyr bennu effaith achosol yr ymyriad ar ddeilliannau ac effeithiau o ddiddordeb.

11.3 Mae dau brif fath o CIE: hap-dreialon rheoledig (RCTs) a dyluniadau lled-arbrofol (QEDs). Mae RCTs yn neilltuo unigolion ar hap (e.e., dysgwyr, staff) neu grwpiau (e.e., darparwyr ôl-16) naill ai i dderbyn ymyriad ai beidio, gan greu grŵp rheolydd sydd, yn ddelfrydol, yn union yr un fath â’r grŵp triniaeth heblaw am y ffaith ei fod yn derbyn yr ymyriad. Fodd bynnag, ni ellir cyfiawnhau aseinio ar hap mewn llawer o gyd-destunau'n foesegol a/neu’n ymarferol yn logistaidd. Er enghraifft, nid yw’n debygol y buasai modd cyfiawnhau neilltuo cymorth brys ar hap i sefydliadau ôl-16 ar ddechrau’r pandemig yn foesegol oherwydd yr heriau sylweddol a gyflwynwyd gan COVID-19, nac yn ymarferol oherwydd pa mor gyflym y gwnaeth y pandemig newid cymdeithas, e.e., y cyfnod clo. Ar y llaw arall, nid yw QEDs yn defnyddio aseinio ar hap. Yn hytrach, mae QEDs yn dibynnu ar ddulliau ystadegol i adeiladu grŵp cymhariaeth sydd mor debyg â phosib i'r grŵp triniaeth. Mae QEDs a ddefnyddir yn gyffredin yn cynnwys gwahaniaeth-mewn-gwahaniaethau (sy’n amcangyfrif y gwahaniaeth cyfartalog rhwng y grŵp ymyriad a chymhariaeth cyn ac ar ôl i’r ymyriad ddigwydd), dyluniadau diffyg parhad atchweliad (sy’n manteisio ar feini prawf cymhwyster sy’n gysylltiedig ag ymyriadau, gan gymharu unigolion/grwpiau sydd ychydig islaw/uwchben y terfyn cymhwyster ymyriad) a pharu sgorau tuedd (sy'n defnyddio technegau ystadegol i baru unedau sydd wedi cael eu trin ag unedau heb eu trin, yn seiliedig ar y tebygolrwydd y byddant wedi derbyn yr ymyriad o ystyried y nodweddion cefndir perthnasol).

11.4 O safbwynt data, mae dau ofyniad allweddol er mwyn i effeithiau rhaglen ar ddeilliannau ac effeithiau yn y Theori Newid (ToC) gael eu profi gan ddefnyddio CIE. Y rhain yw bod data ar ddeilliannau:

- Ar gael ar gyfer grŵp yr ymyriad a'r grŵp rheolydd/cymharu
- Ar gael cyn ac ar ôl cyflwyno'r ymyriad.

11.5 Yn yr adran hon byddwn yn asesu argaeledd data i fesur deilliannau ac effeithiau yn Theori Newid y rhaglen yn feintiol, er mwyn llywio dichonoldeb posib CIE o gyllid yn y dyfodol gyda deilliannau ac effeithiau bwriadedig tebyg (gan gynnwys i ba raddau y mae data yn bodloni'r meini prawf uchod ar gyfer CIE lle bo modd).

**Deilliannau o ddiddordeb**

11.6 Gan ddefnyddio Theori Newid y cyllid adferiad COVID-19 ôl-16, bydd yr adran hon yn mapio argaeledd setiau data allweddol y gellid eu defnyddio ar gyfer CIE yn y dyfodol drwy fesur deilliannau ac effeithiau allweddol. Mae

11.7 Tabl 11. 11.1 yn amlygu deilliannau ac effeithiau o'r Theori Newid yr ydym wedi'u heithrio o'r ymarfer hwn a'r rheswm dros eithrio. Y prif resymau dros eithrio yw:

- Bod y deilliannau a’r effeithiau yn gritigol o ran amser (h.y., â chysylltiad cryf â'r pandemig COVID-19) gan olygu na fyddai mesur yn y dyfodol yn bosib nac yn briodol. Er enghraifft, y deilliant ar lefel sefydliadau 'Mae sefydliadau'n teimlo eu bod wedi'u harfogi i liniaru effeithiau'r pandemig ar gyflwyno arholiadau’.
- Nid yw'r deilliant/effaith yn ganolog i resymeg y cyllid ar gyfer darparwyr addysg ôl-16. Er enghraifft, y deilliant ar lefel y system 'Cyfathrebu a chydweithio mwy effeithiol rhwng y sector a Llywodraeth Cymru, a rhwng gwahanol rannau o Lywodraeth Cymru'.
- Anawsterau wrth fesur y deilliant/effaith. Er enghraifft, yr effaith ar lefel y system 'Mae gan y system gyfan seilwaith cryfach a chydnerthedd yn wyneb aflonyddwch yn y dyfodol’.

11.8 Mae Tabl 11.2 yn dangos mapio cynhwysfawr o’r ffynonellau data posib y gellid eu defnyddio i fesur deilliannau ac effeithiau allweddol yn y Theori Newid fel rhan o CIE yn y dyfodol. Ar gyfer pob deilliant ac effaith, mae’r fframwaith yn mapio:

- Sut y gellid mesur pob deilliant ac effaith (maes 'Mesur(au)').
- P'un a yw data eisoes yn cael ei gasglu i fesur deilliannau penodol, neu a fyddai angen casglu data sylfaenol, er enghraifft, trwy arolwg newydd (Maes 'Data sylfaenol neu eilaidd').

- Y ffynhonnell/ffynonellau data penodol y gellid eu defnyddio i fesur y deilliant neu effaith (maes 'Ffynhonnell/ffynonellau data').
- Ar ba lefel(au) y mae data ar gael neu y gellid ei gasglu (maes 'Lefel(au) casglu data neu argaeledd').
- Y lefel y caiff y deilliant neu'r effaith ei fesur yn ddelfrydol (maes 'Lefel(au) mesur deilliant delfrydol'). Gall hyn fod yn wahanol i lefel wirioneddol y mesuriad.

11.9 Lle bo’n berthnasol, rydym wedi ymgymryd â'r gweithgaredd hwn ar gyfer y gwahanol fathau o ddarparwyr ôl-16: adrannau chweched dosbarth ysgolion (CDY), Sefydliadau Addysg Bellach (SAB), Sefydliadau Addysg Uwch (SAU), Dysgu Seiliedig ar Waith (DSW) a Dysgu Oedolion yn y Gymuned (DOC).

**Tabl 11.1 Deilliannau ac effeithiau wedi'u heithrio o'r fframwaith deilliannau gyda'r rheswm dros eithrio**

| Math | Grŵp targed (System; Sefydliadau; Staff; Dysgwyr/myfyrwyr) | Disgrifiad | Rheswm dros eithrio |
|---|---|---|---|
| Deilliannau | System addysg ôl-16 | Gwell dealltwriaeth o'r ffyrdd y mae dysgwyr/myfyrwyr wedi cael eu niweidio a/neu eu rhoi dan anfantais gan y pandemig | Mae'r deilliant yn gritigol o ran amser (h.y., heb fedru casglu data dibynadwy ar hyn yn ôl-weithredol) |
| | | Cyfathrebu a chydweithio mwy effeithiol rhwng y sector a LlC, a rhwng gwahanol rannau o LlC | Nid yw'r deilliant yn ganolog i resymeg y cyllid |
| | Sefydliadau ôl-16 | Mae sefydliadau ar draws y sector wedi’u galluogi i gydweithio’n agosach, yn enwedig mewn perthynas â phontio | Nid yw'r deilliant yn ganolog i resymeg y cyllid |
| | | Mae sefydliadau mewn sefyllfa well i gefnogi anghenion lles emosiynol a chymdeithasol/iechyd meddwl | Mae'r deilliant yn gritigol o ran amser ac eisoes wedi'i gynnwys ar lefelau eraill |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | | dysgwyr/myfyrwyr a staff yn sgil y pandemig | |
| | | Mae sefydliadau'n teimlo eu bod wedi'u harfogi i liniaru effeithiau'r pandemig ar gyflwyno arholiadau | Mae'r deilliant yn gritigol o ran amser |
| | Staff | Mae gan staff fynediad at yr adnoddau digidol sydd eu hangen arnynt ac maent yn teimlo'n hyderus i gyflwyno dysgu cyfunol | Mae'r deilliant yn gritigol o ran amser |
| Effeithiau | System addysg ôl-16 | Mae gan y system gyfan seilwaith cryfach a chydnerthedd yn wyneb aflonyddwch yn y dyfodol. | Anawsterau wrth fesur yr effaith hon |
| | | Mae sefydliadau wedi'u cefnogi i gyflwyno prentisiaethau er gwaethaf yr aflonyddwch COVID | Mae'r effaith yn gritigol o ran amser |
| | Sefydliadau ôl-16 | Mae sefydliadau'n teimlo'n gryfach a'u bod yn gallu ymateb yn well i aflonyddwch yn y dyfodol | Anawsterau wrth fesur yr effaith hon |
| | | Cefnogwyd sefydliadau i liniaru yn erbyn aflonyddwch i ddysgu | Mae'r effaith yn gritigol o ran amser |
| | | Cefnogir sefydliadau i gynnal capasiti digonol yn ystod y pandemig | Mae'r effaith yn gritigol o ran amser. Gorgyffwrdd ag effeithiau recriwtio a chadw |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | Dysgwyr/myfyrwyr | Canfyddiadau dysgwyr/myfyrwyr yw bod effeithiau negyddol ar ddysgu oherwydd y pandemig wedi cael eu lliniaru | Mae'r effaith yn gritigol o ran amser |

**Tabl 11.2 Fframwaith deilliannau**

| Math | Grŵp targed (System; Sefydliadau; Staff; Dysgwyr/ myfyrwyr) | Disgrifiad (fel y nodir yn Theori Newid y rhaglen) | Mesur(au) | Data sylfaenol neu eilaidd? | Ffynhonnell/ Ffynonellau Data | Lefel(au) casglu data neu argaeledd | Lefel(au) delfrydol mesur deilliannau |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Deilliannau | Staff | Mae staff yn teimlo eu bod mewn sefyllfa well i ymateb i anghenion iechyd meddwl/ lles dysgwyr o ganlyniad i'r pandemig, ac i'w cyfeirio at y cymorth cywir | Hyder hunan-adroddedig staff i ymateb i anghenion iechyd meddwl/lles dysgwyr<br>Hyder hunan-adroddedig staff i gyfeirio dysgwyr/ myfyrwyr at y cymorth cywir ar gyfer anghenion iechyd meddwl/lles | Sylfaenol | Arolwg staff | Unigolyn | Unigolyn |
| | | Mae staff yn teimlo eu bod yn cael eu cefnogi o ran eu hanghenion lles cymdeithasol ac emosiynol | Lefelau cymorth hunan-adroddedig staff gan eu lleoliad o ran anghenion lles cymdeithasol ac emosiynol | Sylfaenol | Arolwg staff | Unigolyn | Unigolyn |

| | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | Mae staff yn teimlo'n gadarnhaol am eu gwaith ac mae'r llwyth gwaith yn teimlo'n hylaw | Boddhad hunan-adroddedig staff â'u swyddi | Sylfaenol | Arolwg staff | Unigolyn | Unigolyn |
| | Dysgwyr/ myfyrwyr | Mae effaith y pandemig ar hyder a chymhelliant dysgwyr wedi'i lliniaru drwy'r cymorth dysgu a ddarparwyd | Hyder hunan-adroddedig dysgwyr wrth ddysgu<br>Cymhelliant hunan-adroddedig dysgwyr wrth ddysgu | Sylfaenol | Arolwg dysgwyr | Unigolyn | Unigolyn |
| | | Mae'r cyllid wedi galluogi dysgwyr i gael y cyfle i baratoi ar gyfer cyflogaeth neu addysg bellach | Parodrwydd hunan-adroddedig dysgwyr ar gyfer cyflogaeth neu addysg bellach | Sylfaenol | Arolwg dysgwyr | Unigolyn | Unigolyn |
| | | Mae dysgwyr mewn sefyllfa well i gael mynediad at gymorth ar gyfer anghenion iechyd meddwl | Gallu hunan-adroddedig dysgwyr i gael mynediad i gymorth ar gyfer anghenion iechyd meddwl | Sylfaenol | Arolwg dysgwyr | Unigolyn | Unigolyn |

| | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | Mae gan ddysgwyr/myfyrwyr ddealltwriaeth well o lwybrau dilyniant | Dealltwriaeth hunan-adroddedig dysgwyr o lwybrau dilyniant | Sylfaenol | Arolwg dysgwyr | Unigolyn | Unigolyn |
| Effeithiau | System addysg ôl-16 | Mae camau wedi'u cymryd i sicrhau y lliniarwyd effeithiau hirdymor COVID-19 ar gyrhaeddiad a deilliannau dysgwyr/myfyrwyr yn y dyfodol | CDY: Mesurau perfformiad cyson ar gyfer dysgu ôl-16: cyflawniad (cyfradd cwblhau; % 3 A* i E)<br>SAB: Mesurau perfformiad cyson ar gyfer dysgu ôl-16: cyflawniad (cyfradd cwblhau; % 3 A* i E)<br>SAB: Cyfran cwblhau cyrsiau galwedigaethol SAB yn llwyddiannus<br>SAB: Cyfradd cyflogaeth graddedigion (h.y., cyfran yr ymadawyr o SAB yng Nghymru a oedd yn gweithio neu'n gweithio ac yn astudio 6 a / neu 15 mis ar ôl graddio) | CDY: Eilaidd<br>SAB: Eilaidd<br>SAU: Eilaidd<br>DSW: Eilaidd<br>DOC: Eilaidd | CDY: CDdAC, Casgliad Ôl-16<br>SAB: CDdAC, CDGOC<br>SAU: Data HESA<br>DSW: CDGOC<br>DOC: CDGOC | CDY: Unigolyn<br>SAB: Unigolyn<br>SAU: Unigolyn<br>DSW: Unigolyn<br>DOC: Unigolyn | ALI, system |

| | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | SAU: Cyfradd cyflogaeth graddedigion (h.y., cyfran yr ymadawyr o SAU yng Nghymru a oedd yn gweithio neu'n gweithio ac yn astudio, a oedd yn gweithio mewn swydd reoli / proffesiynol 6 a / neu 15 mis ar ôl graddio)<br>DSW: Cyfran y dysgwyr sy'n cwblhau prentisiaethau'n llwyddiannus<br>DOC: Cyfran sy'n cwblhau gweithgareddau Dysgu Oedolion yn llwyddiannus | | | | |
| | Sefydliadau ôl-16 | Cefnogwyd sefydliadau i barhau i recriwtio staff a dysgwyr/myfyrwyr yn ystod y | Cyfradd recriwtio staff: Nifer y staff yn y sefydliad i ar amser t nad oeddent yn sefydliad i ar amser t-1 fel cyfran o holl staff yr | CDY: Eilaidd<br>SAB: Sylfaenol<br>SAU: | CDY: CYBLD neu SWAC<br>SAB: Arolwg staff<br>SAU: Data | CDY: Unigolyn<br>SAB: Unigolyn<br>SAU: | Sefydliad, ALI, system |

| | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | pandemig | ysgol. | Eilaidd<br>DSW: Sylfaenol<br>DOC: Sylfaenol | HESA<br>DSW: Arolwg staff<br>DOC: Arolwg staff | Unigolyn<br>DSW: Unigolyn<br>DOC: Unigolyn | |
| | | | CDY: Nifer y derbyniadau chweched dosbarth fel cyfran o gyfanswm y lleoedd chweched dosbarth63<br>Pob un arall: Nifer y derbyniadau fel cyfran o gyfanswm nifer y lleoedd mewn sefydliadau | CDY: Sylfaenol<br>SAB: Eilaidd<br>SAU: Eilaidd<br>DSW: Eilaidd<br>DOC: Eilaidd | CDY: Dim byd wedi'i nodi<br>SAB: Data HESA<br>SAU: Data HESA<br>DSW: CDGOC<br>DOC: CDGOC | CDY: Dd/B<br>SAB: Unigolyn a Sefydliad<br>SAU: Unigolyn a Sefydliad<br>DSW: Unigolyn a Sefydliad<br>DOC: Unigolyn a Sefydliad | Sefydliad, ALI |
| | Staff | Gall staff gael mynediad i gymorth iechyd | Gallu hunan-adroddedig staff i gael mynediad i gymorth ar gyfer | Sylfaenol | Arolwg staff | Unigolyn | Unigolyn |

[63] Mae Llywodraeth Cymru wedi rhoi gwybod, ar gyfer pob math o sefydliad y tu allan i SAU, er y cesglir data ar y nifer o dderbyniadau, nid yw nifer y lleoedd o reidrwydd yn sefydlog. Gan hynny, mae'n bosib na fydd cyfrifo cyfradd derbyn (h.y., nifer y derbyniadau wedi'u rhannu â chyfanswm y lleoedd) yn y ffordd hon yn ymarferol nac yn briodol, o ystyried mai nifer y lleoedd yw'r enwadur wrth gyfrifo'r gyfradd. Felly, byddai angen i unrhyw werthusiad yn y dyfodol bennu a yw'n ymarferol neu'n briodol i adeiladu a defnyddio'r mesur deilliannau hwn ar gyfer gwerthusiad effaith gan gynnwys y mathau hyn o sefydliadau.

| | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | meddwl yn haws ar gyfer eu hanghenion lles | anghenion iechyd meddwl a lles | | | | |
| | | Mae staff eisiau aros yn y sector. Mae materion cadw a allai fod wedi codi o ganlyniad i'r pandemig yn cael eu lliniaru | Cyfradd cadw'r holl staff: Cyfran y staff yn sector *s* ar amser *t-1* sydd dal yn sector *s* ar amser *t* fel cyfran o'r holl staff yn y sector<br>Cyfradd cadw athrawon: Cyfran yr athrawon cymwysedig a heb fod yn gymwysedig yn y sector *s* ar amser *t-1* sydd dal yn sector *s* ar amser *t* fel cyfran o'r holl athrawon cymwysedig a heb fod yn gymwysedig yn y sector | CDY: Eilaidd<br>SAB: Eilaidd<br>SAU: Eilaidd<br>DSW: Sylfaenol<br>DOC: Sylfaenol | CDY: CYBLD neu SWAC<br>SAB: Data HESA<br>SAU: Data HESA<br>DSW: Arolwg staff<br>DOC: Arolwg staff | CDY: Unigolyn<br>SAB: Unigolyn<br>SAU: Unigolyn<br>DSW: Unigolyn<br>DOC: Unigolyn | Sefydliad, ALI, system |
| | | | Hunan-adroddodd staff ddisgwyliadau i aros yn y sector ôl-16 | Sylfaenol | Arolwg staff | Unigolyn | Unigolyn |

| | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | Dysgwyr/ myfyrwyr | Mae dysgwyr/ myfyrwyr yn gadael addysg gyda'r sgiliau hanfodol sydd eu hangen arnynt ar gyfer llwyddiant yn y dyfodol | Safbwynt hunan-adroddedig dysgwyr ynghylch cael y sgiliau hanfodol sydd eu hangen arnynt ar gyfer llwyddiant yn y dyfodol ar ôl gadael addysg | Sylfaenol | Arolwg dysgwyr | Unigolyn | Unigolyn |
| | | Mae gan ddysgwyr/ myfyrwyr (a rhieni) ddealltwriaeth well o lwybrau dilyniant | Gwybodaeth hunan-adroddedig dysgwyr am ffynonellau gwybodaeth am y llwybrau dilyniant sydd ar gael<br>Dealltwriaeth hunan-adroddedig dysgwyr o lwybrau dilyniant | Sylfaenol | Arolwg dysgwyr | Unigolyn | Unigolyn |
| | | | Dealltwriaeth hunan-adroddedig rhieni o lwybrau dilyniant dysgwyr | Sylfaenol | Arolwg rhieni | Unigolyn | Unigolyn |
| | | Mae'r cyllid wedi diwallu anghenion ychwanegol dysgwyr o ran | CDY: Sgôr pwyntiau cyfartalog fesul cais Safon Uwch (unigol)<br>CDY: Mesurau | CDY: Eilaidd<br>SAB: Eilaidd | CDY: CDdAC, Casgliad ôl-16<br>SAB: CDGOC<br>SAU: Data | CDY: Unigolyn<br>SAB: Unigolyn | Unigolyn, sefydliad, ALI, system |

| | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | cyrhaeddiad, cwblhau cyrsiau a phryderon iechyd meddwl a lles a godai o ganlyniad i'r pandemig | perfformiad cyson ar gyfer dysgu ôl-16: cyflawniad (cyfradd cwblhau; % 3 A* i E; Cyfradd lwyddo Bagloriaeth Cymru)[64] (sefydliad ac uwch)<br>SAB: Llwyddiant mewn addysg bellach (unigolyn)<br>SAB: Mesurau perfformiad cyson ar gyfer dysgu ôl-16: cyflawniad (cyfradd cwblhau; cyfradd llwyddiant) (sefydliad ac uwch)<br>SAB: Cyfradd cyflogaeth graddedigion (sefydliad ac uwch)<br>SAU: Dosbarthiad gradd fesul dysgwr mewn addysg uwch (unigolyn) | SAU: Eilaidd<br>DSW: Eilaidd<br>DOC: Eilaidd | HESA<br>DSW: CDGOC<br>DOC: CDGOC | SAU: Unigolyn<br>DSW: Unigolyn<br>DOC: Unigolyn | |

[64] Os yw'r dadansoddiad effaith yn y dyfodol am ddefnyddio data lefel unigol (a fyddai'n hybu meintiau sampl a phŵer ystadegol), yna gellir defnyddio sgôr pwyntiau gyfartalog fel mesur y deilliant. Os defnyddir data lefel sefydliad, yna o ran y mesurau perfformiad cyson ar gyfer dysgu ôl-16: gellir defnyddio cyflawniad fel y mesur y deilliant.

| | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | SAU: Cyfradd cyflogaeth graddedigion (sefydliad ac uwch)<br>DSW: Dosbarthiad cymhwyster fesul dysgwr mewn prentisiaethau Dysgu Seiliedig ar Waith<br>DOC: Dosbarthiad cymhwyster fesul dysgwr mewn gweithgareddau Dysgu Oedolion | | | | |
| | | | Cyfradd cwblhau: Cyfran y dysgwyr/ myfyrwyr mewn sefydliad *i* sydd wedi cwblhau cyrsiau perthnasol fel cyfran o'r holl ddysgwyr sy'n dilyn y cyrsiau hynny yn y sefydliad | CDY: Eilaidd<br>SAB: Eilaidd<br>SAU: Eilaidd<br>DSW: Eilaidd<br>DOC: Eilaidd | CDY: CDdAC, Casgliad ôl-16<br>SAB: CDGOC<br>SAU: HESA<br>DSW: CDGOC<br>DOC: CDGOC | CDY: Unigolyn<br>SAB: Unigolyn<br>SAU: Unigolyn<br>DSW: Unigolyn<br>DOC: Unigolyn | Sefydliada, ALI, system |

| | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | Iechyd meddwl a lles hunan-adroddedig dysgwyr | Sylfaenol | Arolwg dysgwyr | Unigolyn | Unigolyn |
| | | Mae dysgwyr/ myfyrwyr a allai fod wedi bod mewn perygl o fynd yn NEET o ganlyniad i'r pandemig yn cael eu cefnogi i aros mewn dysgu neu symud ymlaen at gyflogaeth | CDY: Cyfran y dysgwyr/myfyrwyr mewn addysg neu gyflogaeth barhaus (gan gynnwys prentisiaethau) am o leiaf 6 mis[65] ar ôl astudiaethau 16+.[66] | CDY: Eilaidd<br>SAB: Eilaidd<br>SAU: Eilaidd<br>DSW: Eilaidd<br>DOC: Eilaidd | CDY: Data Gyrfa Cymru ar gyrchfannau disgyblion<br>SAB: CDGOC<br>SAU: Data HESA o'r Arolwg Deilliannau Graddedigion<br>DSW: CDGOC<br>DOC: CDGOC | CDY: Unigolyn<br>SAB: Unigolyn<br>SAU: Unigolyn<br>DSW: Unigolyn<br>DOC: Unigolyn | Sefydliad, ALI, system |

[65] Gall yr amser priodol ar ôl astudio ar gyfer mesur yr effaith hon amrywio yn ôl y math o sefydliad ôl-16.

[66] Mae'r Warant i Bobl Ifanc yng Nghymru yn ymrwymo i ddarparu cymorth i bob person ifanc 16-24 oed i gael lle mewn addysg neu hyfforddiant, cymorth i ddod o hyd i waith neu hunangyflogaeth. Bydd hyn yn debygol o ddylanwadu ar y mesur deilliant hwn. Cyn unrhyw ddadansoddiad o effaith, byddai angen profi dichonoldeb y mesur deilliant o ran cynnal dadansoddiad cadarn. Er enghraifft, os yw'r gyfran yn isel, efallai y bydd y mesur deilliant yn rhy 'swnllyd' neu anwadal i'w effaith gael ei ddadansoddi'n gadarn ac yn ddibynadwy.

11.10 Mae'r gweithgaredd hwn yn datgelu y gellir mesur yr holl ddeilliannau ac effeithiau allweddol yn y Theori Newid gan ddefnyddio naill ai: (i) casglu data sylfaenol ar ffurf arolygon staff a dysgwyr, neu; (ii) ystod o setiau data eilaidd. Mae setiau data eilaidd allweddol yn cynnwys:

- Cronfa Ddata Arholiadau Cymru (CDdAC)
- Y Cyfrifiad Ysgolion Blynyddol ar Lefel Disgyblion (CYBLD)
- Casglu data Ôl-16
- Cyfrifiad Blynyddol Gweithlu Ysgolion (SWAC)
- Cofnod Dysgu Gydol Oes Cymru (CDGOC)
- Data'r Asiantaeth Ystadegau Addysg Uwch (HESA), gan gynnwys yr Arolwg Deilliannau Graddedigion (a chyn hynny, yr arolwg Cyrchfannau Ymadawyr Addysg Uwch)
- Tablau data Ystadegau Cymru
- Data Gyrfa Cymru.

11.11 O ran y ffynonellau data eilaidd a nodwyd yn Tabl 11.2, er bod data ar gael yn gyhoeddus ar gyfer llawer o'r deilliannau a'r effeithiau yn y Theori Newid (yn bennaf drwy Ystadegau Cymru), mae'n werth nodi ei fod ar gael ar ffurf gyfanredol yn unig (e.e., ar lefel awdurdodau lleol (ALl), neu fel ffigurau cyffredinol). I gael mynediad at ddata ar y lefelau optimaidd ar gyfer mesur deilliannau (unigolion neu sefydliadau fel arfer), bydd angen ymgysylltu ag adrannau perthnasol Llywodraeth Cymru ac asiantaethau perthnasol eraill (e.e., HESA). Mae hefyd yn werth nodi bod data HESA ar gael ar gais ar lefel unigol ond bod angen talu amdano.

11.12 Er bod casglu data sylfaenol ar ffurf arolygon yn caniatáu i rai o'r deilliannau ac effeithiau allweddol gael eu mesur a'u cynnwys mewn CIE yn y dyfodol, mae iddo nifer o risgiau a chyfyngiadau ychwanegol o gymharu â defnyddio setiau data eilaidd. Ymdrinnir â'r rhain yn fanylach yn yr adran Risgiau, ond mae Tabl 11.311.3 yn amlygu manteision allweddol defnyddio data eilaidd yn hytrach na chasglu data sylfaenol. Felly, argymhellwn fod Llywodraeth Cymru, lle bo modd, yn blaenoriaethu'r defnydd o setiau data eilaidd ar gyfer CIE. Er hynny, rhagwelwn y bydd casglu data sylfaenol yn hanfodol ar gyfer mesur rhai deilliannau ac effeithiau allweddol o ystyried nad ydynt yn cael eu casglu ar hyn o bryd mewn setiau data eilaidd.

**Tabl 11.3 Cymharu data sylfaenol ac eilaidd ar gyfer CIE**

| | Casglu data sylfaenol | Setiau data eilaidd |
|---|---|---|
| Argaeledd data yn y grŵp ymyriad a'r grŵp rheolydd/cymharu | Risg o gyfraddau ymateb isel i'r arolwg, gan gynhyrchu sampl bach a thueddol ac, o ganlyniad, dadansoddiad annigonol ac amcangyfrifon tueddol o'r CIE. Mae'r risg o ddiffyg data fel arfer yn uwch yn y grŵp rheolydd/cymharu, nad ydynt yn derbyn yr ymyriad ac felly gall y cymhelliad i gymryd rhan mewn arolygon gwerthuso fod yn is. | Mae casglu data eilaidd fel arfer yn cwmpasu'r rhan fwyaf/y cyfan o'r boblogaeth o ddiddordeb, felly mae'r risg o ddiffyg argaeledd data yn y grŵp ymyriad neu reolydd/cymharu yn tueddu i fod yn is o gymharu â chasglu data sylfaenol. |
| Argaeledd data cyn ac ar ôl ymyriad | Mae casglu data sylfaenol ar gyfer CIE yn aml yn ymwneud ag o leiaf ddau don neu bwynt amser o gasglu data: unwaith ar y waelodlin (h.y., yn syth cyn yr ymyriad) ac unwaith ar y diwedd (h.y., yn fuan ar ôl yr ymyriad). Gellir casglu data llinell ganol (h.y., yn ystod yr ymyriad) hefyd os yn briodol. Er mwyn i ddata fod yn ddefnyddiol, mae'n rhaid i ymatebwyr gymryd rhan ar draws pwyntiau amser casglu data, ac mae'n rhaid bod modd cysylltu'r data. Nid yw hyn bob amser yn wir, e.e., o ganlyniad i ddiffyg ymateb i'r arolwg, gwybodaeth anghyflawn. | Mae casglu data eilaidd yn aml yn arferol ac yn rheolaidd (e.e., blynyddol, chwarterol), gan gynnig pwyntiau data lluosog cyn ac ar ôl i ymyriad gael ei gyflwyno. |

**Ffynonellau data a chysylltiadau**

11.13 Er mwyn hwyluso CIE yn y dyfodol, mae'n debygol y bydd angen cysylltu ystod o setiau data, gan gynnwys:

- Data gwerthuso
- Data Gwybodaeth Monitro
- Data gweinyddol (ar gael yn gyhoeddus neu ar gais).

11.14 Rhagwelwn y bydd y cysylltu'n digwydd ar dair prif lefel mewn CIE yn y dyfodol:

- Unigolyn (dysgwyr; staff)
- Sefydliad (CDY; SAB; SAU; DSW; DOC)
- ALl.

11.15 Ni waeth ar ba lefel y mae angen cysylltu, rydym yn argymell casglu/defnyddio cyfeirnodau swyddogol unigryw i hwyluso'r gwaith cysylltu data. Er enghraifft, gallai hyn gynnwys:

- Unigolyn: Rhifau Unigryw Disgyblion (UPN); Rhifau Unigryw Dysgwyr; Dynodwyr unigryw myfyrwyr HESA; Cyfeirnodau Athrawon SWAC; Dynodwyr Staff HESA; Dynodwyr Unigryw Dysgwyr (LUI) CDGOC.
- Sefydliad: Cyfeirnodau Unigryw (URN); Cyfeirnodau Darparwr DU (UKPRN).
- ALl: Codau ALl.

11.16 Bydd y cyfeirnodau swyddogol unigryw hyn, ar y cyd â dynodwyr uniongyrchol eraill (e.e., enw, dyddiad geni, enw sefydliad a chod post, enw awdurdod lleol), yn sicrhau cyfradd baru uwch.

11.17 Gall fod yn anodd casglu cyfeirnodau swyddogol unigryw unigolion a sefydliadau fel rhan o gasglu data sylfaenol gan nad yw cyfranogwyr yn debygol o wybod yr wybodaeth hon. Lle bo'n bosib, rydym yn argymell dilysu offer casglu data i sicrhau bod data paru amgen yn cael eu casglu mewn ffordd gadarn. Er enghraifft, yn hytrach na chaniatáu i ddysgwyr/staff fewnbynnu enw a chod post eu sefydliad â llaw, argymhellwn ddefnyddio cwymplen wedi'i chysoni y gellir wedyn ei pharu â rhestr sy'n cynnwys URN neu UKPRN ar gyfer paru dilynol.

**Asesiad gwerth am arian**

11.18 Mae asesiad gwerth am arian (VfM) yn cynnwys cyfres o ddulliau a ddefnyddir i werthuso a yw adnoddau wedi cael eu defnyddio'n effeithiol ac yn effeithlon wrth gyflawni'r deilliannau ac effeithiau a ddymunir. Yn gyffredinol, mae asesiadau VfM

yn ymwneud â chymharu manteision ymyriad â'r costau a geir wrth ei weithredu.

Mae dulliau cyffredin o ymgymryd ag asesiadau VfM yn cynnwys:

- Dadansoddiad costau a buddion: Darparu amcangyfrifon o werth y deilliannau yn erbyn mewnbynnau cost.
- Dadansoddiad cost-effeithiolrwydd: Asesu deilliannau yn erbyn mewnbynnau cost.
- Dadansoddiad costau a buddion: Asesu effeithlonrwydd cyflwyno – allbynnau'r rhaglen yn erbyn mewnbynnau cost.
- Adenillion Cymdeithasol o Fuddsoddi (SROI): Math o ddadansoddiad costau a buddion sy'n pwysleisio deilliannau cymdeithasol ac ymgysylltu â rhanddeiliaid.
- Econometreg: Dulliau ystadegol o asesu problemau economaidd.

11.19 Mae nifer o fframweithiau a ddefnyddir yn gyffredin ar gyfer ymgymryd ag asesiadau VfM, gan gynnwys:

- Dull Gwerth am Arian '4 E' y Swyddfa Archwilio Genedlaethol
- Dadansoddiad Costau a Buddion Economi Newydd
- Llyfr Gwyrdd Trysorlys EF
- Fframwaith Dadansoddi Costau a Buddion Yr Adran Gwaith a Phensiynau.

**Ystyriaethau dylunio ac anghenion o ran data**

11.20 Rhestrir rhai o'r ystyriaethau allweddol wrth ddylunio asesiad VfM:

- Beth yw'r sail resymegol a'r achos economaidd dros asesiad VfM?
- Beth yw deilliannau ac effeithiau'r ymyriad fel y'u diffinnir yn y Theori Newid, gan gynnwys mesurau deilliannau sylfaenol ac eilaidd?
- A oes yna gymaryddion, meincnodau, ymchwil neu fodelau presennol i gymharu'r ymyriad â nhw a darparu cyd-destun? E.e., mathau eraill o gyllid tebyg y mae Llywodraeth Cymru wedi'u dosbarthu i ddarparwyr ôl-16 yn flaenorol?
- Beth yw costau uniongyrchol ac anuniongyrchol yr ymyriad? O ble y ceir gwybodaeth am y costau hyn (e.e. gwybodaeth am gyllidebau, rhanddeiliaid allanol, ymchwil ansoddol)?
- Beth yw buddion yr ymyriad i lywodraeth, yr economi a chymdeithas yn ehangach? O ble y daw gwybodaeth am y buddion hyn (e.e., gwybodaeth reoli fewnol a/neu ddata meintiol sydd ar gael yn gyhoeddus)?
- (Os yn berthnasol) Sut fydd buddion yr ymyriad yn cael eu trosoli o safbwynt cyllid (e.e., Cronfa Ddata Economi Newydd, Costau Unedol Iechyd a Gofal Cymdeithasol PSSRU)?

- A oes modd trosi buddion yr ymyriad i 'arian parod' (h.y., a ellir eu gwireddu)?
- Pwy yw buddiolwyr yr ymyriad (e.e., darparwyr addysg ôl-16, staff, dysgwyr, awdurdodau lleol, adrannau Llywodraeth Cymru)?
- Pa addasiadau a/neu ddadansoddiad sensitifrwydd y mae angen eu gwneud i'r costau a/neu'r buddion i ganiatáu ar gyfer difuddiant (beth fyddai wedi digwydd beth bynnag), amnewid (cyllid yn disodli cyllid neu weithgaredd economaidd arall), gollwng (cyllid nad yw ei effaith yr hyn a fwriadwyd), dirywiad (deilliannau sy'n lleihau dros amser), etc?
- Beth yw'r cyfnod amser ar gyfer dadansoddi'r data, a sut mae hyn yn cyd-fynd ag amseriad a hyd costau/buddion yr ymyriad? A ddisgwylir i'r costau/buddion barhau am fwy na blwyddyn? (Os felly, cymhwysir cyfradd ddisgownt flynyddol Llyfr Gwyrdd EF fel arfer). A oes angen unrhyw ragamcanion o gostau/buddion yn y dyfodol neu fodelu yn y dyfodol?
- A oes unrhyw oedi yn y data a allai gyfyngu ar y dadansoddiad?
- Beth yw'r bylchau allweddol yn y data, os o gwbl, a sut ellir eu llenwi?
- Pa wybodaeth arall ydych chi wedi'i chasglu'n uniongyrchol neu'n anuniongyrchol a allai fod o gymorth?

11.21 Rhestrir y gofynion data cyffredinol ar gyfer gweithredu asesiad VfM (rydym yn nodi lle mae angen data dim ond ar gyfer mathau penodol o asesiad VfM):

- Costau uniongyrchol a geir drwy gyflwyno'r ymyriad, er enghraifft drwy gyllidebau, data ariannol neu wybodaeth reoli;
- Costau anuniongyrchol a geir drwy ddarparu'r ymyriad, er enghraifft drwy bartneriaid allanol, ymgynghoriadau ansoddol, ymchwil eilaidd;
- Allbynnau (ar gyfer dadansoddiad cost-effeithiolrwydd), er enghraifft drwy ymchwil sylfaenol neu eilaidd, gwybodaeth reoli neu ddata ystadegol – ar lefelau prosiect, rhaglen, lleol, rhanbarthol, cenedlaethol neu ryngwladol;
- Deilliannau neu effeithiau (ar gyfer dadansoddiad cost-effeithiolrwydd neu ddadansoddiad costau a buddion, gan gynnwys SROI), er enghraifft drwy ymchwil sylfaenol neu eilaidd, gwybodaeth reoli neu ddata ystadegol – ar lefelau prosiect, rhaglen, lleol, rhanbarthol, cenedlaethol neu ryngwladol;
- (Os yn berthnasol) Data cost unedol i roi gwerth ariannol i ddeilliannau (e.e., Cronfa Ddata Economi Newydd, Costau Unedol Iechyd a Gofal Cymdeithasol PSSRU);
- Cymaryddion, meincnodau, ymchwil neu fodelau presennol er cymhariaeth ac i ddarparu cyd-destun, er enghraifft drwy ymgynghoriadau ansoddol neu ymchwil eilaidd

- Ymchwil a dealltwriaeth o ddifuddiant, cyfraddau disgownt, etc. Er enghraifft, Llyfr Gwyrdd Trysorlys EF, papurau ymchwil yr Adran Gwaith a Phensiynau.

**Risgiau**


11.22 Mae Tabl 11.411.4 yn amlinellu risgiau allweddol i unrhyw asesiad CIE neu VfM yn y dyfodol o gyllid tebyg, o ystyried yr wybodaeth a goladwyd yn yr ymarfer hwn. Ar gyfer pob risg, nodir y tebygolrwydd y bydd y risg yn digwydd ynghyd â'i goblygiadau, ac amlinellir camau lliniaru a awgrymir.

**Tabl 11.4 Asesiad o risgiau i asesiad CIE/VfM o gyllid tebyg yn y dyfodol**

| Risg | Tebygolrwydd ac effaith Uchel/ Canolig/ Isel | Camau lliniaru a awgrymir |
|---|---|---|
| Cyfraddau ymateb isel pan fydd angen casglu data sylfaenol ar gyfer asesiad CIE/VfM (yn enwedig yn y grŵp rheolydd/cymharu) | Tebygolrwydd: C<br>Effaith: U | ▪ Llunio arolygon ar y cyd â staff a dysgwyr lle bo modd (e.e., drwy undebau a grwpiau cynrychioli eraill)<br>▪ Treialu'r broses casglu data i nodi ac ymdrin ag unrhyw gymhellion i fethu ag ymateb i arolygon<br>▪ Canllawiau clir a chryno ar sut i gymryd rhan mewn gweithgareddau casglu data, ar ffurf ysgrifenedig a/neu drwy sesiwn holi ac ateb os yn ymarferol<br>▪ Dylunio offer casglu data cynradd (e.e., arolygon) i fod mor gryno â phosib (10-15 munud yn ddelfrydol)<br>▪ Cynnig cymhelliad priodol i gwblhau arolygon lle bo modd (i'w ddarparu ar ôl cwblhau'r arolwg terfynol er mwyn cynyddu cyfranogiad)<br>▪ Cadw arolygon yn fyw am o leiaf 4 wythnos i ddarparu cymaint o hyblygrwydd â phosib<br>▪ Amseru gweinyddiad yr arolwg i osgoi tagfeydd ar gyfer darparwyr ôl-16 (e.e., gwyliau, gweithgareddau casglu data mewnol cyfredol lle bo modd (e.e., drwy integreiddio eitemau'r arolwg i weithgareddau casglu data mewnol cyfredol sydd eisoes yn cael eu cynnal gan sefydliadau, gan Lywodraeth Cymru neu gan randdeiliad arall er mwyn lleihau'r baich).<br>▪ Cynnal dadansoddiad grymus yn rheolaidd i fonitro cadernid yr ystadegau o ystyried y cyfraddau ymateb |

| Risg | **Tebygolrwydd ac effaith** Uchel/ Canolig/ Isel | **Camau lliniaru a awgrymir** |
| --- | --- | --- |
| Anallu i baru data ar draws pwyntiau amser casglu, lle mae angen casglu data sylfaenol | Tebygolrwydd: I<br>Effaith: U | ▪ Dylunio arolygon i gasglu gwybodaeth baru berthnasol ar lefel unigolion (e.e., enw llawn, dyddiad geni, lleoliad) ac ar lefel sefydliadau (cyfeirnod, enw a chod post y sefydliad) ar y ddau bwynt amser<br>▪ Sicrhau bod cwestiynau'r arolwg sy'n ymwneud â pharu yn fandadol<br>▪ Lle bo modd, dilyswch ymatebion i gwestiynau am wybodaeth baru (e.e., defnyddio gwymprestr i ofyn i ymatebwyr fewnbynnu gwybodaeth am y sefydliad)<br>▪ Os yn bosib, defnyddio dolenni arolwg unigryw ar gyfer unigolion, yn hytrach na dolenni agored sydd angen eu rhaeadru |
| Pan ddefnyddir data eilaidd, ni ellir darparu mynediad (neu ni ellir ei ddarparu mewn pryd) | Tebygolrwydd: I<br>Effaith: U | ▪ Ymgysylltu â rheolyddion data perthnasol yn gynnar yn y broses, i adael digon o amser ar gyfer y broses gymhwyso<br>▪ Dyrannu amser i nodi cymaryddion, meincnodau, ymchwil neu fodelau presennol er cymhariaeth ac i ddarparu cyd-destun, yn gynnar yn yr astudiaeth os yn bosib |
| Ansicrwydd wrth ddadansoddi neu ddod i gasgliadau (e.e., hyd y deilliannau, oedi mewn data yn atal cywirdeb neu ddilysrwydd data) | Tebygolrwydd: U<br>Effaith: I | ▪ Dylid darparu ystod o amcangyfrifon, lle bo'n berthnasol<br>▪ Cymhwyso dadansoddiad sensitifrwydd (tybiaethau amrywiol) i'r dadansoddiad gwerth am arian<br>▪ Cymhwyso cyfradd ddisgownt flynyddol Llyfr Gwyrdd Trysorlys EF i ddeilliannau yr amcangyfrifir y byddant yn para am fwy na blwyddyn |

## Atodiad B Diagram ffrydiau cyllido



# Atodiad C Theori Newid

**Cefndir:** Ceisiodd cyllid adferiad Ôl-16 LIC ymdrin â'r canlynol
1. Nodi ac ymdrin ag effeithiau'r pandemig ar ddysgwyr/ myfyrwyr, lleoliadau dysgu a staff
2. Targedu'r ymyriadau mwyaf effeithiol, gyda'r nod o liniaru effeithiau hirdymor, parhaus ac anghyfartal ar ddysgwyr/ myfyrwyr a chyfleoedd i gyflawni eu potensial dysgu
3. Defnyddio dysgu o'r pandemig i wneud y sector yn fwy cydnerth yn wyneb heriau'r dyfodol.

**Nodiadau:**
1. Defnyddir yr ymadrodd 'Ôl-16' yma i gyfeirio at: adrannau 6ed dosbarth ysgolion, Colegau Addysg Bellach (AB), Sefydliadau Addysg Uwch (AU), Dysgu Seiliedig ar Waith (DSW) a darparwyr Dysgu Oedolion yn y Gymuned (DOC).
2. Mae dysgu cyfunol yn cyfeirio at ddysgu trwy gyfryngau electronig ac ar-lein yn ogystal â dysgu wyneb yn wyneb traddodiadol

**Cyd-destun**

Mae'r pandemig wedi creu anghenion cymorth ychwanegol ar gyfer dysgwyr mewn addysg Ôl-16 a'r aelodau staff sy'n eu cefnogi yn 2020-22

Mae'r pandemig wedi cyflymu'r symud tuag at ddysgu cyfunol, gan sicrhau ei bwysigrwydd wrth gyflwyno addysg Ôl-16 yn y dyfodol

Mae hyn wedi gwaethygu'r gagendor digidol a chyflymu'r angen am gymorth digidol

Mae aflonyddwch i ddysgu wedi cael effaith barhaus ar iechyd meddwl, ymddygiad a disgyblaeth dysgwyr/ myfyrwyr wrth iddynt symud i'r sector Ôl-16 o 2022/23 ymlaen

Mae'r pandemig wedi newid dulliau gweithio o fewn y sector Ôl-16 - mae hyn wedi arwain at rai newidiadau cadarnhaol, yn enwedig o ran cyfathrebu rhwng sefydliadau a gyda Llywodraeth Cymru

Mae lefelau uchel o amrywiaeth yn y sector Ôl-16 yn amlygu pwysigrwydd dull wedi'i deilwra o roi cymorth. Mae'r dull wedi'i deilwra hwn yn bwysig ar lefel sefydliadol ac unigol

**Mewnbynnau**

Dros £294m o gyllid adferiad COVID Ôl-16 a chronfeydd wedi'u hail-bwrpasu, wedi'u cyflwyno ar draws gwahanol ffrydiau

Staff
Llywodraeth Cymru (dadansoddwyr, polisi) a chyrff aelodaeth y sector i gefnogi'r gwaith o ddyrannu a darparu'r cyllid

Canllawiau LIC ar ddefnyddio'r cyllid ar draws ffrydiau

Asesiad o'r effaith ar gydraddoldeb - systemau a sefydliadau a all gefnogi dysgwyr sydd â nodweddion gwarchodedig

**Gweithgareddau**

Cydweithio ar draws y sector.

Cyllid wedi'i ddosbarthu i ddarparwyr ar gyfer:

- Cymorth digidol/dysgu cyfunol

- Cymorth iechyd meddwl a lles i staff a dysgwyr/ myfyrwyr

- Pontio dysgwyr/ myfyrwyr

- Dilyniant a dal i fyny

- Addasiadau ymarferol i'r ddarpariaeth e.e. cadw pellter cymdeithasol, mesurau diogelu

- Canllawiau ar ddefnyddio'r cyllid ychwanegol

- Gweithgorau i ddatblygu canllawiau ac arfer da fel rhan o'r Cynllun Cydnerthedd

**Allbynnau**

Ar lefel y system:
- Gwell cydweithio a chyfathrebu ar draws y sector - rhwng lleoliadau dysgu a gyda LIC

Sefydliadau:
- Mae lleoliadau dysgu wedi darparu cymorth iechyd meddwl a lles i ddysgwyr/ myfyrwyr a staff mewn ymateb i anghenion a grëwyd gan y pandemig
- Mae lleoliadau dysgu wedi darparu gweithgareddau dal i fyny i'r rhai sydd eu hangen

Staff:
- Mae gan staff fynediad at yr offer digidol sydd eu hangen arnynt i barhau â dysgu cyfunol
- Mae staff yn teimlo'n ddigon hyderus yn eu sgiliau digidol i gyflwyno dysgu cyfunol fel y bo angen
- Mae gan staff fynediad at y cymorth iechyd meddwl a lles sydd ei angen arnynt

Dysgwyr/ myfyrwyr:
- Mae gan ddysgwyr/ myfyrwyr fynediad at yr adnoddau digidol a'r cysylltedd sydd eu hangen arnynt i ymwneud â dysgu cyfunol
- Mae cyllid cyflogaeth i gefnogi cyflogwyr prentisiaeth yn lleihau'r risg y bydd dysgwyr a chyflogwyr yn colli allan ar gyfleoedd oherwydd y pandemig, e.e. trwy gyngor gyrfaol
- Mae gan ddysgwyr/ myfyrwyr fynediad at amser addysgu ychwanegol lle bo angen
- Mae gan ddysgwyr/ myfyrwyr fynediad at y cymorth iechyd meddwl a lles sydd ei angen arnynt
- Mae gan ddysgwyr/ myfyrwyr fynediad at y cymorth pontio a dilyniant sydd ei angen arnynt
- Mae gan ddysgwyr/ myfyrwyr fynediad at gymorth cyflogadwyedd a dysgu ymarferol

**Deilliannau**

Ar lefel y system:
- Mae gwell dealltwriaeth o'r ffyrdd y mae dysgwyr/myfyrwyr wedi cael eu niweidio a/ neu eu rhoi dan anfantais gan y pandemig
- Mae cyfathrebu a chydweithio mwy effeithiol rhwng y sector a LIC, a rhwng gwahanol rannau o LIC

Sefydliadau:
- Mae sefydliadau'n teimlo eu bod wedi'u harfogi'n well i gefnogi anghenion lles/ iechyd meddwl emosiynol a chymdeithasol dysgwyr/ myfyrwyr a staff yn sgil y pandemig
- Mae sefydliadau'n teimlo eu bod wedi'u harfogi i liniaru effeithiau'r pandemig ar gyflwyno arholiadau
- Mae sefydliadau ar draws y sector wedi'u galluogi i weithio gyda'i gilydd yn agosach, yn enwedig mewn perthynas â phontio

Staff:
- Mae staff yn teimlo eu bod wedi'u harfogi'n well i ymateb i anghenion iechyd meddwl/ lles dysgwyr/ myfyrwyr o ganlyniad i'r pandemig, a'u cyfeirio at y cymorth cywir
- Mae staff yn teimlo y cânt eu cefnogi yn eu hanghenion lles cymdeithasol ac emosiynol
- Mae gan staff fynediad at yr adnoddau digidol sydd eu hangen arnynt ac maent yn teimlo'n hyderus i gyflwyno dysgu cyfunol
- Mae staff yn teimlo'n gadarnhaol am eu gwaith ac mae'r llwyth gwaith yn teimlo'n hylaw

Dysgwyr/ myfyrwyr:
- Mae effaith y pandemig ar hyder a chymhelliant dysgwyr/myfyrwyr wedi'i lliniaru drwy'r cymorth dysgu a ddarparwyd
- Mae'r cyllid wedi galluogi dysgwyr/ myfyrwyr i gael y cyfle i baratoi ar gyfer cyflogaeth neu addysg bellach
- Mae gan ddysgwyr/ myfyrwyr fynediad gwell at gymorth ar gyfer anghenion iechyd meddwl
- Mae gan ddysgwyr/ myfyrwyr ddealltwriaeth well o lwybrau dilyniant

**Effeithiau**

Ar lefel y system:
- Mae gan y system yn ei chyfanrwydd seilwaith a chydnerthedd cryfach yn wyneb aflonyddwch yn y dyfodol
- Cymerwyd camau i sicrhau y lliniarwyd effeithiau hirdymor COVID-19 ar gyrhaeddiad a deilliannau dysgwyr/myfyrwyr yn y dyfodol
- Cefnogir sefydliadau i gyflwyno prentisiaethau er gwaethaf yr aflonyddwch COVID

Sefydliadau:
- Mae sefydliadau'n teimlo'n gryfach ac y gallant ymateb yn well i aflonyddwch yn y dyfodol
- Cefnogwyd sefydliadau i barhau i recriwtio staff a dysgwyr/myfyrwyr yn ystod y pandemig
- Cefnogwyd sefydliadau i gynnal digon o gapasiti yn ystod y pandemig
- Cefnogwyd sefydliadau i liniaru yn erbyn aflonyddwch i ddysgu

Staff:
- Gall staff gael mynediad i gymorth iechyd meddwl yn haws ar gyfer eu hanghenion lles
- Mae staff eisiau aros yn y sector. Mae materion cadw a allai fod wedi codi o ganlyniad i'r pandemig yn cael eu lliniaru

Dysgwyr/ myfyrwyr:
- Canfyddiadau dysgwyr/ myfyrwyr yw bod effeithiau negyddol ar ddysgu oherwydd y pandemig wedi cael eu lliniaru
- Mae dysgwyr/ myfyrwyr yn gadael addysg gyda'r sgiliau hanfodol sydd eu hangen arnynt i lwyddo yn y dyfodol
- Mae gan ddysgwyr/myfyrwyr (a rhieni) ddealltwriaeth well o lwybrau dilyniant
- Mae'r cyllid wedi diwallu anghenion ychwanegol dysgwyr/myfyrwyr o ran cyrhaeddiad, cwblhau cyrsiau a phryderon iechyd meddwl a lles a gododd o ganlyniad i'r pandemig
- Mae dysgwyr/ myfyrwyr a allai fod wedi bod mewn perygl o fynd yn NEET o ganlyniad i'r pandemig yn cael eu cefnogi i aros mewn dysgu neu symud ymlaen at gyflogaeth